Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2025-26

Gorffennaf 2026



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon:** 2025-26

Gorffennaf 2026

senedd.cymru

# Cynnwys

**Trosolwg.......... 7**

Rhagair.......... 8

Cyflwyniad.......... 9

Datganiad o ddiben.......... 13

Comisiynwyr.......... 15

Cynghorwyr Annibynnol.......... 18

Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn.......... 20

Strwythur llywodraethu.......... 22

Trefniadau rheoli'r Comisiwn.......... 23

Crynodeb o'r gweithgareddau.......... 26

**Dadansoddi Perfformiad.......... 29**

Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol.......... 30

Proffil risg.......... 42

Adolygiad ariannol.......... 46

Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf.......... 51

Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn.......... 73

Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy.......... 85

**Atebolrwydd ........ 107**

Llywodraethu Corfforaethol ........ 108

Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu........ 111

Datganiad Llywodraethu ........ 113

Staff a thaliadau ........ 131

Atebolrwydd ac archwilio........ 151

Y Dystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd........ 158

**Datganiadau ariannol ........ 167**

Nodiadau i gyd-fynd â'r Cyfrifon ........ 174

Atodiad – adrodd ar reoleidd-dra ........ 203

◗ **Y Siambr newydd**
Mwy o faint ac wedi'i diweddaru i 96 o Aelodau o'r Seithfed Senedd eistedd ynddi.



# Trosolwg

Mae'r adran Trosolwg hon yn darparu gwybodaeth am ddiben, strwythur a nodau strategol y Comisiwn, a rhai gweithgareddau allweddol sydd wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf.





**Y Gwir Anrhydeddus**
**Elin Jones AS**
**Llywydd**
Senedd Cymru

# Rhagair

## Wrth gyflwyno fy adroddiad blynyddol olaf fel Llywydd, hoffwn ddiolch i swyddogion y Comisiwn, y mae eu gwaith diflino a'u hymroddiad wedi golygu bod cyflawniadau sylweddol i'w nodi wrth i ni fyfyrio ar y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r Comisiwn wedi gweithio'n gyflymach nag erioed o'r blaen i sicrhau bod yr holl baratoadau angenrheidiol ar waith i groesawu 96 o Aelodau o'r Senedd yn dilyn yr etholiad ym mis Mai.

Cwblhawyd y prosiect uchelgeisiol a heriol i ehangu'r Siambr ar amser, sy'n golygu bod gan yr Aelodau bellach ofod addas at y diben sydd wedi'i gynllunio i sefyll prawf amser. Mae swyddogion hefyd wedi cefnogi'r Pwyllgor Busnes a Fforwm y Cadeiryddion i gynnal adolygiad manwl o'r rheolau a'r gweithdrefnau seneddol, sy'n golygu bod y Seithfed Senedd wedi etifeddu canllaw cadarn a dibynadwy ar gyfer llywio busnes y Senedd.

Yn y cyfnod cyn yr etholiad, mae swyddogion y Comisiwn wedi bod yn chwarae rhan allweddol o ran annog y cyhoedd i gofrestru i bleidleisio a'u hysbysu am y newidiadau sy'n deillio o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), sef system fwy cyfrannol ac ethol 96 o Aelodau, gyda chwe chynrychiolydd ym mhob un o’r 16 etholaeth newydd.

Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Comisiwn wedi parhau i arloesi yn y ffordd y mae'n ymgysylltu â’r Aelodau, gan arwain at agor yr Hwb – canolfan gymorth ymarferol sy'n adlewyrchu adborth yr Aelodau am sut maent yn cael mynediad at wybodaeth ac sydd eisoes wedi ennill ei phlwyf fel adnodd gwerthfawr. Ymgynghorwyd yn eang hefyd â’r Aelodau am feysydd yn amrywio o gyllideb y Comisiwn i brosiect Siambr 26 i gynigion ar gyfer sicrhau swyddfeydd yn y dyfodol pan ddaw prydles Tŷ Hywel i ben yn 2032.

Mae gweithio hybrid wedi parhau i fod yn nodwedd o sut mae'r Senedd yn gweithredu, gan gynnig hyblygrwydd i'r rhai sydd ei angen ac adlewyrchu ymrwymiad y sefydliad i fod yn fodern a chynhwysol.

Edrychaf ymlaen at weld y Seithfed Senedd o safbwynt gwahanol ac rwy'n dymuno'n dda i'r Llywydd newydd a'r garfan o Aelodau wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau o ran dwyn y llywodraeth i gyfrif a chynrychioli holl bobl Cymru.

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, Llywydd**
**Senedd Cymru**



**Manon Bonner**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

# Cyflwyniad

## Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, bu’r Comisiwn yn cefnogi’r Senedd drwy flwyddyn brysur o ddeddfwriaeth ac ymgysylltiad, gan gynnal safonau uchel o reolaeth ariannol a llywodraethu ac, ar ben hynny, wynebu'r her o baratoi ar gyfer newid mawr.

Mae etholiad eleni yng Nghymru yn gweld un o'r newidiadau mwyaf ers i'r Cynulliad Cenedlaethol ddod i fodolaeth ym 1999, wrth i'r Senedd gynyddu o 60 i 96 o Aelodau. Nid yn unig y bydd pobl Cymru yn ethol mwy o Aelodau, llawer ohonynt yn gwbl newydd i'r Senedd, ond mae gennym etholaethau newydd a ffordd newydd o bleidleisio hefyd.

Mae hyn wedi golygu hyd yn oed mwy o waith paratoi nag arfer inni fel Comisiwn gan ein bod wedi cynllunio ar gyfer diwedd y Chweched Senedd a dechrau'r Seithfed.

Rydym wedi paratoi ein hadeiladau, gan wneud lle i swyddfeydd ychwanegol i'r Aelodau o fewn adeilad presennol Tŷ Hywel. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i Siambr y Senedd. Mae'r Siambr wedi'i haddasu nid yn unig yn darparu lle i'r 96 o Aelodau, ond mae hefyd yn cynnig hygyrchedd gwell, systemau darlledu a TGCh wedi'u huwchraddio ac yn parhau i weithredu gyda chynaliadwyedd yn greiddiol iddi.

Rydym hefyd wedi bod paratoi ein staff, gan sicrhau bod gennym y sgiliau angenrheidiol a digon o adnoddau i gefnogi mwy o Aelodau o fewn cyllideb a reolir yn ofalus, gyda'n holl wasanaethau'n cymryd rhan mewn gweithdai cynllunio senarios i edrych ar y gwahanol bosibiliadau y gallai'r Seithfed Senedd eu cynnig.

Rydym wedi datblygu rhaglen groeso a chynefino ar gyfer yr Aelodau newydd a'r staff cymorth. I helpu gyda hynny, rydym wedi sefydlu 'Hwb' i’r Aelodau. Mae'r Hwb yn ofod ffisegol ac ar-lein, gyda lle galw heibio ar gyfer cyfarfodydd anffurfiol neu fentrau ymgysylltu, ond hefyd lle ar y fewnrwyd i’r Aelodau ddod o hyd i unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnynt.

Rydym wedi cefnogi ein pwyllgorau i sicrhau y gellid gwneud newidiadau deddfwriaethol a gweithdrefnol mewn pryd ar gyfer y Seithfed Senedd, ac wedi cynnal Adolygiad o Senedd sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd i wirio pa mor dda y mae rheolau, diwylliant, cyfleusterau a phrosesau gwneud penderfyniadau'r Senedd yn cynrychioli ac yn gwasanaethu pawb.

Rydym hefyd wedi bod yn ymgysylltu â'r cyhoedd, a fydd yn gweld newid mawr yn y ffordd y maent yn pleidleisio y tro hwn. Gan weithio gyda phartneriaid allanol, rydym wedi lansio ymgyrch ymwybyddiaeth cyfathrebu allanol, sy'n cynnwys cyfathrebu digidol, y tu allan i'r cartref, teledu, radio a digwyddiadau ar draws canol dinasoedd.

Ynghyd â hyn, mae ein timau wedi bod allan ar lawr gwlad yn cyflwyno sesiynau addysg i'r rhai sy'n gymwys i bleidleisio am y tro cyntaf ac mae ein tîm allgymorth cymunedol wedi bod yn ymweld â phob etholaeth newydd.

Gyda'i gilydd, mae'r gwaith hwn wedi golygu ein bod wedi paratoi'n dda ar gyfer y Seithfed Senedd ac i gefnogi un o'r adegau pwysicaf yn hanes y Senedd. Rwy'n falch o'r ymroddiad, y proffesiynoldeb a'r hyblygrwydd a ddangoswyd gan ein staff yn ystod blwyddyn heriol iawn.

Wrth i'r Seithfed Senedd ddechrau, rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Aelodau newydd eu hethol i'w cefnogi i wasanaethu pobl Cymru.

**Manon Bonner,**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**



**Pêl-fasged Cymru**
yn y Senedd yn lansio eu strategaeth ar gyfer cynhwysiant.

# Datganiad o ddiben

## Senedd Cymru

Senedd Cymru yw’r corff sy’n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a’i phobl. Mae’r Senedd, fel y’i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

## Comisiwn y Senedd

Mae Comisiwn y Senedd yn cefnogi’r Senedd er mwyn helpu i hwyluso ei llwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd a deddfwrfa gref, hygyrch, cynhwysol a blaengar sy’n gweithredu’n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

## Nodau Strategol Comisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Darparu cymorth seneddol o’r radd flaenaf
- Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn
- Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

## Blaenoriaethau i Gomisiwn y Senedd ar gyfer y Chweched Senedd

- Darparu cymorth i’r Aelodau ar draws yr ystod o fusnes ac addasu i anghenion yr Aelodau.
- Ymateb i, a hwyluso newid cyfansoddiadol, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyngsefydliadol a dysgu.
- Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy.
- Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais.
- Annog ac ysbrydoli dinasyddion i gymryd rhan yn ein trafodaethau ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Sefydlu’r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru, sy’n arwain y ffordd fel sefydliad dwyieithog.
- Rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn.
- Adeiladu a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau.
- Cynllunio a rheoli ariannol a phrosiectau effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd.
- Rhoi sicrwydd drwy drefniadau llywodraethu priodol, a dangos gwerth am arian.
- Darparu amgylchedd diogel ac iach i weithio ac ymgysylltu.

# Comisiynwyr

## Mae *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* yn rhagnodi bod Senedd Cymru (y Senedd) yn penodi Comisiynwyr sy'n gyfrifol am ddarparu'r staff a'r adnoddau sydd eu hangen ar y Senedd i gyflawni ei rôl yn effeithiol i bobl Cymru.

Y Comisiynwyr sy'n gyfrifol am drefniadau llywodraethu'r sefydliad ac maent yn atebol i'r Senedd. Ymhlith cyfrifoldebau'r Comisiynwyr fel y 'bwrdd llywodraethu' mae gosod nodau strategol y sefydliad, darparu'r arweinyddiaeth i'w rhoi ar waith, goruchwylio'r ffordd y caiff y nodau strategol hynny eu cyflawni a chyflwyno adroddiadau a bod yn atebol i'r Senedd o ran eu stiwardiaeth.

Caiff y Comisiwn ei gadeirio gan y Llywydd ac mae'n cynnwys pedwar Aelod o'r Senedd sydd wedi'u penodi gan y Senedd. Mae gan y Comisiynwyr gyfrifoldeb ar y cyd dros benderfyniadau, ac mae ganddynt statws cyfartal mewn trafodaethau, ac mae pob aelod o'r Comisiwn yn cael ei gynnwys yn llawn yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae gan bob Comisiynydd bortffolio penodol o gyfrifoldebau.



**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS (Plaid Cymru), *hyd at 12 Mai 2026***

Y Llywydd yw Cadeirydd y Comisiwn ac mae ganddi hefyd gyfrifoldeb fel Comisiynydd dros gyfathrebu a phortffolio'r gyllideb o fis Awst 2025.

Roedd y Gwir Anrhydeddus Elin Jones yn bresennol mewn deuddeg allan o ddeuddeg o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Hefin David AS (Llafur Cymru), *hyd at 12 Awst 2025***

Y Comisiynydd yn gyfrifol am y gyllideb a llywodraethu (gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

Roedd Hefin David yn bresennol mewn pedwar o bedwar cyfarfod y Comisiwn, ac un o ddau gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



***Janet Finch-Saunders AS (Ceidwadwyr Cymreig), hyd at 2 Mehefin 2026***

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy.

Roedd Janet Finch-Saunders yn bresennol mewn deuddeg allan o ddeuddeg o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Lesley Griffiths AS (Llafur Cymru),** ***hyd at 2 Mehefin 2026***

Penodwyd ar 1 Hydref 2025

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am lywodraethu (gan gynnwys bod yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg).

Roedd Lesley Griffiths yn bresennol mewn saith o saith cyfarfod y Comisiwn, a dau o ddau o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Adam Price AS (Plaid Cymru), hyd at 2 Mehefin 2026**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am ieithoedd swyddogol.

Roedd Adam Price yn bresennol mewn un ar ddeg allan o ddeuddeg o gyfarfodydd y Comisiwn.



**Joyce Watson AS (Llafur Cymru), hyd at 2 Mehefin 2026**

Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am gydraddoldeb.

Roedd Joyce Watson yn bresennol mewn deg allan o ddeuddeg o gyfarfodydd y Comisiwn.



# HEFIN WYN DAVID

## 13 AWST 1977 —
## 12 AWST 2025

Etholwyd Hefin yn Aelod o'r Senedd ym mis Mai 2016. Gwasanaethodd ar Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, ac arweiniodd grwpiau trawsbleidiol ar brifysgolion a Covid Hir. Cafodd ei benodi yn Gomisiynydd â chyfrifoldeb dros gyllideb a llywodraethu ym mis Ebrill 2024.

Talodd y Llywydd deyrnged i Hefin, gan gydnabod ei fod wedi ymgymryd â chyfrifoldeb y Comisiynydd Cyllid "gyda chymaint o broffesiynoldeb, diwydrwydd a medrusrwydd".

Fel Comisiynydd, roedd Hefin yn hyrwyddo ymgysylltu a chyfathrebu â'r Aelodau ar faterion yn ymwneud â Chyllideb 2026-27 a'r prosiectau newid mawr a gynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn. Roedd yn eiriolwr angerddol dros y Senedd a gellid dibynnu arno bob amser i weithredu fel llais y Comisiwn gyda deinameg, didwylledd, ac annibyniaeth meddwl a enillodd barch iddo ar draws y sbectrwm gwleidyddol.

# Cynghorwyr Annibynnol

## Mae'r Comisiwn yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau bod Comisiynwyr a thîm gweithredol y Comisiwn yn cael her adeiladol a sicrwydd bod trefniadau llywodraethu yn gywir, yn effeithiol ac yn briodol.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn gweithredu mewn capasiti cynghorol, anwleidyddol. Maent yn unigolion sydd â chyfoeth o brofiad o ystafell fwrdd, llywodraeth, y sector cyhoeddus a'r sector preifat, sy'n cyflwyno arbenigedd, sgiliau a dealltwriaeth amrywiol, er mwyn helpu'r Comisiwn i gyrraedd ei safonau uchel ei hun o lywodraethu da a defnydd effeithiol o arian cyhoeddus. Gallant ddarparu mewnwelediad gwrthrychol a her adeiladol a rhoi sicrwydd.

Mae'r Cynghorwyr Annibynnol yn ymwneud â nifer o weithgareddau'r Comisiwn, gan weithredu fel cyfeillion beirniadol ar brosiectau, drwy ryngweithio â meysydd gwasanaeth y Comisiwn, yn eu rolau ar bwyllgorau cynghorol i'r Comisiwn a thrwy gyfrannu safbwynt allanol ac annibyniaeth i'n llywodraethu corfforaethol.

### Tâl

Mae Cynghorwyr Annibynnol yn derbyn tâl amhensiynadwy o £5,000 y flwyddyn, gyda £7,000 y flwyddyn i'r Cadeiryddion.



**Robert (Bob) Evans (Tachwedd 2018 - Heddiw)**
Dechreuodd Bob ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ac yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mis Tachwedd 2018. Ym mis Chwefror 2019, cafodd ei benodi yn Gadeirydd y Pwyllgor hwnnw.

Roedd Bob Evans yn bresennol mewn pedwar allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Dr Aled Eirug (Ebrill 2019 - Heddiw)**
Dechreuodd Aled ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Ebrill 2019 ac roedd yn aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hyd at fis Gorffennaf 2023. Fe'i benodwyd yn Gadeirydd y Pwyllgor Taliadau ym mis Tachwedd 2023.

Roedd Aled Eirug yn bresennol mewn un allan o un cyfarfod o'r Pwyllgor Taliadau. Mae Aled yn un o wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac mae wedi bod yn bresennol mewn un allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Dr Mark Egan (Tachwedd 2022 - Presennol)**
Dechreuodd Mark ei benodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae Mark Egan wedi bod yn bresennol mewn pedwar allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.



**Professor Uzo Iwobi (Tachwedd 2022 - Presennol)**
Dechreuodd Uzo ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Taliadau. Mae Uzo hefyd yn aelod o'r Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant ac mae'n un o wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ac mae wedi mynuchu tri allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae Uzo Iwobi wedi mynychu un allan o un cyfarfod y Pwyllgor Taliadau, a dau allan o bedwar o gyfarfodydd y Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant.



**Menai Owen-Jones (Tachwedd 2022 - Presennol)**
Dechreuodd Menai ei phenodiad yn Gynghorydd Annibynnol ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau. Mae Menai hefyd yn aelod o Grŵp Llywio'r Gweithlu.

Mae Menai Owen-Jones wedi mynychu pedwar allan o bedwar o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, un allan o un cyfarfod y Pwyllgor Taliadau, a phedwar allan o bump o gyfarfodydd Grŵp Llywio'r Gweithlu.

# Uwch-arweinyddiaeth y Comisiwn



**Manon Bonner**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006, dirprwyir swyddogaethau Comisiwn y Senedd, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros reoli staff, i'r Prif Weithredwr a'r Clerc, yn unol â nifer o eithriadau ac amodau.

Y Prif Weithredwr hefyd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Er mwyn ei chefnogi, mae gan y Prif Weithredwr dîm o Gyfarwyddwyr sy'n rhannu'r cyfrifoldeb dros reolaeth gorfforaethol strategol yn ychwanegol at y cyfrifoldebau penodol a amlinellir.



**Arwyn Jones**
**Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu**
Darparu gwasanaethau cymorth y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys cymorth i swyddfa'r Llywydd a'r uwch-dîm rheoli, gwasanaethau ysgrifenyddiaeth i'r byrddau corfforaethol a'r Comisiwn.

Darparu cyfieithu a chofnodi, gan gynnwys y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, a darparu TGCh a'r Swyddfa Rhaglenni. Mae'n sicrhau bod gwasanaethau cyfathrebu corfforaethol, ymgysylltu ag ymwelwyr a gwybodaeth gyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon ac yn effeithiol.



**Julian Luke**
**Cyfarwyddiaeth Busnes y Senedd**
**O 7 Gorffennaf 2025**
Darparu gwasanaethau seneddol, cyfreithiol, llywodraethu gwybodaeth, cyfansoddiadol ac ymchwil arbenigol i'r Senedd, gan sicrhau bod busnes y Senedd yn cael ei ddarparu'n effeithlon ac yn effeithiol, gan gynnwys pasio deddfwriaeth drwy'r Senedd a darparu cyngor arbenigol diduedd i Aelodau o'r Senedd.[1]




**Edward (Ed) Williams**
**Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd**
Darparu swyddogaethau Ystadau a Chyfleusterau, Adnoddau Dynol, Diogelwch, Caffael, yr Uned Cynllunio Strategol a Llywodraethu Corfforaethol a Sicrwydd. Mae'r Prif Swyddog Ariannol, sy'n gyfrifol am y strategaeth ariannol gorfforaethol, cynllunio, rheoli'r gyllideb, taliadau a phensiynau yn adrodd i Ed Williams.



**Huw Williams**
**Prif Gynghorydd Cyfreithiol**
Darparu cyngor cyfreithiol arbenigol a diduedd i'r Llywydd, y Comisiynwyr, Aelodau o'r Senedd, y Prif Weithredwr ac adrannau eraill Comisiwn y Senedd.

[1] Roedd Matthew Richards, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, yn swydd Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd hyd at 6 Gorffennaf 2025.

# Strwythur Llywodraethu




## Cyrff Cynghori Annibynnol

**Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg**
Adolygu a monitro effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheolaethau mewnol a rheoli risg.

**Y Pwyllgor Taliadau**
Yn rhoi sicrwydd mewn perthynas â thaliadau'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr.

# Trefniadau rheoli'r Comisiwn

## Y Bwrdd Gweithredol

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am sicrhau bod adnoddau ariannol ac adnoddau staffio'r Comisiwn wedi'u cynllunio i fodloni gofynion hysbys. Yn benodol, yn unol â nodau strategol y Comisiwn, mae'n gyfrifol am gynllunio a blaenoriaethu cronfa brosiectau'r Comisiwn sy'n canolbwyntio ar gynnal a chadw'r ystad, darparu gwasanaethau TGCh effeithiol a darparu prosiectau newydd i wella perfformiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys y Cyfarwyddwyr, y Prif Swyddog Cyllid, y Prif Swyddog Pobl, a Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol. Dyma'r corff gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Mae hefyd yn gorff ymgynghorol i'r Comisiwn, wrth osod strategaeth, nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, y gyllideb, a rheoli risgiau corfforaethol.

## Bwrdd Newid y Seithfed Senedd

Elfen sylweddol o gyfrifoldeb y Bwrdd Gweithredol oedd darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol ar raglen newid y Comisiwn mewn perthynas â'r Seithfed Senedd[2]. Er mwyn goruchwylio a llywio'r newidiadau sylweddol sy'n ofynnol ar gyfer y newid hwn i'r Seithfed Senedd, sefydlwyd Bwrdd Newid Senedd 26 i gefnogi cyflawniad amrywiol ffrydiau gwaith i weithredu'r newidiadau sy'n angenrheidiol ar gyfer y Senedd ehangach.

Cafodd y Bwrdd Newid ei adnewyddu'n sylfaenol yn ystod 2025-26 i fireinio atebolrwydd am gyflawni a goruchwylio Strategaeth Newid Senedd 26. O dan ei Gylch Gwaith wedi'i adnewyddu, mae tri Uwch-swyddog Cyfrifol yn atebol i'r Bwrdd am wahanol elfennau o gyflawni'r strategaeth o fewn eu cylchoedd gorchwyl, fel a ganlyn:

- Uwch-swyddog Cyfrifol Llety'r Senedd
- Uwch-swyddog Cyfrifol yr Etholiad

[2] Mae Rhaglen Newid y Comisiwn yn cynnwys nifer o brosiectau a mentrau, a reolir gan dimau amrywiol yn y Senedd. Yr Uned Gynllunio Strategol sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros gyflwyno adroddiad ar gynnydd, eithriadau, risgiau a materion i'r Bwrdd Gweithredol yn rheolaidd.

- Uwch-swyddog Cyfrifol y Senedd a Staff

Caiff y Bwrdd Newid ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae'n cynnwys aelodaeth graidd o'r Bwrdd Gweithredol, wedi'i hategu gan uwch-swyddogion perthnasol eraill. Mae hyn yn sicrhau bod gan y Bwrdd Newid yr awdurdod a'r arbenigedd angenrheidiol i arwain y Comisiwn drwy'r cyfnod pontio.

Un o swyddogaethau sylfaenol y Bwrdd Newid fu cytuno ar y Strategaeth Newid a Chynllun Cyflawni Senedd 26. Mae'r strategaeth wedi'i fframio o amgylch saith maes canlyniad gyda chynllun cyflawni manwl yn gwasanaethu fel adnodd monitro a sicrwydd. Adolygir cynnydd yn erbyn y strategaeth bob mis yn ystod Adolygiadau Parodrwydd ar gyfer Etholiadau a gynhelir gan y Bwrdd Newid. Mae'r rhain wedi darparu fforwm ar gyfer nodi cynnydd, a chodi a datrys materion ar y cyd sydd wedi codi yn ystod y broses weithredu.

Mae strwythur cynllunio strategol cyffredinol y Comisiwn wedi'i nodi'n fanwl yn y Datganiad Llywodraethu.

## Y Tîm Arwain

Mae'r Tîm Arwain yn cynnwys aelodau'r Bwrdd Gweithredol a phob un o'r Penaethiaid Gwasanaeth. Prif gyfrifoldeb y Tîm Arwain yw sicrhau bod cynlluniau a blaenoriaethau gweithredol yn cael eu cyflawni'n effeithiol. Mae aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth yn chwarae rhan hanfodol wrth rannu gwybodaeth ar draws y sefydliad, gan feithrin cydweithredu ar draws gwasanaethau a darparu arweinyddiaeth o ran nodau a gwerthoedd corfforaethol Comisiwn y Senedd.

Ar hyn o bryd, y Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu sy'n cadeirio'r Tîm Arweinyddiaeth, a dosberthir nodyn o bob cyfarfod i bob Pennaeth Gwasanaeth i sicrhau bod negeseuon a diweddariadau corfforaethol allweddol yn cyrraedd swyddogion ar draws pob tîm mewn modd tryloyw.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Tîm Arweinyddiaeth wedi cynnal cyfres o weithdai cynllunio senarios sydd wedi llywio'r gwaith cynllunio a'r paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd a'i ffyrdd disgwyliedig o weithio.

## Cyfathrebu rhwng y Comisiwn ac Aelodau o’r Senedd

Mae cyfathrebu effeithiol rhwng y Comisiwn ac Aelodau o’r Senedd yn bwysig er mwyn llywio’r ddarpariaeth o’r safonau uchaf posibl o wasanaeth. Mae’r Prif Weithredwr a’r Llywydd yn chwarae rhan allweddol wrth hwyluso’r cyfathrebu

hwn, gyda'r Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn a'r Aelodau yn darparu cymorth wrth ymdrin â phryderon a materion a godir gan yr Aelodau.

Mae dulliau amrywiol ar waith ar gyfer cyfathrebu rhwng y Comisiwn a'r Aelodau, gan gynnwys adborth rheolaidd gan y Comisiynwyr i aelodau eu grŵp am waith y Comisiwn a darparu gwybodaeth drwy fewnrwyd yr Aelodau, sydd wedi cwblhau ei hadnewyddiad i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a pha mor hawdd yw ei defnyddio.

Mae ymgysylltiad helaeth wedi digwydd gyda'r Aelodau drwy Grwpiau Cyfeirio i ofyn am eu mewnbwn ar raglenni newid mawr. Mae'r rhain yn cynnwys addasiadau i Dŷ Hywel, ehangu'r Siambr a phrosiect Bae 32, a sefydlwyd i sicrhau llety yn y dyfodol i'r Comisiwn pan fydd prydles Tŷ Hywel yn dod i ben yn 2032. Ceisiwyd ymgysylltiad tebyg wrth ddatblygu Cyllideb Ddrafft y Comisiwn, dull a ganmolwyd fel un effeithiol gan y Pwyllgor Cyllid.

Yn ystod y cyfnod, mae gwaith wedi'i wneud i symleiddio mynediad wyneb yn wyneb yr Aelodau at wybodaeth a gwasanaethau, drwy 'Hwb' Gwybodaeth i'r Aelodau yn Nhŷ Hywel, i ategu'r ymgysylltiad anffurfiol drwy 'Galw Heibio' sydd eisoes yn cael ei ddarparu yn y Cwrt yn ystod y Cyfarfod Llawn. Mae hyn yn rhan o ymateb y Comisiwn i adborth gan yr Aelodau ynghylch pwysigrwydd argaeledd rhyngweithio 'wyneb yn wyneb' a pharhau i feithrin ymgysylltiad yr Aelodau a, thrwy hynny lywio gwaith cyflawni, newid a phrosiectau yn y dyfodol.

Darperir arolygon sy'n cynnwys yr holl Aelodau i'r Comisiwn i'w hystyried, gan gynnwys yr Arolwg Aelodau (a gynhelir dair gwaith y tymor yn y Senedd), yr Arolwg Urddas a Pharch (blynyddol) a'r arolwg Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Mae'r templed ar gyfer papurau'r Comisiwn yn cynnwys adran benodol ar gyfer gwybodaeth am ymgynghori a gynhaliwyd â'r Aelodau ac sy'n gofyn am wybodaeth am oblygiadau i'r Aelodau, a ddylai gael eu llunio gan farn yr Aelodau.

# Crynodeb o'r gweithgareddau

| Nod Strategol y Comisiwn<br>(a Risgiau Corfforaethol) | Blaenoriaethau'r Comisiwn<br>(a Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig) | Cynnydd yn 2025-26 |
|---|---|---|
| **Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf**<br>**A B C D E** | Rhoi cymorth i'r Aelodau ar draws yr ystod o fusnes, ac addasu i anghenion yr Aelodau<br>❶ ❷ ❸ ❹ | Mae gwybodaeth am ein cynnydd yn y meysydd hyn ar gael o dudalennau 51 i 72 |
| | Ymateb i newid cyfansoddiadol a hwyluso'r newid hwnnw, gan gynnwys cryfhau rhwydweithiau rhyngsefydliadol a dysgu | |
| | Cynnal enw da a datblygu gwasanaethau cynaliadwy | |
| **Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn** | Gwrando ar ddinasyddion a dangos sut rydym yn gweithredu ar yr hyn y maent yn ei ddweud wrthym; mai ni yw eu llais<br>❼ | Mae gwybodaeth am ein cynnydd yn y meysydd hyn ar gael o dudalennau 73 i 85 |
| | Annog ac ysbrydoli dinasyddion i gymryd rhan yn ein trafodaethau ar-lein ac wyneb yn wyneb<br>❺ ❻ | |
| | Sefydlu'r Senedd fel canolbwynt bywyd cyhoeddus Cymru, sy'n arwain y ffordd fel sefydliad dwyieithog | |
| **Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy**<br>**B E F G H I J** | Rhoi cynaliadwyedd wrth wraidd popeth a wnawn<br>⓮ | Mae gwybodaeth am ein cynnydd yn y meysydd hyn ar gael o dudalennau 86 i 106 |
| | Meithrin a datblygu gweithlu medrus, ymroddedig ac amrywiol, gyda'r dechnoleg a'r cyfleusterau i gyflawni eu rolau<br>❿ ⓫ ⓬ | |
| | Cynllunio a rheoli arian a phrosiectau yn effeithiol, fel y gallwn ymateb yn gyflym ac yn hyblyg i ddiwallu anghenion y Senedd<br>❽ | |
| | Rhoi sicrwydd drwy lywodraethu priodol a dangos gwerth am arian<br>❾ ⓯ | |

| Nod Strategol y Comisiwn (a Risgiau Corfforaethol) | Blaenoriaethau'r Comisiwn (a Dangosyddion Perfformiad Allweddol cysylltiedig) | Cynnydd yn 2025-26 |
|---|---|---|
| | Darparu amgylchedd diogel ac iach ar gyfer gweithio ac ymgysylltu 13 | |

**Ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol** – Mae rhagor o wybodaeth am ein Dangosyddion ar gael yn yr adran nesaf.

| | | |
|---|---|---|
| 1 Busnes seneddol yn digwydd fel y cynlluniwyd<br>2 Cofnod y Trafodion wedi'i gyhoeddi erbyn y terfyn amser<br>3 Trawsgrifiad pwyllgor wedi'i gyhoeddi erbyn y terfyn amser<br>4 Darparu papurau dwyieithog<br>5 Ymgysylltu â dinasyddion | 6 Dilynwyr sianeli cyfryngau corfforaethol y Senedd<br>7 Ymgysylltu â llwyfannau dosbarthu cyfryngau<br>8 Cyllideb weithredol<br>9 Cyfrifon anghymwys<br>10 Arolwg staff | 11 Dysgwyr y Gymraeg<br>12 Ceisiadau am swyddi gan unigolion ethnig lleiafrifol<br>13 Cyfradd salwch staff<br>14 Ôl-troed carbon blynyddol<br>15 Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru |

**Ein risgiau corfforaethol** - Mae rhagor o fanylion am sut mae'r proffil risg wedi newid yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnwys yn yr adran Dadansoddi Perfformiad a ganlyn. Mae rhagor o wybodaeth am y broses a'r camau lliniaru o ran y risgiau hyn a'r cynnydd a wnaed ar y meysydd a nodwyd ar gyfer ffocws a datblygiad yn ystod 2025-26 i'w gweld yn y Datganiad Llywodraethu a ddangosir yn nes ymlaen yn yr Adroddiad.

| | |
|---|---|
| A Methu â pharatoi ar gyfer y Seithfed Senedd<br>B Prosiectau Ystad a Ysgogir gan Ddiwygio'r Senedd yn methu â diwallu anghenion y Senedd<br>C Methiant Prosiect Bae Caerdydd 2032<br>D Ymateb annigonol y Comisiwn i Adolygiad o Gyflogau a Graddfeydd y Bwrdd Taliadau<br>E Capasiti a gallu corfforaethol annigonol | F Ymosodiad seiber<br>G Defnydd anghydffurfiol o ddeallusrwydd artiffisial<br>H Ansicrwydd o ran adnoddau ariannol<br>I Methu â chydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Comisiwn y Senedd)<br>J Colli hyder yn effeithiolrwydd trefniadau Urddas a Pharch (Comisiwn y Senedd) |

**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2026**
Penwythnos o weithgareddau i'r teulu, teithiau a gweithdai yn y Senedd.



# Dadansoddi Perfformiad

Mae'r adran Dadansoddi Perfformiad hon yn darparu manylion am sut rydym wedi datblygu gwaith ar flaenoriaethau'r Comisiwn o dan ein nodau strategol.



# Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

## Mae ein Hadroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol yn ystyried perfformiad Comisiwn y Senedd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2025 a mis Mawrth 2026.

Mae rhai o'n dangosyddion yn statig ac yn adrodd flwyddyn ar ôl blwyddyn, ac mae rhai dangosyddion yn darparu 'ymestyniad' i wella perfformiad mewn nifer o feysydd a nodwyd. Caiff y dangosyddion hyn eu hadolygu'n flynyddol.

Yn ystod y pandemig COVID-19, gwnaeth Comisiwn y Senedd addasu i'r sefyllfa a oedd yn newid a bu i rai o'n ffyrdd o weithio addasu o ganlyniad i hynny. Mae cyfnod Covid yn dal i gael ei gynrychioli yn y data tueddiadau cynharaf ac felly dylid cofio hyn wrth wneud cymariaethau uniongyrchol o flwyddyn i flwyddyn.

Er mwyn sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r newidiadau hyn i'n harferion gwaith yn ddigonol, ac i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar nodau a blaenoriaethau'r Comisiwn, cynhaliwyd adolygiad o'n dangosyddion perfformiad allweddol ar ddechrau'r Chweched Senedd. Dyma'r bedwaredd flwyddyn o adrodd ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ers yr adolygiad, ac felly nid yw data o'r blynyddoedd blaenorol ar gael ar gyfer pob dangosydd.


Nodau strategol Comisiwn y Senedd y mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn canolbwyntio arnynt yw:

- Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf
- Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn
- Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


# Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:


1 Parhaodd y Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau i gyfarfod ar ffurf hybrid. Cafodd 3 allan o 456 o gyfarfodydd ffurfiol eu canslo heb rybudd o dri diwrnod gwaith.




2 Cyrhaeddwyd yr holl dargedau mewn perthynas â Chofnod y Trafodion 100 y cant drwy gydol y flwyddyn.





3 Dangosydd Perfformiad Allweddol yn ei bedwaredd flwyddyn adrodd yw cyhoeddi trawsgrifiadau pwyllgor ar-lein (gyda chyfraniadau Cymraeg yn cael eu cyfieithu i'r Saesneg) o fewn tri diwrnod gwaith. Methwyd rhai terfynau amser oherwydd Cyfarfod Llawn estynedig.



# Darparu cymorth seneddol o’r radd flaenaf


4 O fewn pwyllgorau unigol, gall y Cadeirydd a'r Aelodau benderfynu peidio â chynhyrchu pob papur a gaiff ei baratoi’n fewnol yn ddwyieithog. O’r 1,164 o bapurau pwyllgor a baratowyd yn fewnol, cynhyrchwyd 1,127 yn ddwyieithog.



# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:


❺ Rydym wedi cwblhau ychwanegu setiau data at ein methodoleg adrodd gwerthuso ar draws pob tîm o fewn y Gwasanaethau Ymgysylltu. Fodd bynnag, gwnaethom newid y cwestiwn 'tebygolrwydd o gymryd rhan' i 'tebygolrwydd o bleidleisio yn etholiad Senedd 26' fel rhan o'n hymgyrch etholiad Senedd 26 ar gyfer 2025-26 - mae hyn yn golygu nad oes data tueddiadau ar gael, ond bydd yn rhoi llinell sylfaen inni ar gyfer etholiadau'r Senedd yn y dyfodol.



# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

### Cynnydd yn ystod y flwyddyn:


❻ Cynnydd cyson yn nifer y dilynwyr drwy gydol y flwyddyn. Arweiniodd strategaeth newydd Facebook at gynnydd o 168% yn nifer y dilynwyr eleni. Tyfodd ein cynulleidfa yn sylweddol ym mis Mawrth, wedi'i yrru gan lif ar Instagram (206%), YouTube (91%), LinkedIn a Facebook, a briodolir yn bennaf i negeseuon ymgyrch etholiadol. Disgwylir i X (Twitter gynt) ddisgyn oherwydd newidiadau i'r llwyfan a arweiniodd at ein newid mewn ymdrechion ar sianeli eraill.



# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

7 Gostyngiad yng nghynnyrch y pwyllgorau yn ystod blwyddyn olaf y Senedd – dim ond un adroddiad pwyllgor ym mis Mehefin a dim ym mis Awst; trodd sylw'r cyfryngau at yr etholiad ddechrau 2026. Sawl adroddiad cryf ym mis Ionawr: canserau gynaecolegol / Bil Atebolrwydd Aelodau wedi arwain at sylw ledled y DU. Mae'r flwyddyn hon yn dilyn blwyddyn arbennig o lwyddiannus o sylw, gydag adroddiadau cryf a bachynnau newyddion, fel yr adroddiad cychwynnol i atebolrwydd yr Aelodau yn cael ei godi gan y cyfryngau ledled y byd. Bydd y dirywiad hwn yn parhau gyda diddymu a sefydlu busnes sy'n golygu ychydig o waith pwyllgor yn 2026-27.



# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

**Cynnydd yn ystod y flwyddyn:**

8 Sicrhau bod lefel yr amrywiad rhwng gwariant gweithredol net y Comisiwn a'i gyllideb gweithredol blynyddol o fewn 1.5 y cant.


Mae'r alldro gweithredol (ac eithrio cyllidebau nad ydynt yn arian parod a chyllidebau wedi'u clustnodi) ar gyfer 2025-26 yn 0.58 y cant yn is na'r gyllideb.

*Dim tabl yn gysylltiedig â'r Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn*

9 Mae ein cyfrifon yn ddiamod ac wedi'u hardystio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.


*Dim tabl yn gysylltiedig â'r Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn*

10 Nid oes diweddariad ar gyfer 2025-26, gan fod Arolwg Staff y Comisiwn yn gweithredu ar gylchred o 18 mis, wedi'i ategu gan arolygon pwls rheolaidd. Cynhelir yr Arolwg Staff llawn nesaf yn hydref 2026. Mae'r amseru hwn yn adlewyrchu amserlen wedi'i haddasu i ddarparu ar gyfer cyfnod yr etholiad, dechrau'r Seithfed Senedd a gweithgarwch ehangach y Comisiwn.



## Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

⓫ Mae'r nifer wedi cynyddu'n raddol dros y flwyddyn. Gellir priodoli hyn yn rhannol i'r cyfle i'r tîm gyfarfod â dechreuwyr newydd, sef y Comisiwn a Staff Cymorth, i gyflwyno'r ddarpariaeth a thrafod gweithio dwyieithog fel rhan o'r broses gynefino. Yn ystod y flwyddyn nesaf bydd y tîm yn denu dysgwyr newydd yn rhagweithiol ac yn defnyddio'r System Rheoli Dysgu newydd ei gyflwyno i ddarparu e-ddysgu mwy hyblyg neu ad hoc.




# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

## Cynnydd yn ystod y flwyddyn:


⓬ Ein targed yw cynyddu - o un flwyddyn i'r llall - nifer y ceisiadau am swyddi a hysbysebir yn allanol gan ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol. Ar 31 Mawrth 2026, roedd nifer y ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol eleni wedi cynyddu i 301 (17.8 y cant o gyfanswm y ceisiadau), o 222 (20.2 y cant o gyfanswm y ceisiadau) y llynedd. Gellid priodoli'r gostyngiad canrannol eleni mewn ceisiadau gan ymgeiswyr o gefndir ethnig lleiafrifol i'r cynnydd cyffredinol yng nghyfanswm y ceisiadau ar gyfer y flwyddyn.

Byddwn yn parhau i fonitro'r cyfraddau trosi ar draws ein prosesau recriwtio ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig, ac yn defnyddio mewnwelediadau data ac adborth ymgeiswyr i nodi unrhyw rwystrau posibl a/neu wirioneddol i addasu ein prosesau yn unol â hynny.



# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy


⑬ Mae salwch yn parhau i ddangos tuedd ar i lawr, gan ostwng o uchafbwynt o 9.1 diwrnod a gollwyd fesul swydd cyfwerth ag amser llawn (12 mis treigl) i 5.8 ym mis Mawrth 2026, ac mae'n cymharu'n ffafriol â meincnod y Gwasanaeth Sifil. Mae'r gostyngiad yn bennaf oherwydd gostyngiad sylweddol mewn salwch hirdymor a pholisi a phrosesau gwell o ran rheoli absenoldeb oherwydd salwch.




# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

## Cynnydd yn ystod y flwyddyn:

⑭ Mae ein hôl troed carbon yn sylweddol is na'n hadroddiad diwethaf, gyda llai o alw am wresogi yn helpu, ac mae bellach yn is na'n targed blynyddol.




⑮ Gwnaethom gyflawni ein perfformiad gorau hyd yma, gyda 48% wedi'i gyflawni ar gyfer y flwyddyn. Mae gennym gynlluniau i archwilio cyfleoedd pellach yn y gadwyn gyflenwi yn y flwyddyn nesaf. [nodyn: yn flaenorol, dangoswyd ffigurau chwarterol ond maent wedi'u diwygio i fod yn ffigurau blynyddol er mwyn bod yn eglur, yn dryloyw ac yn gyson â dangosyddion perfformiad allweddol eraill].





# Proffil risg

Mae'r risgiau mwyaf arwyddocaol y mae'r Comisiwn yn eu hwynebu yn cael eu nodi mewn Cofrestr o Risgiau Corfforaethol (y Gofrestr), sy'n cael ei hadolygu a'i monitro'n rheolaidd gan Fwrdd Gweithredol y Comisiwn, ac mae'n eitem agenda sefydlog yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Mae manylion am y prosesau ar gyfer nodi, monitro ac adrodd ar risgiau ar bob lefel[3] a'r gwaith archwilio a chraffu a wneir arnynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad Llywodraethu.

## Risgiau cyfredol

Mae Cofrestr Risgiau Corfforaethol y Comisiwn yn cynnwys y risgiau a ganlyn:

### Ymosodiadau seiber

Fel gyda phob sefydliad, mae seiberddiogelwch yn parhau i fod yn un o risgiau mwyaf arwyddocaol y Comisiwn ac mae'n destun gwaith monitro cyson, gyda diweddariadau rheolaidd ac adroddiadau sicrwydd yn cael eu darparu i'r Bwrdd Gweithredol a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r tîm seiberddiogelwch wedi arwain ar weithgarwch lliniaru parhaus i sicrhau bod rheolaethau effeithiol ar waith ac i sicrhau gwydnwch parhaus. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod lefel y risg weddilliol yn uchel.

### Methu â chydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data (Comisiwn y Senedd)

Mae'r Comisiwn wedi parhau i ganolbwyntio ar liniaru risgiau sy'n ymwneud â chydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Mae'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi parhau i gyflawni elfennau pwysig o'i raglen waith, ochr yn ochr â datblygu polisïau, trefniadau llywodraethu a rheoli risg ar gyfer defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol (gweler rhagor o fanylion o dan yr adran Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i Gefnogi Senedd Fodern yn yr adroddiad hwn). Mae'r tîm hefyd wedi arwain Fforwm Hyrwyddwyr Llywodraethu Gwybodaeth, ac wedi parhau i ddarparu hyfforddiant ac ymwybyddiaeth ar gydymffurfiaeth â diogelu data i swyddogion ac Aelodau,

[3] Risgiau corfforaethol – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni nodau a blaenoriaethau Comisiwn y Senedd, neu unrhyw amcanion alllweddol sydd ag effaith drawsbynciol ar draws y sefydliad. Risgiau lefel gwasanaeth – nodi digwyddiadau allweddol a allai atal neu rwystro'r broses o gyflawni amcanion lefel gwasanaeth.

sy'n rheolwyr data yn eu rhinwedd eu hunain, a'u staff. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod lefel y risg weddilliol yn uchel.

**Methu â pharatoi ar gyfer y Seithfed Senedd**

Mae'r risg hon yn parhau i gael ei rhestru ar y Gofrestr i ganiatáu i'r Bwrdd Gweithredol fonitro'n agos y rheolaethau a'r mesurau lliniaru sy'n gysylltiedig â chyflawni'r rhaglen waith ar gyfer paratoi Senedd fwy ar ôl etholiadau mis Mai 2026. Mae rhagor o wybodaeth am y paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd ar gael yn adran Dadansoddi Perfformiad yr adroddiad hwn. Mae trefniadau llywodraethu ynghylch paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd wedi'u manylu yn y Datganiad Llywodraethu. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod lefel y risg weddilliol yn ganolig.

**Capasiti a gallu corfforaethol annigonol**

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr i hwyluso monitro cynnydd yn erbyn mesurau lliniaru sy'n ymwneud â chapasiti a gallu'r Comisiwn i gyflawni yn erbyn gofynion cynyddol a newidiol, yn enwedig mewn perthynas â chyflawni newid trawsnewidiol mawr. Mae hyn wedi cynnwys defnyddio mecanweithiau cynllunio cadarn yn effeithiol, gan gynnwys y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig a Chynllun Gweithlu er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl gywir gyda'r sgiliau cywir ar gael i gefnogi gweithlu gwydn ac addasadwy ar gyfer Senedd estynedig. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn adran *Cynllunio a rheoli perfformiad* y Datganiad Llywodraethu. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod lefel y risg weddilliol yn ganolig.

**Colli hyder yn effeithiolrwydd trefniadau Urddas a Pharch (Comisiwn y Senedd)**

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr wrth inni barhau i weithredu argymhellion o adolygiad o bolisïau a gweithdrefnau urddas a pharch y Comisiwn. Rydym hefyd yn ystyried canfyddiadau sy'n berthnasol i'r Comisiwn o ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i urddas a pharch yn y Senedd a gyflwynodd adroddiad ym mis Mawrth 2026. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod lefel y risg weddilliol yn isel.

**Methiant Prosiect Bae Caerdydd 2032**

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr er mwyn hwyluso'r gwaith o fonitro'n agos y rheolaethau a'r mesurau lliniaru gan y Bwrdd Gweithredol wrth i brosiect cymhleth Bae 32 barhau i ddatblygu. Nod y prosiect yw sicrhau bod anghenion

llety'r Comisiwn a'r Senedd yn y dyfodol yn cael eu diwallu. Mae Bwrdd Prosiect, y mae Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd yn Uwch-swyddog Cyfrifol iddo, yn adolygu'r gofrestr risg prosiect fanwl yn rheolaidd. Ceir rhagor o fanylion am y prosiect yn Ffyrdd o Weithio o dan adran *Dadansoddi Perfformiad* yr adroddiad hwn. Mae'r risg yn cael ei hailgyflunio wrth inni ddechrau cyfnod dylunio'r prosiect a mireinio trefniadau masnachol. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod lefel y risg weddilliol yn ganolig.

### Prosiectau Ystad a Ysgogir gan Ddiwygio'r Senedd yn methu â diwallu anghenion y Senedd

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr er mwyn hwyluso'r gwaith o fonitro'n agos y rheolaethau a'r mesurau lliniaru gan y Bwrdd Gweithredol wrth i brosiectau'r ystad i baratoi ar gyfer Senedd mwy o faint fynd rhagddynt. Roedd risg y byddai'r prosiectau hyn yn methu â diwallu'r anghenion hynny a/neu ddyletswyddau statudol perthnasol eraill y Comisiwn. Mae lliniaru'r risg hon wedi golygu cydweithio'n agos â'r Aelodau, Llywodraeth Cymru a staff y Comisiwn. Mae Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd, fel yr Uwch-swyddog Cyfrifol, wedi goruchwylio'r prosiectau, ac mae byrddau prosiect ar waith ar gyfer pob un o'i brosiectau cydrannol. Mae gan bob un o'r rhain ei gofrestr risg prosiect fanwl ei hun ac mae risgiau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y byrddau prosiect. Ceir rhagor o fanylion am y prosiectau hyn yn Ffyrdd o Weithio o dan adran *Dadansoddi Perfformiad* yr adroddiad hwn. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod lefel y risg weddilliol yn ganolig.

### Defnydd anghydffurfiol o Ddeallusrwydd Artiffisial

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu pwysigrwydd llywodraethu cadarn ac effeithiol o amgylch defnydd y Comisiwn o Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Mae dau grŵp, sef y Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial a'r Grŵp Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial, ill ddau dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwyr, wedi parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol yn cael ei yrru gan drefniadau llywodraethu cadarn. Mae hyn wedi cynnwys datblygu polisi deallusrwydd artiffisial, a chofrestr risg ar wahân i sicrhau bod perchnogaeth glir dros reolaethau a mesurau lliniaru, a chyda cyflwyno adroddiadau rheolaidd ar reoli risg. Mae rhagor o fanylion am hyn ar gael o dan Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i Gefnogi Senedd Fodern yn adran *Dadansoddi Perfformiad* yr adroddiad hwn. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod lefel y risg weddilliol yn ganolig.

### Ymatebion annigonol y Comisiwn i Adolygiad o Gyflogau a Graddfeydd y Bwrdd Taliadau

Mae'r risg hon wedi aros ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn i hwyluso’r gwaith o fonitro rheolaethau a mesurau lliniaru gan y Bwrdd Gweithredol sy'n ymwneud â gweithredu darpariaeth cyflog a graddio ddiwygiedig y Bwrdd Taliadau Annibynnol ar gyfer staff cymorth yr Aelodau yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd. Rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu'r galw am wasanaethau presennol o ystyried y cymhlethdodau sy'n ymwneud â gweithredu'r darpariaethau newydd hyn. Gyda'r rheolaethau a'r mesurau lliniaru ar waith, asesir bod lefel y risg weddilliol yn ganolig.

## Risgiau yn ystod y flwyddyn

### Ansicrwydd o ran adnoddau ariannol

Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu ansicrwydd ynghylch cymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cymru a oedd â goblygiadau sylweddol o bosibl i gyllideb Comisiwn y Senedd. Cafodd y risg ei thynnu o'r Gofrestr wedi hynny pan gymeradwywyd cyllideb Llywodraeth Cymru. Bydd y risg o ran adnoddau ariannol yn parhau i gael ei monitro ar lefel y gwasanaeth.

## Risgiau wedi'u dileu

### Methiant y system Adnoddau Dynol/y Gyflogres

Tynnwyd y risg hon o'r Gofrestr flwyddyn ar ôl gweithredu’r system Adnoddau Dynol/y Gyflogres newydd. Bydd risgiau gweddilliol yn parhau i gael eu rheoli ar lefel gwasanaeth.

# Adolygiad ariannol

O dan delerau *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, rhaid i’r Comisiwn sicrhau bod y Senedd yn cael y staff, yr eiddo a'r gwasanaethau sy'n ofynnol i gyflawni rôl y Senedd fel deddfwrfa ddemocrataidd gref, hygyrch a blaengar sy'n darparu'n effeithiol i bobl Cymru.

Nod cyllideb y Comisiwn yw bod yn dryloyw, yn ddarbodus ac wedi'i gosod yng nghyd-destun y sefyllfa gyllido ariannol hirdymor yng Nghymru. Mae'r Comisiwn wedi parhau i fireinio'r ffordd y mae'n cyflwyno ei gyllideb yn seiliedig ar y gwaith craffu a'r adborth a gafodd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a’r Pwyllgor Cyllid. Mae'r Comisiwn yn dilyn y canllawiau a ddarperir yn 'Natganiad Egwyddorion' y Pwyllgor Cyllid.

Mae'r Comisiwn yn cyflwyno ei gyllideb mewn fformat tryloyw i ddangos y gwahanol fathau o wariant. Defnyddir cyllideb y Comisiwn i dalu costau rhedeg y Senedd yn ogystal â chostau cyflogau a lwfansau Aelodau o’r Senedd, fel y’u pennir gan y Bwrdd Taliadau Annibynnol.

Yn ystod 2025-26 roedd hefyd yn cynnwys cyllidebau wedi'u clustnodi ar gyfer dwy raglen waith arwyddocaol;

- Diwygio'r Senedd – cefnogi'r symudiad i Senedd fwy
- Ffyrdd o Weithio – yn ymwneud yn bennaf ag anghenion llety’r Comisiwn yn y dyfodol pan ddaw’r brydles bresennol ar Dŷ Hywel i ben yn 2032.

O fewn y prosiect Ffyrdd o Weithio, gwariwyd £0.840 miliwn ar ymgynghorwyr allanol a chyngor proffesiynol yn y meysydd canlynol:

- Gwasanaethau cyfreithiol
- Cynghorwyr eiddo
- Arbenigwyr pensaernïol

Bob pum mlynedd (bob pedair blynedd yn dilyn etholiad 2026) cynhwysir pennawd gwariant ychwanegol ar gyfer Etholiadau'r Senedd ym mlwyddyn etholiad a chyllideb ar gyfer gwaith paratoi ar gyfer etholiad yn y flwyddyn flaenorol:

| **Cyfanswm Cyllideb y Comisiwn** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** | **2023-24 £m** | **2024-25 £m** | **2025-26 £m** |
| **Cyllideb weithredol (Nodyn 1)** | 41 | 45 | 47 | 52 | 58 |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | 16 | 17 | 18 | 19 | 21 |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol (Nodyn 2)** | 2 | 2 | 2 | 0 | 1 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad** | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| | **61** | **64** | **67** | **71** | **81** |

Nodyn 1 - Gellir dadansoddi'r gyllideb weithredol yn ôl ei helfennau allweddol (fel y darperir). Mae'n cynnwys £6 miliwn mewn perthynas â chlustnodi Diwygio'r Senedd a £2 filiwn mewn perthynas â rhaglen waith Ffyrdd o Weithio.

Nodyn 2 - Mae'r term 'Gwariant a reolir yn flynyddol' yn ymwneud â'r ddarpariaeth gyfrifyddu ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd o dan reolau Trysorlys EF ac mae'n bennawd gwariant nad yw'n arian parod.

| **Dadansoddiad o'r gyllideb weithredol** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o'r gyllideb weithredol:** | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** | **2023-24 £m** | **2024-25 £m** | **2025-26 £m** |
| **Costau sy'n gysylltiedig â staff** | 26 | 27 | 28 | 31 | 33 |
| **Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff** | 13 | 10 | 12 | 13 | 18 |
| **Cronfa brosiectau** | 0 | 2 | 1 | 2 | 1 |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod) (Nodyn 3)** | 2 | 6 | 6 | 5 | 6 |
| | **41** | **45** | **47** | **51** | **58** |

Nodyn 3 – Mae 'dibrisiant' yn cynnwys effaith IFRS16 a'r gofyniad i gydnabod prydlesi fel 'Asedau Hawl i Ddefnyddio' a dibrisiant tâl. Mae hefyd yn cynnwys y taliadau llog sy'n gysylltiedig ag Asedau Hawl i Ddefnyddio.

| Cyfanswm gwariant y Comisiwn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** | **2023-24 £m** | **2024-25 £m** | **2025-26 £m** |
| **Gwariant gweithredol** | 41 | 44 | 46 | 51 | 57 |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol** | 15 | 17 | 17 | 18 | 20 |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol** | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **Gwariant sy'n gysylltiedig ag etholiad** | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| | **60** | **62** | **63** | **69** | **78** |
| **Cyfanswm y gwariant yn erbyn cyfanswm y gyllideb – o dan / (drosodd)** | **1** | **2** | **3** | **1** | **2** |

| Dadansoddiad o'r gwariant gweithredol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Dadansoddiad o'r gwariant gweithredol:** | **2021-22 £m** | **2022-23 £m** | **2023-24 £m** | **2024-25 £m** | **2025-26 £m** |
| **Costau sy'n gysylltiedig â staff** | 25 | 27 | 29 | 30 | 34 |
| **Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff** | 14 | 10 | 11 | 13 | 9 |
| **Cronfa brosiectau** | 0 | 2 | 1 | 2 | 8 |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod)** | 2 | 5 | 5 | 5 | 6 |
| | **41** | **44** | **46** | **50** | **57** |
| **Gwariant gweithredol yn erbyn y gyllideb weithredol – o dan/(drosodd)** | **1** | **0** | **1** | **1** | **2** |

Nod y Comisiwn yw sicrhau alldro gweithredol diwedd blwyddyn o fewn yr ystod 0 y cant i 1.5 y cant o'r gyllideb weithredol.

| Alldro 2025-26 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb £m** | **Alldro £m** | **Amrywiad £m** | **Amrywiad %** |
| **Costau sy'n gysylltiedig â staff** | 35.0 | 33.4 | 1.6 | 4.55% |
| **Costau nad ydynt yn gysylltiedig â staff** | 11.0 | 9.3 | 1.7 | 15.14% |
| **Cronfa brosiectau** | 6.5 | 8.2 | (1.8) | (27.69%) |
| **Costau etholiad** | 1 | 0.8 | 0.16 | 15.8% |
| **Dibrisiant (nad yw'n arian parod)** | 5.6 | 5.5 | 0.98 | 17.50% |
| **Cyfanswm y gweithgarwch gweithredol** | **58.1** | **56.5** | **1.6** | **2.75%** |
| **Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol a Chymorth i'r Aelodau (Nodyn 4)** | 21.0 | 20.7 | 0.3 | 1.43% |
| **Gwariant a reolir yn flynyddol** | 0.5 | (0.3) | 0.8 | 156.8% |
| | **80.6** | **77.7** | **2.9** | **3.59%** |

Nodyn 4 - Mae Cymorth i'r Aelodau yn cynnwys cost y cymorth a ddarperir i'r Bwrdd Taliadau Annibynnol a chostau Swyddfa'r Comisiynydd Safonau.

Mae'r alldro gweithredol (ac eithrio cyllidebau nad ydynt yn arian parod a chyllidebau wedi'u clustnodi) ar gyfer 2025-26 yn 0.58 y cant yn is na'r gyllideb. Mae'r Comisiwn yn rhagweithiol yn rheoli'r gyllideb a sicrhau'r gwerth gorau am arian o'r adnoddau sydd ar gael. Mae rheolaeth ofalus yn ystod y flwyddyn a rhagolygon cywir wedi hwyluso safle alldro ar ddiwedd y flwyddyn sydd o fewn ystod y targed.

O fewn y sefyllfa alldro uchod, roedd y sefyllfaoedd cyllideb wedi'u clustnodi fel a ganlyn:

| Alldro 2025-26 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb £m** | **Alldro £m** | **Amrywiad £m** | **Amrywiad %** |
| **Ffyrdd o Weithio** | 1.6 | 1.1 | 0.5 | 29.7% |
| **Diwygio'r Senedd** | 2.9 | 1.5 | 1.4 | 49.15% |

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i weithio mewn ffordd effeithiol ac effeithlon. Yn ystod 2025-26, cyflawnodd y Comisiwn effeithlonrwydd yn y ffyrdd a ganlyn:

- Negodi o ran caffael ac arbedion;
- Newidiadau i brosesau er mwyn gallu cynyddu'r ddarpariaeth o fewn yr un lefel o adnoddau;
- Defnyddio deallusrwydd artiffisial lle bo'n briodol, i leihau'r amser a gymerir i gwblhau tasgau penodol;
- Awtomeiddio tasgau â llaw gan ddefnyddio datblygiadau technoleg, yn enwedig defnyddio cynhyrchion Office 365;
- Defnyddio dadansoddeg data i dargedu gwariant at feysydd effaith uchel ar gyfer ymgysylltu;
- Gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i rannu gwybodaeth ac arferion gorau, cronni adnoddau ac osgoi dyblygu ymdrech.

# Darparu cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Yn yr adran hon o'r Adroddiad Blynyddol rydym yn disgrifio sut rydym wedi cyflawni busnes y Senedd.




**Y Farchnad**
digwyddiad 'marchnadfa' sy'n cefnogi sefydliadau i ymgysylltu â'r Aelodau.

## Cyfarfod Llawn

**70**

Cyfarfod Llawn hybrid

**0**

Cyfarfod Llawn a alwyd yn ôl mewn argyfwng

**5**

Dadl Aelod unigol

## Cwestiynau a ofynnwyd yn y Cyfarfod Llawn

**40**

Cwestiynau Amserol

**0**

Cwestiynau Brys

**896**

Cwestiynau Llafar

**2,236**

Cwestiynau Ysgrifenedig

## Deddfwriaeth Ategol



**10**


Biliau newydd wedi'u cyflwyno



**13**

Biliau wedi'u pasio

## Cefnogi'r pwyllgorau



**378**


Cyfarfodydd ffurfiol pwyllgor



**445**

Adroddiadau pwyllgor

## Gweithio'n ddwyieithog




**1,127**

Papurau pwyllgor dwyieithog



**100%**

Targedau Cofnod y Trafodion wedi'u cyflawni

## Paratoadau ar gyfer y Seithfed Senedd

Mae gwaith sylweddol wedi bod yn digwydd ar draws y Comisiwn eleni i baratoi ar gyfer y cyfnod pontio rhwng y Chweched a'r Seithfed Senedd. O ganlyniad i Ddiwygio'r Senedd, y tro hwn mae paratoadau ar gyfer etholiadau wedi cynnwys gwaith gweithdrefnol helaeth i weithredu'r ddeddfwriaeth newydd, yn ogystal â newidiadau ffisegol sydd eu hangen ar draws ystad y Senedd er mwyn darparu lle i'r Aelodau ychwanegol.

### Cynllunio senarios ar gyfer y Senedd nesaf

Mae staff o wasanaethau ar draws y Comisiwn, ac yn benodol y Tîm Arweinyddiaeth, wedi ystyried goblygiadau ac effeithiau amrywiaeth o senarios a allai godi.

Mae gwasanaethau wedi ystyried y ffordd orau y byddai eu cynlluniau a'u ffrydiau gwaith yn ymdopi â heriau ac yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd a allai godi. Dewiswyd senarios yn fwriadol ar sail ymestyn capasiti ac adnoddau.

Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud i alluogi asesiad o baratoadau sefydliadol cyffredinol ar gyfer y Seithfed Senedd, i nodi ble y gallai fod angen newidiadau neu arloesiadau yn ein gwasanaethau, a chanolbwyntio ar y defnydd o adnoddau yn y senarios ymarferol hyn. Rydym wedi ystyried yn benodol effeithiau senarios, eu prif risgiau a chyfleoedd, a sut y gellid lliniaru a gwella'r rhain orau, gan archwilio rhyngddibyniaethau, a nodi atebion creadigol.

### Paratoadau ar gyfer yr etholiad

Un darn pwysig o waith sy'n digwydd cyn pob etholiad yw'r prosiect pontio etholiadol. Mae'r gwaith hwn yn perthyn i ddau brif faes o weithgarwch cynllunio sy'n cynnwys:

- diwedd y Chweched Senedd a chyfnod y diddymiad; a
- dechrau'r Seithfed Senedd a'r rhaglen groeso i'r Aelodau newydd

Rhaid i'r gwaith cynllunio ar gyfer y gweithgareddau hyn ddechrau ymhell cyn i'r etholiad ddigwydd.

### Canllawiau ar gyfer y diddymiad

Yng ngwanwyn 2025, gwnaethom ddechrau paratoi'r canllawiau diddymu, sy'n cynnwys rheolau sy'n berthnasol rhwng diwedd un Senedd a dechrau'r nesaf.


Pan gaiff y Senedd ei diddymu (fel arfer fis cyn etholiad), nid oes Aelodau o'r Senedd, ac mae cyfyngiadau ar waith i sicrhau bod maes chwarae cyfartal rhwng Aelodau blaenorol ac ymgeiswyr eraill sy'n sefyll yn yr etholiad. Mae'r canllawiau diddymu hefyd yn cwmpasu'r prosesau ar gyfer Aelodau sy'n gadael y Senedd, p'un a ydynt yn sefyll i lawr neu'n aflwyddiannus wrth geisio ail-etholiad.

## Rhaglen groeso

Y ffocws mawr arall i'r prosiect pontio etholiadol yw'r rhaglen groeso. Rhaid i bob Aelod dyngu ei lw neu wneud y cadarnhad cyfatebol cyn gynted â phosibl ar ôl cael ei ethol. Dilynir hyn gan gyfnod cynefino dwys a hyfforddiant i baratoi'r Aelodau ar gyfer eu rolau a'u cyfrifoldebau newydd.

Eleni, rydym wedi bod yn cynllunio ar gyfer y digwyddiadau a fydd yn digwydd yn syth ar ôl yr etholiad, gan groesawu 96 o Aelodau newydd a'u gwesteion i'r Senedd am y tro cyntaf. Rydym hefyd wedi bod yn dylunio'r pecyn o hyfforddiant a chymorth hanfodol a fydd yn cael ei ddarparu o'r etholiad, dros yr haf, ac i mewn i dymor yr hydref, gan gwmpasu ystod eang o bynciau. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth i'r Aelodau, ond hefyd gweithgareddau hyfforddi a chynefino ar gyfer eu staff newydd.

## Etholaethau Cymru o Fai 2026




**1.** Bangor Conwy Môn

**2.** Clwyd

**3.** Fflint Wrecsam

**4.** Gwynedd Maldwyn

**5.** Ceredigion Penfro

**6.** Sir Gaerfyrddin

**7.** Gŵyr Abertawe

**8.** Brycheiniog Tawe Nedd

**9.** Afan Ogwr Rhondda

**10.** Pontypridd Cynon Merthyr

**11.** Blaenau Gwent Caerffili Rhymni

**12.** Sir Fynwy Torfaen

**13.** Casnewydd Islwyn

**14.** Caerdydd Penarth

**15.** Caerdydd Ffynnon Taf

**16.** Pen-y-bont Bro Morgannwg

## Cefnogi paratoadau'r Pwyllgor Busnes ar gyfer y Seithfed Senedd

Ym mis Mehefin 2025, yn dilyn **gwaith Pwyllgor Senedd y Dyfodol** ac i sicrhau y gellid gwneud newidiadau gweithdrefnol mewn pryd ar gyfer y Seithfed Senedd, roedd staff y Comisiwn yn cefnogi'r Pwyllgor Busnes i flaenoriaethu ei raglen waith gweithdrefnol a chynnal cyfarfodydd ychwanegol i gyflawni'r gwaith hwn. Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd y Pwyllgor Busnes **adroddiad ar ei flaenoriaethau gweithdrefnol yn y Chweched Senedd**, i gyfleu'r dull gweithredu.

Ers hynny, mae'r Pwyllgor Busnes wedi ystyried ystod eang o eitemau gweithdrefnol, gan gynnwys adolygiad o brosesau Biliau Cyhoeddus a Biliau Aelod, cynigion ar gyfer cynnal treial o ran cadeiryddion pwyllgorau'n rhannu swyddi, newidiadau sy'n ofynnol o ganlyniad i ***Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024***, a rhoi argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a'r Pwyllgor Deisebau ar waith.

Cynigiwyd newidiadau i'r Rheolau Sefydlog gan y Pwyllgor Busnes, a chytunodd y Senedd arnynt ddiwedd mis Chwefror a dechrau mis Mawrth.

Cyflawnodd y Pwyllgor Busnes fwy o waith gweithdrefnol yn ystod 10 mis olaf y Senedd nag a wnaeth yn ystod pedair blynedd flaenorol y Chweched Senedd. Er mwyn cefnogi'r ymdrech sylweddol hon, roedd angen i staff o bob rhan o'r Comisiwn gydweithio, yn unol â'n hethos "un tîm".

Gwnaethom hefyd gefnogi'r Pwyllgor Busnes gyda gwaith gwaddol, gyda'r nod o gynorthwyo'r Seithfed Senedd gyda'i phenderfyniadau ar drefnu busnes seneddol a sefydlu rhaglen waith weithdrefnol.

Ar ddiwedd y Chweched Senedd, roedd cyfaint o waith gweithdrefnol posibl yn weddill. Roedd hyn yn cynnwys eitemau a nodwyd yn adroddiad blaenoriaethu'r Pwyllgor Busnes ym mis Gorffennaf 2025, argymhellion o Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd, adroddiad Fforwm y Cadeiryddion, a gwaith gweithdrefnol yn deillio o ddeddfwriaeth a basiwyd ar ddiwedd y Chweched Senedd. Cefnogodd staff y Comisiwn y Pwyllgor Busnes i gasglu'r wybodaeth hon fel y gellid ei chyfleu i'w olynydd yn y Seithfed Senedd.

O ran y penderfyniadau y bydd angen i'r Seithfed Senedd eu gwneud ar drefnu busnes seneddol, cefnogodd staff y Pwyllgor Busnes hefyd i gynnig myfyrdodau o'r Chweched Senedd, er mwyn helpu i lywio'r penderfyniadau hynny. Arweiniodd hyn at gyhoeddi **adroddiad gwaddol y Pwyllgor Busnes**, i gyfleu'r

myfyrdodau hyn ac eitemau gweithdrefnol posibl i Bwyllgor Busnes y Seithfed Senedd, gyda'r bwriad o sicrhau bod ganddo sylfaen gadarn ar gyfer sefydlu ei waith gweithdrefnol a threfnu ei fusnes.

Roedd cyfraniad staff Comisiwn y Senedd yn hanfodol i gyflawni amcanion uchelgeisiol y Pwyllgor Busnes.

**Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a wnaed yn dilyn gwaith gweithdrefnol diweddar y Pwyllgor Busnes yn ymwneud â:**

- **Deddf Deddfwriaeth (Gweithdrefn, Cyhoeddi a Diddymiadau) (Cymru) 2025**;
- **Dirprwy Lywydd ychwanegol**;
- **categorïau o Aelodau**;
- **treialu cadeiryddion pwyllgorau'n rhannu swydd**;
- **y trothwy ar gyfer ffurfio grŵp gwleidyddol a grwpio;**
- **trothwyon y Rheolau Sefydlog**;
- **Biliau Aelod**;
- **Biliau Cyhoeddus**;
- **datgan buddiannau**;
- **cofrestru buddiannau**;
- **trefnu busnes seneddol**;
- **y broses ddeisebau**.

## Cefnogi deddfwriaeth drwy'r Senedd

### Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau

Yn ystod y gwaith craffu ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) a Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru), cafwyd galwadau i gyflwyno system galw'n ôl a throsedd am dwyll bwriadol, a chafodd hyn gefnogaeth drawsbleidiol. Ni chafodd y gwelliannau hyn eu bwrw ymlaen ar y sail eu bod angen ystyriaeth lawnach; fodd bynnag, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth newydd cyn 2026 i fynd i'r afael â'r materion hyn. Gwahoddodd y Cwnsler Cyffredinol ar y pryd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i ddatblygu cynigion i'r perwyl hwnnw, gan arwain at nifer o argymhellion a ddarparodd sail ar gyfer y Bil.

At ddiben craffu ar y Bil yng nghyfnodau 1 a 2 o broses ddeddfwriaethol y Senedd, sefydlwyd pwyllgor newydd, **Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau**, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Lywydd.

Cyflwynwyd **Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)** ar 3 Tachwedd 2025, ac roedd yn cynnwys tri prif ran:

- system adalw bosibl ar gyfer Aelodau o'r Senedd;
- cryfhau gweithdrefnau safonau yn y Senedd; a
- mynd i'r afael â datganiadau ffug neu gamarweiniol mewn ymgyrchoedd etholiadol.

Fel arfer, mae gan bwyllgorau'r Senedd 10-12 wythnos i ystyried egwyddorion cyffredinol Bil ond, gydag etholiad nesaf y Senedd yn agosáu, cefnogodd staff y Comisiwn Bwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau i gwblhau ei waith casglu tystiolaeth a **chyhoeddi ei adroddiad** erbyn 23 Rhagfyr 2025.

Cynhaliwyd gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Ionawr 2026, gyda'r Senedd yn cytuno'n unfrydol ar yr egwyddorion cyffredinol. Cynhaliwyd trafodion Cyfnod 2 ar 12 Chwefror, a chynhaliwyd trafodion Cyfnod 3 ar 17 Mawrth, gyda thrafodion Cyfnod 4 yn digwydd yn syth ar ôl Cyfnod 3 yr un diwrnod. Pasiwyd y Bil gyda dim ond un bleidlais yn ei erbyn. Cafodd y Bil Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ebrill 2026.

## Cefnogi Cydraddoldeb, Cynhwysiant, Urddas a Pharch

Ym mis Mawrth 2026, cyhoeddwyd adroddiadau'r Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ac Ymchwiliad Urddas a Pharch y Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Roeddent yn nodi carreg filltir bwysig i'r Senedd. Dyma Archwiliad Sensitif i Rywedd cyntaf y Senedd, ac mae adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn nodi cynigion ar gyfer newidiadau sylweddol i'r system safonau a chefnogi diwylliant o urddas a pharch o fewn y Senedd.

Roedd y ddau adroddiad yn cynnwys amrywiaeth o argymhellion ar gyfer y Senedd, y Pwyllgor Busnes, y Pwyllgor Safonau Ymddygiad a Chomisiwn y Senedd, i'w hystyried yn y Seithfed Senedd.

### Yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd

Cynhaliwyd yr **Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd** ("yr Adolygiad") mewn ymateb i argymhelliad gan y Pwyllgor Biliau Diwygio, yn ei waith craffu ar Fil Senedd Cymru (Rhestr Ymgeiswyr Etholiadol). Mae'r adroddiad canlyniadol hwn yn tynnu ar dystiolaeth a dadansoddiad o adolygiad o ddiwylliant, rheolau a ffyrdd o weithio yn y Senedd a gynhaliwyd yn ystod hydref 2025.

Sefydlodd Comisiwn y Senedd fwrdd Aelodau trawsbleidiol, dan gadeiryddiaeth Joyce Watson AS, i oruchwylio'r Adolygiad. Casglodd, dadansoddodd a chyflwynodd tîm o Brifysgol Caerdydd lawer iawn o dystiolaeth yn ymwneud â'r materion hyn, gan gynnwys barn a phrofiadau Aelodau presennol a chyn-Aelodau o'r Senedd. Elwodd yr Adolygiad yn fawr o'r cyfoeth hwn o brofiad uniongyrchol yr Aelodau.

Cymharodd yr Adolygiad hefyd y canfyddiadau ar gyfer y Senedd â safonau rhyngwladol o arfer gorau. Mae'n dangos bod y Senedd yn cymharu'n dda, er enghraifft, o ran ei hymrwymiad i arferion gwaith cynhwysol, o absenoldeb rhiant a lwfansau gofalu, gweithio hybrid a phleidleisio drwy ddirprwy i ymgysylltu â'r cyhoedd. Canfu hefyd lefelau uchel o gynrychiolaeth a chyfranogiad menywod, ond y gellir gwneud mwy i ymgorffori cydraddoldeb mewn arweinyddiaeth, cynrychiolaeth a gwaith craffu.

Gwnaeth yr adroddiad **Senedd i Bawb: Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd**, argymhellion mewn sawl maes, gan gynnwys mesurau i fonitro cam-drin Aelodau ar-lein ac i sefydlu 'Tasglu Cyfranogiad Diogel mewn Gwleidyddiaeth'. Nodwyd hefyd fod prif ffrydio ystyriaethau

cydraddoldeb yn flaenoriaeth wrth graffu ar bolisïau, cyllidebau a deddfu, ac y dylai pwyllgorau gynnal un ymgysylltiad Model Prif Ffrydio Cydraddoldeb rheolaidd fesul tymor yn y Senedd i sicrhau eu bod yn ystyried anghenion gwahanol bobl.

Rydym am wneud yn siŵr bod gan ein senedd ni ffyrdd sefydliadol o weithio sy'n hyrwyddo ac yn datblygu cydraddoldeb, yn hytrach na'i bod yn dibynnu ar arferion disgresiynol a hyrwyddwyr unigol i arwain newid.

Man cychwyn yw'r Adolygiad hwn. Roedd y Bwrdd yn argymell sefydlu bwrdd gweithredu i gyflawni a monitro'r argymhellion. Mater i'r Senedd nesaf a Chomisiwn y Senedd fydd ymateb i argymhellion yr adolygiad.

### Yr Ymchwiliad Urddas a Pharch

Cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i gynnal ymchwiliad i 'urddas a pharch' wedi iddo gael adroddiad gan Gomisiwn y Senedd ar y polisi urddas a pharch presennol.

Mae'r argymhellion yn yr adroddiad **Ymchwiliad i Urddas a Pharch: Cyflwyno mwy o annibyniaeth a chymorth i'r broses gwyno yn y Senedd**, yn rhan o broses barhaus sydd â'r nod o wella tirwedd Safonau'r Senedd a sicrhau mwy o ymddiriedaeth, tryloywder a chefnogaeth yn y prosesau hynny, a'r sefydliad gwleidyddol yn gyffredinol.

## Adolygiad o’r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd

Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau o'r Senedd (y Cod) yn nodi'r safonau ymddygiad personol a ddisgwylir gan yr holl Aelodau.

Cytunwyd ar y Cod blaenorol ar ddechrau'r Chweched Senedd ym mis Mai 2021. Cytunodd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i adolygu'r Cod cyn y Seithfed Senedd, gan adeiladu ar ei waith o amgylch yr agenda urddas a pharch a'i **adroddiad ar ‘urddas a pharch’**. Nod y Pwyllgor oedd sicrhau bod y Cod yn adlewyrchu safonau cyfoes mewn bywyd cyhoeddus a'i fod yn berthnasol i'r cyd-destun gwleidyddol, cyfansoddiadol a diwylliannol y mae Aelodau o’n Senedd esblygol yn gweithredu ynddo.

Mae **adroddiad y pwyllgor ar yr adolygiad o'r Cod Ymddygiad** yn egluro'r newidiadau i'r Cod.

Bydd y **Cod Ymddygiad diwygiedig ar gyfer Aelodau o'r Senedd** yn dod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

## Adolygiad o effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd

Wrth baratoi ar gyfer y Seithfed Senedd, cynhaliodd Fforwm y Cadeiryddion adolygiad o effeithiolrwydd pwyllgorau yn ystod y Chweched Senedd. Nod y gwaith hwn oedd sicrhau bod pwyllgorau'r Senedd, sy'n ganolog i graffu, atebolrwydd a datblygiad deddfwriaeth Cymru, yn parhau i weithredu gydag eglurder, pwrpas ac effaith yn y Seithfed Senedd.

Roedd yr adroddiad, **Adolygu Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd**, yn crynhoi canfyddiadau adolygiad y Fforwm. Mae'n amlygu themâu allweddol ac yn nodi myfyrdodau i gefnogi datblygiad parhaus system bwyllgorau sy'n wydn, yn gynhwysol ac sydd â’r adnoddau i ddiwallu gofynion craffu Senedd sy'n aeddfedu.










**1. Cynllun interniaid Ymlaen** – ein trydydd grŵp o interniaid yn rhannu eu profiadau mewn digwyddiad i staff.

**2. Gweithio'n ddwyieithog** – cefnogi Aelodau a staff i ddatblygu eu sgiliau iaith.

## Gweithio'n Ddwyieithog

Roedd y newidiadau a ddaeth yn sgil Deddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn edrych o'r newydd ar fframwaith yr ieithoedd swyddogol. Ein nod yw sicrhau ei fod yn addas at y diben a'n bod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol yn ddiofyn, er gwaethaf cynnydd sylweddol yn y galw am y gwasanaethau. Gwnaethom gynnal arolwg o Aelodau'r Chweched Senedd a'r Staff Cymorth ar y fframwaith presennol, a chynhelir ymgynghoriad pellach ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

Mae gweithio'n ddwyieithog yn rhan annatod o'r cyngor a'r canllawiau a ddatblygwyd i gefnogi'r Aelodau newydd. Mae argymhellion Adolygiad Fforwm y Cadeiryddion o Effeithiolrwydd Pwyllgorau yn y Chweched Senedd hefyd wedi cael eu hystyried. Rydym wedi datblygu dull newydd ar gyfer casglu gwybodaeth am sgiliau iaith a dewisiadau pob Aelod a Staff Cymorth, a fydd yn galluogi'r Comisiwn i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i bob Aelod yn eu dewis iaith o'u diwrnod cyntaf yn y swydd.

Eleni hefyd, gwelwyd datblygiadau newydd gyda'n system Adnoddau Dynol a'r Gyflogres yn gweithredu modiwlau newydd, gan gynnwys y modiwl Adolygu Perfformiad ar gyfer Staff y Comisiwn, ac yn parhau i gynnig profiad dwyieithog o ansawdd uchel i ddefnyddwyr. Mae'r gwersi a ddysgwyd o gamau cychwynnol y prosiect wedi bod yn werthfawr wrth lunio ein dull o weithredu modiwlau pellach neu elfennau ychwanegol, yn enwedig System Rheoli Dysgwyr a Phorth Ymsefydlu. Bydd y ddau yn cael eu lansio ar ddechrau'r Seithfed Senedd ac yn cynnig swyddogaethau cwbl ddwyieithog i ddefnyddwyr, gan wella profiad yr Aelodau newydd a staff cymorth yn dilyn etholiad y Senedd.

Mae rhannu arbenigedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Comisiwn, ac rydym wedi croesawu nifer o ymwelwyr seneddol a rhyngwladol. Roeddem yn falch o gynnal ymweliad ar y cyd gan Gomisiynydd Iaith Gogledd Iwerddon, Prifysgol Ulster a Phrifysgol y Frenhines, Belfast ym mis Chwefror 2026. Roedd hwn yn gyfle pellach i rannu gwybodaeth am waith y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi a gweithio dwyieithog yn y Senedd.

Mae perthnasoedd y Comisiwn â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i feincnodi a gwella ein gwasanaethau, yn enwedig mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Yn dilyn etholiad y Senedd, byddwn yn parhau i weithio ar ddatblygu Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd ar gyfer y Seithfed Senedd, gan ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y Cynllun yn adlewyrchu anghenion y sefydliad a'r bobl rydym yn eu gwasanaethu. Mae'r flwyddyn nesaf yn cynnig cyfleoedd i gryfhau ein hymrwymiad i ddwyieithrwydd, ac rydym yn benderfynol o barhau i arwain y ffordd fel deddfwrfa gwirioneddol ddwyieithog.



**Arddangosfa 'Â'n gwreiddiau yn ein Dhaqan'**
yn talu teyrnged i gryfder, gwydnwch, a harddwch y dreftadaeth Somali.

## Ymgysylltiad Rhyngwladol

Mae ein gweithgareddau rhyngwladol yn:

- canolbwyntio ar fusnes seneddol, gan alluogi'r Senedd i gyflawni ei swyddogaeth graidd, sef cynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, drwy wella'r broses o gyfnewid gwybodaeth, syniadau a phrofiad;
- cydnabod gwerth a phwysigrwydd meithrin enw da sefydliadol a rhyngwladol y Senedd drwy ymgysylltu a chydweithredu, pa un a yw'r gwaith hwnnw'n cael ei arwain gan yr Aelodau neu bwyllgorau, ar lefel swyddogion neu rhwng seneddau.

### Cynnal Rhwydweithiau Rhyngwladol yn y Senedd

#### Cynhadledd Ranbarthol Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR)

Ym mis Mehefin 2025, cynhaliodd y Senedd gynhadledd ryngwladol arwyddocaol, a gafodd ei threfnu a'i chefnogi gan staff y Comisiwn, a fynychwyd yn dda gan dros 40 o Aelodau etholedig o'r rhan fwyaf o ganghennau'r rhanbarth, Sylwedyddion Rhyngwladol o Quebec a De Affrica, yn ogystal â'r Ysgrifennydd Cyffredinol, Stephen Twigg.

Thema'r gynhadledd tri diwrnod oedd "Mynd i'r Afael ag Anghenion Senedd Fodern", a oedd yn edrych ar y mesurau democrataidd sydd ar waith i ddiogelu cynrychiolaeth amrywiol mewn seneddau, yn ogystal â'r gefnogaeth a'r addysg sydd ar gael i seneddwyr.

Roedd y gynhadledd yn cynnwys lansio'r Rhwydwaith LHDT+ rhanbarthol yn y Senedd. Roedd nifer o sesiynau Cyfarfod Llawn a gweithdai yn trafod pynciau, gan gynnwys: Cefnogi Iechyd Meddwl a Llesiant Seneddwyr; Profiad Senedd Ieuenctid Cymru; Pwysigrwydd Lleisiau LHDT+ yn y Senedd a Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial mewn Seneddau.

Roedd y Gynhadledd yn gyfle gwych i arddangos y Senedd a'i gwaith wrth roi blas o ddiwylliant, iaith a lletygarwch Cymru. **Adroddiad Cynhadledd Rhif 54 BIMR**

### Ymweliadau Rhyngwladol Nodedig

**Ymweliad y Llywydd â'r Assemblée Nationale du Québec 22-23 Mai 2025**
Aeth y Llywydd ar ymweliad swyddogol i Assemblée National du Québec ar wahoddiad y Llefarydd Nathalie Roy MNA. Fel rhan o'r ymweliad, llofnododd y

ddau Lefarydd Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth sy'n cydnabod y cyfeillgarwch parhaus rhwng y ddwy ddeddfwrfa ac yn cytuno i hyrwyddo datblygiad cysylltiadau dwyochrog a chryfhau'r cysylltiadau hynny. **Adroddiad ar yr ymweliad**

## Ymweliadau â'r Senedd

7 Mai 2025 – Yr Anrhydeddus Pat Weir, Llefarydd Senedd Queensland

14 Mai 2025 – Y Seneddwr Sue Lines, Llywydd Senedd Awstralia

2 Gorffennaf 2025 – Yr Anrhydeddus Ben Franklin ACD, Llywydd Cyngor Deddfwriaethol De Cymru Newydd

## Rhwydweithiau Aelodau

**Gweithdy Rhanbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad** (Ebrill 2025)
Cynrychiolwyd y Senedd gan Sioned Williams AS mewn gweithdy Seneddwragedd y Gymanwlad a gynhaliwyd yn Nassau, y Bahamas.
**Adroddiad: Seneddwyr fel llyw-wyr ar gyfer ymrymuso economaidd i fenywod**

**Cynhadledd Ranbarthol Rhif 61 Canada** (Gorffennaf 2025)
Gwahoddwyd y Senedd, a gynrychiolir gan y Dirprwy Lywydd, David Rees AS, gan yr Assemblée Nationale du Québec i fynychu Cynhadledd Rhanbarth Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad Canada fel arsylwr rhyngwladol.
**Adroddiad ar gyfranogiad y Senedd**

**Cynhadledd Ranbarthol Seneddwragedd y Gymanwlad** (Chwefror 2026)
Cynrychiolwyd y Senedd yng nghynhadledd ranbarthol flynyddol Seneddwragedd y Gymanwlad yn Belfast gan Sioned Williams AS a Rhianon Passmore AS.

**Fforwm Seneddwyr y Gymanwlad sydd ag Anableddau - Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir (BIMR)** (Chwefror 2026)
Cynrychiolodd Mark Isherwood AS y Senedd yn Fforwm cyntaf Seneddwyr y Gymanwlad sydd ag Anableddau, a gynhaliwyd gan Senedd yr Alban.

**Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad Rhif 68** (Hydref 2025)
Cynhaliwyd cynhadledd flaenllaw flynyddol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Bridgetown, Barbados. Cynrychiolwyd y Senedd gan Natasha Asghar AS ac Alun Davies AS. **Adroddiad ar gyfranogiad y Senedd yn y Gynhadledd**

**Cenadaethau Arsylwi Etholiadau BIMR Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad** (2025)
Cymerodd Alun Davies AS ran yng Nghenhadaeth Arsylwi Etholiadau BIMR i Ynysoedd Cayman ym mis Ebrill ac arweiniodd y Genhadaeth ar gyfer etholiad Ynysoedd Falkland ym mis Rhagfyr.

**Bord Gron Rhwydwaith LHDT+ BIMR Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad** (Tachwedd 2025)
Mynychodd Adam Price AS a Hannah Blythyn AS y Fforwm LHDT+ cyntaf yn San Steffan.

**Cynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad ar Rôl y Senedd wrth Lunio Dyfodol Deallusrwydd Artiffisial Cyfrifol** (Tachwedd 2025)
Cynhaliwyd Cynhadledd Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn Kuala Lumpur, Malaysia ac roedd Hannah Blythyn AS ac Adam Price AS yn bresennol.
**Adroddiad ar y Gynhadledd Deallusrwydd Artiffisial**

**Cyfarfod Llawn Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA)** (Hydref 2025)
**Cyfarfod Llawn Rhif 67 y Cynulliad**, a gynhaliwyd gan ddirprwyaeth Senedd y DU yn Weybridge, oedd y cyntaf i gael ei gynnal ar ôl y bwlch etholiadol yng ngweithgareddau'r Cynulliad.

Arweiniwyd dirprwyaeth y Senedd gan y Dirprwy Lywydd David Rees AS, ac roedd yn cynnwys Heledd Fychan AS, Darren Millar AS a Joyce Watson AS.

**Cyfarfod Llawn Rhif 68 BIPA** (Mawrth 2026)
Mynychodd y Dirprwy Lywydd David Rees AS, yng nghwmni Joyce Watson AS a Carolyn Thomas AS, **Gyfarfod Llawn Rhif 68 BIPA** yn Tralee, Swydd Kerry.

**Cyfarfod Pwyllgor D Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA) - Pwyllgor Pobl a Diwylliannau** (Rhagfyr 2025)
Croesawodd y Senedd aelodau Pwyllgor D BIPA, y Pwyllgor Pobl a Diwylliannau. Sesiwn casglu tystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad i Dai Gwledig oedd yr ymweliad, gyda Heledd Fychan AS yn bresennol fel cynrychiolydd y Senedd ar y Pwyllgor.

**Pwyllgor B Cynulliad Seneddol Prydain ac Iwerddon (BIPA): Hinsawdd, Ynni, Gwyddoniaeth a Thechnoleg** (Chwefror 2026)
Cynrychiolodd Cadeirydd y Pwyllgor, Darren Millar AS, y Senedd mewn cyfarfod fel rhan o'i ymchwiliad i ddiogelwch ynni yn y dyfodol yn Nulyn.

1


2


3


4



5


6



**1.** Y Dirprwy Lywydd, David Rees AS, yn cymryd rhan yng Nghynhadledd Ranbarthol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad Canada, a gynhaliwyd gan yr Assemblée Nationale du Québec (Dinas Québec – Gorffennaf 2025).

**2.** Y Dirprwy Lywydd, David Rees AS, gyda Nathalie Roy, Llywydd yr Assemblée Nationale du Québec (Dinas Québec – Gorffennaf 2025).

**3.** Sioned Williams AS yn cynrychioli'r Senedd mewn Gweithdy ynghylch Ymrymuso Economaidd i Fenywod (Nassau, Bahamas, Ebrill 2025).

**4.** Natasha Asghar AS ac Aelodau o Bwyllgor Gweithredol Rhyngwladol Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad (Barbados, Hydref 2025).

**5.** CPA BIMR 2025 – Llun Swyddogol o'r Gynhadledd (y Senedd, Mehefin 2025).

**6.** CPA BIMR 2025 – Lansio Rhwydwaith LHDT+ BIMR (y Senedd, Mehefin 2025).

## Cymru a'r UE

Parhaodd y Senedd i ymgysylltu â strwythurau'r DU a'r UE ar gyfer cysylltiadau seneddol. Mynychodd Aelodau o'r Senedd Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE a Grŵp Cyswllt Pwyllgor y Rhanbarthau.

Cynhaliodd y Dirprwy Lywydd raglen ymweliadau â'r Senedd gan Lysgennad yr UE a Phenaethiaid Cenhadaeth Ewrop (Ebrill 2025), Pennaeth Swyddfa Gyswllt y DU Senedd Ewrop (Tachwedd 2025) a Thîm Rygbi Senedd Ewrop (Tachwedd 2025.) Mae'r Senedd hefyd wedi croesawu amrywiaeth o Lysgenhadon a swyddogion o Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau Ewropeaidd.

Mae swyddfa'r Senedd ym Mrwsel wedi cefnogi a hwyluso ymgysylltiad pwyllgorau'r Senedd ac Aelodau o'r Senedd â sefydliadau'r UE. Ymwelodd dirprwyaeth draws-bwyllgor o Aelodau o'r Senedd â Brwsel, a chyfarfu ag amrywiaeth o sefydliadau'r UE fel rhan o'r ymchwiliad i'r berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol (Mehefin 2025).

Parhaodd staff y Comisiwn i ymgysylltu â Rhaglen Ymwelwyr nodedig yr UE, sef rhaglen hyfforddi i weithwyr proffesiynol ifanc sy'n gweithio mewn meysydd perthnasol.

## Busnes y Senedd yn mabwysiadu ffocws rhyngwladol

Mae craffu ar faterion rhyngwladol ac ymgysylltu â hwy yn parhau i fod yn faes â blaenoriaeth i bwyllgorau'r Senedd.

- Cyhoeddodd pedwar pwyllgor y Senedd **adroddiad ar y cyd ar yr adolygiad o'r Cytundeb Masnach a Chydweithrediad rhwng y DU a'r UE**.. Y tro cyntaf i'r Senedd wneud hynny, nodwyd y model hwn o waith pwyllgor ar y cyd gan Aelodau o'r Senedd fel model arfer da.

- **Yn sefydlog ond heb fod yn saff? Dinasyddion yr UE a arhosodd ar ôl Brexit,** oedd yr adroddiad monitro terfynol gan y pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar weithrediad Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE (EUSS) a hawliau dinasyddion Ewropeaidd yng Nghymru.

- Cyhoeddwyd dau adroddiad allweddol gan Bwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Cysylltiadau Rhyngwladol a Chwaraeon y Senedd eleni: mae **Cenhadaeth Cymru** yn nodi egwyddorion ar gyfer ymgysylltiad rhyngwladol y dylai llywodraeth yn y dyfodol eu mabwysiadu (Chwefror 2026); mae **Cysylltiadau rhwng Cymru ac Iwerddon: Darlun o bosibilrwydd disglair** yn galw am ffocws parhaus ar y berthynas allweddol hon (Mawrth 2026).

- Parhaodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad â'i waith craffu ar gytundebau rhyngwladol nad ydynt yn fasnachol gan gyhoeddi ei **adroddiad: Y gwersi a ddysgwyd yn sgil 100 o gytuniadau** ym mis Mawrth 2026.


Yn y Cyfarfod Llawn, mae'r Senedd wedi myfyrio ac ymateb yn aml i ddigwyddiadau allweddol sydd wedi ffurfio'r byd eleni, megis y rhyfel yn Wcráin, y gwrthdaro rhwng Israel a Gaza, a'r gwrthdaro yn Iran.

# Cael dinasyddion wrth wraidd popeth a wnawn

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad Blynyddol yn tynnu sylw at y gwaith rydym wedi'i wneud i godi ymwybyddiaeth o'r Senedd a'i gwaith, a'i gwneud yn fwy hygyrch i bobl Cymru.




## Pobl Cymru a'r ystad




Cyfanswm nifer yr ymwelwyr â'r Senedd a'r Pierhead

**166,758**




Cyfanswm nifer y teithiau, wyneb yn wyneb ac ar-lein

**403**




Cyfanswm nifer y bobl yn bresennol ar deithiau, wyneb yn wyneb ac ar-lein

**12,667**



Cyfanswm nifer y digwyddiadau a gynhaliwyd oddi ar yr ystad, ac arni


**282**



Cyfanswm nifer y cyfranogwyr mewn digwyddiadau a gynhaliwyd oddi ar yr ystad, ac arni


**31,829**

## Pobl Cymru a'r ystad



Nifer y sesiynau ymgysylltu â dinasyddion

**115**




Nifer y cyfranogwyr mewn sesiynau ymgysylltu â dinasyddion

**628**



Nifer yr ymweliadau addysgol (mewnol, allanol a rhithwir)

**904**



Nifer y cyfranogwyr mewn ymweliadau addysgol (mewnol, allanol a rhithwir)

**56,333**


UNISON
education


MORE POWER TO YOU
FY NYFODOL YN Y FFRÂM
FRAMING MY FUTURE


YOU

## Cyfathrebu ac ymgysylltu o ran yr etholiad

### Mwy o Bŵer i Chi

#### Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn Etholiad y Senedd

Mae ein hymgyrch etholiadol - *Mwy o Bŵer i Chi* - yn defnyddio iaith rymusol a delweddau bywiog i hybu hyder ac annog cyfranogiad yn etholiad y Senedd.

#### Dull wedi'i Dargedu

Ein nod yw codi ymwybyddiaeth o newidiadau'r Senedd, gwella dealltwriaeth o rôl y Senedd, a chynyddu'r bwriad i bleidleisio - yn enwedig ymhlith pobl ifanc a'r rhai mewn ardaloedd economaidd-gymdeithasol is. Gan ddefnyddio gwaith ymchwil cynulleidfaoedd a gwyddor ymddygiad i lywio ein cynlluniau, rydym yn defnyddio dull aml-sianel i dargedu grwpiau â blaenoriaeth, gan sicrhau bod pob pleidleisiwr cymwys yn cael ei gyrraedd.

#### Ymgysylltu â’r Gymuned

Rydym wedi ymweld â phob un o'r 16 o etholaethau newydd, gan fynychu sioeau â nifer fawr o ymwelwyr a lleoliadau lleol, llai. Gwnaethom gryfhau cysylltiadau â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol drwy gysylltiadau llawr gwlad, fel mynychu cymunedau Wcráin a Hong Kong Caerdydd yn y lleoliadau y maent yn cwrdd, gan gynnig cymorth cyfieithu i sicrhau cyfranogiad mwy diogel a hyderus.

#### Sesiynau Addysgol

Ers yr hydref, rydym wedi cynnal sesiynau helaeth sy'n targedu pleidleiswyr newydd - gan gynnwys 108 o sesiynau ym mis Ionawr yn unig - ac wedi darparu gwybodaeth ar y safle ac ar-lein drwy weithdai *Deall Eich Pleidlais*.

#### Presenoldeb Ar-lein

Gwnaethom lansio sianel TikTok i gyrraedd cynulleidfaoedd iau, gan greu cynnwys pwrpasol fel cyfres “cyfrif i lawr” a ffilmiwyd mewn lleoliadau eiconig ledled Cymru.

Mae ein tudalen etholiad ar y wefan wedi'i hadnewyddu yn rhannu gwybodaeth hanfodol drwy flogiau a chwestiynau cyffredin, gan ddefnyddio gwrando ar y cyfryngau cymdeithasol ac adborth o ymgysylltiad cymunedol i sicrhau bod y wybodaeth y mae pobl yn chwilio amdani ar gael yn hawdd.

### Cyfres erthyglau Etholiad 26

Gwnaethom gyhoeddi **cyfres o erthyglau** yn dwyn ynghyd gwybodaeth bwysig am yr etholiad, gan gynnwys y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer yr etholiad, esboniad o'r system etholiadol newydd a dadansoddiad o'r canlyniadau yn dilyn yr etholiad.

### Gwybodaeth Hygyrch

Rydym wedi datblygu adnoddau gwybodaeth mewn Iaith Arwyddion Prydain, Braille, fformatau hawdd eu darllen, a sawl iaith yn seiliedig ar anghenion defnyddwyr a gwaith ymchwil.

### Sylw yn y Cyfryngau

Rydym wedi darparu nifer o sesiynau briffio i'r cyfryngau, gan gynnwys ar gyfer allfeydd cenedlaethol a chyfryngau newydd, fel podlediadau, er mwyn sicrhau adrodd eang a chywir.

### Cydweithredu

Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau perthnasol, gan gynnwys y Comisiwn Etholiadol ac awdurdodau lleol, i alinio strategaethau cyfathrebu a chydweithio lle bo modd, gan arbed arian ac osgoi dryswch ymhlith y gynulleidfa.

### Hysbysebu

Dechreuodd ein hymgyrch farchnata ym mis Chwefror, gyda hysbysfwrdd yn Sgwâr Canolog Caerdydd i wneud y gorau o ymwelwyr hanner tymor a Phencampwriaeth y Chwe Gwlad, a hysbysebion ar lwyfannau digidol mawr; gyda gweithgarwch ymgyrchu ar ei anterth o 20 Ebrill i 7 Mai.

Mae ein holl weithgarwch yn cael ei fonitro a'i werthuso'n rheolaidd. Bydd canlyniadau’r ymgyrch hon ar gael yn Adroddiad Blynyddol y flwyddyn nesaf.


TI'N
FWY
GRYMUS
NA TI'N
MEDDWL
YOU'RE
MORE
POWERFUL
THAN YOU
THINK





## Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

### Y flwyddyn olaf

Dyma flwyddyn olaf ein Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu, sy'n anelu at godi ymwybyddiaeth, cynyddu dealltwriaeth ac annog cyfranogiad.

### Addasu i ddiwallu anghenion y gynulleidfa

Y newid mwyaf eleni fu yn ein dull digidol. Rydym wedi addasu'n gyflym i newidiadau ym modelau busnes ac algorithmau llwyfannau. Gwnaethom lansio sianel TikTok i gyrraedd cynulleidfaoedd iau – gan gyrraedd pobl 16-34 oed yn llwyddiannus.

Rydym wedi newid ein dull gweithredu ar Facebook i roi ffocws cryfach ar y Cyfarfod Llawn, yn enwedig pan fydd pynciau o ddiddordeb i'r gynulleidfa hon yn cael eu trafod. Mae hyn wedi arwain at gynnydd sydyn mewn cyrhaeddiad – gyda thros 1.8 miliwn o gyrhaeddiadau rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr, a chynnydd o 1,200% yn Ch3 o'i gymharu â'r un chwarter yn 2024.

At ei gilydd, roedd cynnydd o 266% mewn cyrhaeddiad ar draws ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn Ch3, o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd.

Mae ein hymdrechion ymgysylltu wedi symud i godi ymwybyddiaeth o'r newidiadau i'r Senedd ac etholiad mis Mai, gyda chynnydd sylweddol mewn ymgysylltiad cymunedol, gan gynnwys mynychu mwy o sioeau haf ac mewn hybiau cymunedol ledled Cymru.

Mae cyrraedd cynulleidfaoedd nad ydynt o bosibl yn teimlo bod eu lleisiau'n cael eu clywed yn draddodiadol gan y Senedd yn un o nodau allweddol ein strategaeth. Yn Ch3, nid oedd tua 90% o'r rhai y gwnaethom ymgysylltu â hwy erioed wedi ymgysylltu â ni o'r blaen.

Profodd ymwelwyr â'r Senedd sgript newydd ar gyfer y teithiau i gynnwys y newidiadau sydd ar ddod, wedi'i ategu gan arddangosfa a thaflenni, a pharhaodd ein hymdrechion i sicrhau bod lleisiau amrywiol yn llunio gwaith y Senedd.

Gwnaethom gefnogi dulliau diogel a chynhwysol i lunio gwaith y Pwyllgor o ymgysylltu â'r gymuned Iaith Arwyddion Prydain ar y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) i gynnwys lleisiau'r rhai sydd â phrofiad byw o ddigartrefedd fel rhan o ymchwiliad i wasanaethau tai i bobl sy’n agored i niwed.

Parhaodd llwyddiant fformat newydd *Y Farchnad* i gefnogi sefydliadau i ymgysylltu â’r Aelodau gyda marchnad â thema ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl – gan groesawu 12 o sefydliadau a pherfformiad arbennig o 'Silent Glimpses, Loud Truths' gan Theatr Hijinx.

Mae ein rhaglen arddangosfeydd yn parhau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd a chodi ymwybyddiaeth o'r Senedd drwy sylw yn y wasg genedlaethol. Roedd arddangosfeydd, fel *Not lost in translation,* a oedd yn cynnwys cyfieithiad yr Esgob William Morgan o'r Beibl i'r Gymraeg ym 1588, yn pwysleisio lle'r Senedd ym mharhad treftadaeth Cymru. Tra bod *Wales: A Home from Home,* yn archwilio cymunedau byd-eang amrywiol Cymru ac yn tynnu sylw at rôl y Senedd yng nghanol Cymru amlddiwylliannol, fyd-eang.

Bydd gwerthusiad llawn o'n strategaeth yn cael ei gwblhau yn gynnar yn y Flwyddyn Ariannol 26-27, gyda gwersi a ddysgwyd ochr yn ochr â gwaith ymchwil cynulleidfaoedd yn cael eu defnyddio i ddatblygu ein strategaeth newydd.




**Arddangosfa ‘Cymru: Cartref oddi Cartref’** yn dangos straeon a gasglwyd o gymunedau amrywiol Cymru o bedwar ban byd.

## Defnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol i gefnogi Senedd fodern

Yn ystod 2025-26, gwnaeth Comisiwn y Senedd gynnydd sylweddol o ran defnyddio deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol mewn ffordd gyfrifol, gan ganolbwyntio ar fanteision ymarferol wrth sicrhau llywodraethu, tryloywder a rheolaeth gref.

Mae dull y Comisiwn o ymdrin â deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol wedi'i seilio ar dair colofn strategol:

- gwella cynhyrchiant
- gwella hygyrchedd
- cefnogi llesiant staff

Drwy gydol y flwyddyn, canolbwyntiodd y gweithgarwch ar brofi a all technolegau deallusrwydd artiffisial ddarparu gwerth ystyrlon mewn cyd-destun seneddol wrth gyd-fynd â gwerthoedd a chyfrifoldebau statudol y Comisiwn.

Rhan fawr o'r gwaith hwn oedd peilot strwythuredig o Microsoft Copilot ar gyfer Microsoft 365 a Microsoft Teams Premium o fewn amgylchedd diogel Microsoft y Comisiwn. Dewiswyd yr offer hyn i ganiatáu i staff archwilio drafftio, crynhoi, cefnogi cyfarfodydd ac adfer gwybodaeth gyda chymorth deallusrwydd artiffisial, gan sicrhau bod data'r Comisiwn yn parhau i fod wedi'u diogelu ac yn ddarostyngedig i'r rheolaethau diogelwch presennol. Mae'r cynllun peilot wedi galluogi'r Comisiwn i ddechrau meithrin dealltwriaeth gliriach o ble gall deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol wella effeithlonrwydd a chydweithredu, a ble mae barn a goruchwyliaeth ddynol yn parhau i fod yn hanfodol. Estynnwyd y cynllun peilot ym mis Tachwedd i ganiatáu i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.

Ochr yn ochr â threialon ymarferol, cryfhaodd y Comisiwn ei fframwaith llywodraethu ar gyfer deallusrwydd artiffisial. Mae Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial yn goruchwylio parodrwydd i dderbyn risg, cydymffurfiaeth gyfreithiol ac ystyriaethau moesegol, tra bod Grŵp Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial yn nodi achosion defnydd posibl sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau sefydliadol. Yn ystod 2025, cafodd y dull llywodraethu hwn ei ymgorffori drwy ddatblygu polisi deallusrwydd artiffisial, cwblhau asesiadau effaith, a rheoli deallusrwydd artiffisial yn barhaus fel risg gorfforaethol.

Gan gydnabod pwysigrwydd cefnogi'r Aelodau, aeth gwaith ymlaen hefyd i ymestyn y cynllun peilot deallusrwydd artiffisial y tu hwnt i staff. Cyflwynwyd trwyddedau ychwanegol i'r Aelodau, a gwnaed penderfyniadau i gynnwys trwyddedau Microsoft Copilot fel rhan o Ddyraniad TGCh Aelodau'r Seithfed Senedd. Bydd hyn yn galluogi'r Aelodau a'u staff i elwa o adnoddau hygyrchedd a chynhyrchiant sydd â chymorth deallusrwydd artiffisial o fewn amgylchedd a lywodraethir yn dda ac a reolir gan Gomisiwn.

Mae'r Comisiwn yn parhau i fod yn ymwybodol bod deallusrwydd artiffisial cynhyrchiol yn cyflwyno risgiau yn ogystal â chyfleoedd, gan gynnwys rhagfarn, anghywirdebau, pryderon o ran preifatrwydd a gor-ddibyniaeth ar awtomeiddio. Felly, drwy gydol 2025 rhoddwyd pwyslais ar ganllawiau, hyfforddiant a disgwyliadau clir bod deallusrwydd artiffisial yn dechnoleg gynorthwyol, nid yn lle barn broffesiynol.

Mae'r dull cymedrol hwn a arweinir gan dystiolaeth wedi caniatáu i'r Comisiwn wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch buddsoddi yn y dyfodol mewn deallusrwydd artiffisial, gan gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd a sicrhau bod technoleg yn parhau i wasanaethu'r broses ddemocrataidd.

## Senedd Ieuenctid Cymru

Eleni mae Senedd Ieuenctid Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar ei gwaith mewn tri maes allweddol: Trosedd a diogelwch, tlodi a chostau byw, trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol.

Ymddygiad mewn Ysgolion oedd ffocws y Pwyllgor Troseddu a Diogelwch, sef y mater cyntaf yn nhrydydd tymor Senedd Ieuenctid Cymru yr ymgynghorwyd arno. Cyfrannodd bron i 2,000 o bobl ifanc o bob cwr o Gymru at y gwaith hwn, drwy sesiynau mewn ysgolion, arolwg a grwpiau ffocws, gan sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn parhau i lywio'r argymhellion y mae Senedd Ieuenctid Cymru yn eu gwneud i Lywodraeth Cymru.

Cyflwynwyd yr adroddiad **Yn Ddiogel, Wedi'u Cynnwys a'u Clywed** gan Aelodau Senedd Ieuenctid Cymru, a chafodd ei drafod gyda'r Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg, a Chomisiynydd Plant Cymru yn ystod Cyfarfod Llawn ym mis Tachwedd 2025.

Yn ogystal â gwneud gwaith ar faterion a nodwyd gan Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru eu hunain, maent hefyd wedi bod yn weithgar wrth leisio eu barn ar faterion a drafodwyd gan bwyllgorau'r Senedd. Mae hyn wedi gweld Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau gydag

Aelodau o’r Senedd ar amrywiol bynciau, gan gynnwys craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys cyfarfod â’r Pwyllgor Cyllid i drafod blaenoriaethau cyllidebol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, a chyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth breifat gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, a’r Pwyllgor Cyllid i ddilyn tystiolaeth a roddwyd yn y cyfarfod blaenorol, a chodi cwestiynau pellach.

Yn dilyn cyhoeddi'r Adroddiad Yn Ddiogel, Wedi’u Cynnwys a’u Clywed, cychwynnodd Senedd Ieuenctid Cymru seibiant yn y tymor – i alluogi’r Aelodau a staff Senedd Ieuenctid Cymru i ganolbwyntio ymdrechion ar godi ymwybyddiaeth o Etholiad y Senedd sydd ar ddod gyda phobl ifanc 16 a 17 oed. Yn allweddol i’r ymdrech hon mae dysgu rhwng cyfoedion, drwy Aelodau o Senedd Ieuenctid Cymru yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda phobl ifanc yn eu hysgolion, colegau a grwpiau ieuenctid i annog pleidleiswyr i gofrestru, ac ysgogi sgyrsiau ynghylch pam mae pleidleisio'n bwysig.

Yn dilyn y seibiant, bydd Senedd Ieuenctid Cymru yn dychwelyd ac yn ymgysylltu â'r Llywodraeth newydd ei hethol i gyflawni ei gwaith ar ei dwy flaenoriaeth nesaf, dros dymor ychydig yn hirach er mwyn galluogi Senedd Ieuenctid Cymru i gyflawni ei gwaith yn effeithiol.

# Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy

Mae'r adran hon o'r Adroddiad Blynyddol yn trafod sut rydym yn defnyddio ein hadnoddau i gefnogi busnes y Senedd, a sut rydym yn sicrhau ein bod yn eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy.



## Ffyrdd o Weithio

Mae hon wedi bod yn flwyddyn arall hynod o brysur, gyda phrosiectau Tŷ Hywel 26 a Siambr 26 wedi'u cwblhau.

### Tŷ Hywel 26

Dechreuodd y gwaith i greu swyddfeydd newydd yr Aelodau yng ngwanwyn 2025 a chafodd ei gwblhau erbyn diwedd gwyliau'r haf. Roedd hyn yn cynnwys adleoli staff y Comisiwn a Llywodraeth Cymru i ddarparu ar gyfer y cynnydd i 96 o Aelodau ar ôl Etholiad y Senedd ym mis Mai 2026. Yn dilyn ymgynghori â grwpiau plaid, adeiladwyd dau fath o swyddfeydd ar rannau o'r ail a'r trydydd llawr, yn unol â'r ddarpariaeth swyddfeydd bresennol, ac i sicrhau mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu swyddfeydd yn y dyfodol.

I gyd-fynd â hyn, gwnaed gwaith i adleoli Llywodraeth Cymru ac i ailddefnyddio'r lle a ddelid gan y BBC ac ITV.

### Siambr 26

Yn dilyn cytundeb a chymeradwyaeth dyluniad newydd y Siambr ym mis Rhagfyr 2024, cafodd yr elfen gwaith adeiladu ei thendro a'i dyfarnu ddechrau 2025, a dechreuodd y gwaith yn fuan wedyn.

Roedd y newidiadau allweddol yn cynnwys; newidiadau i gynlluniau geometreg y desgiau; addasiadau i ddyluniadau desgiau i integreiddio darllenfa barhaol; newidiadau i orffeniadau'r waliau acwstig cyfagos; gosod rampiau yn lle grisiau i wella hygyrchedd yn sylweddol; a chodi safle'r Llywydd i wella llinellau golwg.


Gwnaed y gwaith adeiladu yn bennaf gan gyflenwyr o Gymru, gyda nifer o ddeunyddiau'n cael eu hailddefnyddio i'w defnyddio o fewn y Siambr newydd, gan gynnwys llawer o'r desgiau a'r drysau derw. Defnyddiwyd lledr fegan ar y darllenfeydd desg integredig a chadeiriau'r Siambr i sicrhau bod ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a chynaliadwy wrth wraidd y prosiect.

Am y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Aelodau wedi cyfarfod yn y siambr drafod yn adeilad Tŷ Hywel y tu ôl i'r Senedd. Gyda'r gwaith wedi'i gwblhau, mae'r lle hwnnw'n cael ei ddefnyddio eto ar gyfer rhaglen addysg ac ymwelwyr y Senedd, i gynnal sesiynau ar gyfer ysgolion a grwpiau cymunedol. Dychwelodd yr Aelodau ar gyfer eu Cyfarfod Llawn cyntaf o dymor olaf y Chweched Senedd yn y Siambr newydd ei hehangu ar 24 Chwefror.


Goruchwyliwyd y gwaith ailgynllunio gan RSHP, y penseiri a oedd yn gyfrifol am adeilad gwreiddiol y Senedd a enillodd wobrau, gan sicrhau bod y gwaith ehangu yn aros yn ffyddlon i'r dyluniad eiconig.

**Dywedodd Ivan Harbour, Uwch-gyfarwyddwr Dylunio, RSHP:** "Bum mlynedd ar hugain yn ôl, aethon ni ati i greu cartref arwyddluniol i ddemocratiaeth Cymru, gyda'r Siambr wrth ei galon, wedi'i gynllunio i annog y cyhoedd i ymgysylltu â bywyd gwleidyddol. Heddiw, mae'r gwaith ehangu sensitif hwn, a gynlluniwyd beth amser yn ôl, yn caniatáu i'r Siambr ddarparu ar gyfer mwy o Aelodau o'r Senedd wrth barhau â'i gonestrwydd, ei thryloywder, a'r ysbryd gwreiddiol ar gyfer cyfranogi sydd wedi siapio hunaniaeth y Senedd."

Ers 2006, mae'r Senedd yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol, gan gynnwys anrhydeddau fel Gwobr Genedlaethol RIBA, Gwobr yr Ymddiriedolaeth Ddinesig, a Gwobr Ryngwladol Chicago Athenaeum, a chyrhaeddodd restr fer Gwobr RIBA Stirling.



Wal Symudadwy



Seddau Ychwanegol



**Dywedodd y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS, Llywydd y Senedd:**
“Wrth inni ddychwelyd i’r Siambr, rydyn ni’n nodi carreg filltir bwysig i’n Senedd. Mae ein siambr drafod wedi cael ei thrawsnewid i ddiwallu anghenion senedd fwy a chyfnod newydd o ddemocratiaeth Cymru wrth inni edrych ymlaen at yr etholiad ar 7 Mai. Mae hwn yn adeilad sy’n cynrychioli gonestrwydd, cynaliadwyedd a’r bobl rydyn ni’n eu gwasanaethu, ac mae’r newidiadau’n adlewyrchu’r bennod nesaf yn ein taith ddemocrataidd.”



**Yr Aelodau'n dychwelyd i'r Siambr ar ôl y gwaith ailddatblygu cyn etholiad 2026**

Mae'r gwaith hwn yn nodi'r newid ffisegol mwyaf i adeilad y Senedd ers iddo agor 20 mlynedd yn ôl ar 1 Mawrth 2006, ac mae'n symbol o'r datblygiad mwyaf sylweddol ers datganoli yng Nghymru.

## Prosiect Bae Caerdydd 2032

Mae’r prosiect Bae 32 wedi'i sefydlu i sicrhau anghenion ystad hirdymor y Senedd y tu hwnt i ddiwedd prydles Tŷ Hywel yn 2032. Ei amcan yw defnyddio'r cyfle a geir yn sgil adnewyddu'r brydles i ddarparu datrysiad llety sy'n ddiogel yn y dyfodol, yn gynaliadwy ac yn gyfrifol yn ariannol, sy'n cefnogi’r Aelodau, staff a swyddogaethau deddfwriaethol a democrataidd y Senedd.

Yn dilyn cymeradwyo Achos Busnes Amlinellol y Comisiwn ym mis Rhagfyr 2024 a lansio proses gaffael ym mis Ionawr 2025, mae'r prosiect wedi symud ymlaen drwy broses ddeialog gystadleuol strwythuredig yn ystod 2025–26. Mae'r dull cystadleuol hwn wedi galluogi ymgysylltiad manwl â chynigwyr i fireinio'r dyluniad, y trefniadau masnachol a'r fethodoleg gyflawni, gan sicrhau bod atebion sy'n dod i'r amlwg yn parhau i fod yn unol â gofynion y Comisiwn ac yn darparu gwerth am arian.

Mae cynnal disgyblaeth gref o ran gwerth am arian wedi bod yn hanfodol. Mae tensiwn cystadleuol wedi'i gynnal drwy gydol nifer o rowndiau deialog, gan helpu i sicrhau gwell sicrwydd cost, dyraniad risgiau cliriach, a dealltwriaeth lawnach o oblygiadau gwahanol fodelau cyflawni, dylunio a masnachol. Mae'r cam hwn hefyd wedi caniatáu i'r Comisiwn sicrhau bod atebion yn hyfyw, yn gadarn ac yn fforddiadwy.

Mae'r broses ddeialog wedi sbarduno gwerth am arian a mireinio gofynion mewn meysydd craidd, gan gynnwys:

- datblygu dyluniadau, gan gynnwys perfformiad cynaliadwyedd, a gwerth cymdeithasol;
- opsiynau strwythur masnachol a fforddiadwyedd hirdymor; a
- deall a rheoli risgiau, dibyniaethau a chyfleoedd mawr.

Mae prosesau llywodraethu a goruchwylio’r prosiect wedi'u cynnal drwyddi draw, gydag Uwch-swyddog Cyfrifol prosiect, gyda chefnogaeth Bwrdd Prosiect, yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Gweithredol a Chomisiwn y Senedd, gyda chefnogaeth cynghorwyr technegol, cyfreithiol a masnachol annibynnol drwyddi draw. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cael cyfranogiad parhaus drwy Fwrdd Sicrwydd ar y Cyd.

Yn y flwyddyn nesaf, yn dilyn cwblhau'r caffaeliad, byddwn yn bwrw ymlaen â datblygu dyluniad manwl ac yn mireinio'r trefniadau masnachol gyda'r

cynigydd a ffefrir, o fewn fframwaith ac amlen ariannol y cytunwyd arnynt, er mwyn darparu sicrwydd cost a chyflenwi. Bydd hyn ar y cyd yn llywio datblygiad Achos Busnes Llawn cynhwysfawr sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn unol â safonau'r Llyfr Gwyrdd, gan alluogi'r Comisiwn i wneud penderfyniad sydd wedi'i seilio'n dda ar yr ateb llety hirdymor yn ystod 2026-27.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae’r Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2025-2026 yn cynnwys gwybodaeth fanwl am y gwaith y mae Comisiwn y Senedd wedi’i wneud i ddathlu amrywiaeth a hyrwyddo cynhwysiant fel senedd ac fel cyflogwr. Rydym hefyd yn cyhoeddi data amrywiaeth y gweithlu a recriwtio, archwiliad cyflog cyfartal, data ar y bwlch cyflog o ran rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd. Mae’r adroddiadau hyn ar gael drwy wefan Comisiwn y Senedd.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, rydym wedi:

- cael cydnabyddiaeth fel un o'r 10 cyflogwr gorau ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio;
- parhau i wneud gwelliannau i’n hystad i gynyddu hygyrchedd, gan gynnwys datblygiadau i Siambr y Senedd;
- ymgymryd ag allgymorth ac ymgysylltu â chymunedau amrywiol ledled Cymru i hyrwyddo cyfranogiad democrataidd a chefnogi busnes y Senedd;
- datblygu ymgyrch helaeth i hyrwyddo etholiad Senedd 2026 gyda chyrhaeddiad eang ledled Cymru;
- cefnogi cynnydd yr Adolygiad o Senedd sy’n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd;
- cefnogi trydydd cohort cynllun interniaeth YMLAEN, sy'n darparu cyfleoedd interniaeth â thâl i bedwar graddedig o gefndir ethnig lleiafrifol mewn timau ar draws Comisiwn y Senedd;
- ystyried cynhwysiant yn ein gwaith drwy gwblhau Asesiadau o’r Effaith ar Gydraddoldeb;
- cymryd rhan mewn, neu gynnal digwyddiadau ac arddangosfeydd sy’n dathlu amrywiaeth a chynhwysiant yng Nghymru, gan gynnwys y

Diwrnod Rhyngwladol Pobl Anabl, Dydd Gŵyl Dewi, Pride Cymru, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod a’r Mis Hanes Pobl Dduon.

- gweithio gyda'n cydweithwyr o Gynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban, Tŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi a'r Oireachtas i gynnig cyfres rithwir o gyflwyniadau, digwyddiadau a chyfleoedd dysgu ar gyfer Wythnos Dysgu yn y Gwaith, Mis Cynhwysiant a Mis Hanes LHDTC+;

- cyflwyno hyfforddiant gorfodol, gan gynnwys hyfforddiant recriwtio cynhwysol ar gyfer paneli, ac atal aflonyddu rhywiol i bob aelod o staff;

- cefnogi gwaith parhaus ein Rhwydweithiau Cydraddoldeb yn y Gweithle sydd wedi parhau i ddarparu cymorth cymheiriaid a chyngor ar gynhwysiant. Gwnaethom hefyd groesawu dau is-grŵp newydd: Sied Senedd i gefnogi llesiant dynion a Café Neuro i gefnogi pobl niwroamrywiol. Mae ein rhwydweithiau wedi’u cynrychioli ar ein Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant lle maent yn helpu i lywio ein dull sefydliadol o ymdrin ag amrywiaeth a chynhwysiant;

- diwygio ein dull o wneud addasiadau rhesymol ar gyfer staff anabl i greu proses fwy syml;

- adolygu ein cynnydd drwy arolygon staff, gan gynnwys ein harolwg Pobl rheolaidd, ein harolwg Iechyd a Llesiant a’n harolwg Urddas a Pharch;

- adolygu a diwygio nifer o bolisïau staff hen a newydd i wella cynhwysiant.

## Polisi Recriwtio wedi'i Adnewyddu

Yn ystod y flwyddyn, bu i Gomisiwn y Senedd adnewyddu ei Bolisi Recriwtio yn sgil ymgynghoriad helaeth ac yn unol â'r fframwaith llywodraethu polisi a sefydlwyd gan y Comisiwn.

Mae'r polisi wedi'i adnewyddu yn cryfhau dull y Comisiwn o recriwtio drwy gefnogi'r broses o gyflawni'r Strategaeth Pobl a Diwylliant a Chynllun y Gweithlu, gan alluogi gwneud penderfyniadau mwy strategol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac atgyfnerthu cysondeb, tryloywder a chynhwysiant ar draws arferion recriwtio. Mae hefyd yn adlewyrchu dysgu gweithredol ac adborth ar y polisi a'r gweithdrefnau blaenorol.

Ymgysylltodd y broses adolygu ac ymgynghori ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y Tîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Gweithredol, Rhwydweithiau Cydraddoldeb, Grŵp Llywio'r Gweithlu ac Ochr yr Undebau Llafur drwy ymgynghoriad ffurfiol, trafodaethau Fforwm Partneriaeth a sesiynau ymgysylltu pwrpasol.

Mae'r dull cydweithredol hwn wedi sicrhau bod y polisi wedi'i adnewyddu yn gadarn, yn gynhwysol ac yn addas at y diben.

## Myfyrdodau gan Intern Graddedig Ymlaen

"Mae fy amser yn y Senedd wedi bod yn hollol wych. Fe wnaeth y profiad ganiatáu imi dyfu'n broffesiynol yn fy ngwybodaeth dechnegol am adeiladau a'u gwasanaethau, ond yn bwysicach fyth yn fy hyder a'm sgiliau rhyngbersonol. Gallwn ni i gyd ddysgu cymaint o sut y bu i'r Tîm Datblygu Sefydliadol, Dysgu a Chynhwysiant greu a theilwra'r rhaglen hon i garfan eleni i greu cydbwysedd da o sgyrsiau bugeiliol, mentora a hyfforddiant. Mae angen mwy o gyfleoedd i raddedigion yng Nghymru i ennill profiad gwaith, yn enwedig ar gyfer rolau rheoli ac i aelodau o'r mwyafrif byd-eang" - Shoruk Nekeb, Intern y tîm Rheoli Cyfleusterau ac Ystadau

## Ymwybyddiaeth o'r Menopos

I nodi Mis Ymwybyddiaeth o'r Menopos (Hydref) a Diwrnod Menopos y Byd (18 Hydref), cryfhaodd y Comisiwn ei ymrwymiad i fod yn weithle sy'n ystyriol o'r menopos drwy gynnal cyfres o Gaffis Menopos drwy gydol mis Hydref. Daeth y cyntaf, a gynhaliwyd wyneb yn wyneb ar 3 Hydref, â staff ynghyd ar gyfer sgyrsiau agored, heb stigma, dros de a chacen. Cynhaliwyd gwerthiant cacennau ochr yn ochr â'r sesiwn, gan godi ymwybyddiaeth ac arian ar gyfer yr elusen Menopause Café. Cynhaliwyd ail gaffi ar-lein ar 13 Hydref, gan sicrhau y gallai staff sy'n gweithio y tu allan i ardal teithio i'r gwaith Caerdydd gymryd rhan. Roedd presenoldeb o bob rhan o’r Comisiwn ac roedd yr adborth yn tynnu sylw at werth creu mannau diogel i rannu profiadau, darparu cefnogaeth gan gymheiriaid a meithrin gwell dealltwriaeth.

Mae'r caffis yn rhan o raglen gymorth ehangach o dan y Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer 2022–2026 a'r Strategaeth Llesiant ar gyfer 2022–2025, gan gynnwys ein Cynllun Perimenopos/Menopos: Pecyn Cymorth Llesiant yn y Gweithle, sy'n cyd-fynd â Safon BSI BS 30416, ochr yn ochr â hwb pwrpasol ar gyfer gwybodaeth am y menopos ac offeryn asesu risg personol, a ddefnyddir gan gyflogeion a rheolwyr i nodi, rheoli a lliniaru effaith symptomau’r menopos ar fywyd gwaith cydweithwyr.

Gan adeiladu ar y cynnydd hwn, mae'r Comisiwn bellach yn gweithio gyda Henpicked: Menopause in the Workplace, wrth iddo symud tuag at gyflawni Achrediad sy'n Ystyriol o'r Menopos. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad hirdymor i feithrin diwylliant cynhwysol lle mae staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu hysbysu, eu parchu, a'u bod yn gallu ffynnu yn ystod pob cam o'r menopos.

## Cyfamod y Lluoedd Arfog

Ar Ddiwrnod y Lluoedd Arfog, 28 Mehefin, llofnododd Comisiynwyr y Senedd Gyfamod y Lluoedd Arfog, gan gadarnhau ei ymrwymiad i sicrhau bod personél sy'n gwasanaethu, cyn-filwyr, milwyr wrth gefn a'u teuluoedd yn cael eu trin yn deg a'u cefnogi yn y gwaith. Mae'r Cyfamod yn ymrwymo i hyrwyddo gweithle sy'n ystyriol o'r Lluoedd Arfog, cyfeirio pobl at gefnogaeth a chydnabod y sgiliau a'r profiad gwerthfawr y mae aelodau cymuned y Lluoedd Arfog yn eu cynnig i'r Senedd.
Mae'r ymrwymiad yn cyd-fynd â Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ehangach y Comisiwn ac yn atgyfnerthu ein nod i fod yn gyflogwr cynhwysol a chefnogol i bawb.

## Rhwydweithiau Cydraddoldeb

**EMBRACE**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl anabl

**INSPIRE**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i fenywod

**PLWS**
Ein rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle i bobl LHDTC+

**ENGAGE**
Ein Rhwydwaith ymgysylltu â'r holl staff

**MINDFUL**
Ein Rhwydwaith Cefnogi Iechyd Meddwl

**REACH**
Ein Rhwydwaith Hil, Ethnigrwydd a Threftadaeth Ddiwylliannol

**RISE**
Ein Rhwydwaith Symudedd Cymdeithasol

**TEULU**
Ein Rhwydwaith Gofalwyr a Rhieni sy'n Gweithio

## Gwobrau ac Achrediadau

2025 Un o'r 10 Cyflogwr Gorau ar gyfer teuluoedd sy'n gweithio

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

Dying to Work

Healthy Travel Wales

Armed Forces Covenant / Lluoedd Arfog Cyfamod

Committed to being a Menopause Friendly employer

Kids in Museums Family Café Standard

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Endometriosis Friendly Employer

LRQA Certified ISO 14001 / UKAS Management Systems 0001

Stonewall Cyflogwyr Balch Aelod

The National Autistic Society Cymru / Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru – awtistiaeth gyfeillgar 2016



Mae torri gwair yn llai aml wedi annog dau fath o flodyn tegeirian i dyfu ar yr ymyl o flodau gwyllt gerllaw y Senedd.

## Cynaliadwyedd

Ar gyfer 2025-26, bu cynnydd pellach mewn gweithgarwch ar yr ystad, yn enwedig wrth inni baratoi ar gyfer yr etholiad ar gyfer y Seithfed Senedd. Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn sawl metrig cynaliadwyedd - gan gynnwys teithio busnes, y defnydd o ddŵr, a chynhyrchu gwastraff bwyd. Fodd bynnag, rydym yn is na'n targed blynyddol ar gyfer carbon.  Mae adeiladau prysurach a haf cynhesach wedi arwain at ychydig mwy o ddefnydd trydan, ond mae mesurau effeithlonrwydd wedi cadw hyn yn is nag y gallai fod wedi bod.

Ar ôl y cynnydd mawr iawn mewn costau ynni ychydig flynyddoedd yn ôl, mae prisiau'n parhau i ostwng ac mae ein gwariant ar gyfleustodau yn adlewyrchu hyn. Er gwaethaf lefelau defnydd tebyg, mae biliau i lawr tua thraean o'r lle roeddent ar eu hanterth. Fodd bynnag, mae'r diwydiant dŵr yn mynd yn groes i'r duedd hon, gyda chodiadau ar draws y diwydiant yn cael eu hadlewyrchu mewn cynnydd yn ein biliau o tua 30%, er gwaethaf lefelau tebyg o ddefnydd dŵr.

Yn y Seithfed Senedd, rydym yn disgwyl y bydd cynnydd yn yr effeithiau ar gynaliadwyedd. Bydd ein gwaith dros y flwyddyn nesaf yn canolbwyntio ar leihau'r effaith hon, a sicrhau bod ein Strategaeth Carbon hirdymor a phrosiect Bae 32 wedi'u halinio i sicrhau dyfodol carbon isel i'r sefydliad.

Mae’r Comisiwn yn parhau i weithredu system reoli wedi'i hardystio'n amgylcheddol, sy'n cynnwys archwiliad blynyddol gan gorff a achredir gan UKAS yn ôl gofynion ISO14001.

Rydym hefyd yn parhau i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd annibynnol **ar y wefan** sy'n cynnwys mwy o fanylion na'r crynodeb a gyflwynir yn yr adroddiad hwn.

### Carbon

Mae ein hôl troed carbon craidd wedi lleihau eleni, ac rydym bellach yn ôl yn is na’n targedau interim blynyddol sy'n gostwng yn barhaus.

Mae'r targedau interim blynyddol hyn yn helpu i olrhain cynnydd tuag at ein nod carbon niwtral net gwreiddiol yn 2030, a nodir yn strategaeth **Hwyl Fawr i Garbon** Comisiwn y Senedd, a gyhoeddwyd yn 2021.  O ystyried newidiadau i'r dirwedd adrodd ar garbon, yng Nghymru a'r DU yn ehangach ers 2021, yn enwedig o ran gwrthbwyso ac allyriadau Cwmpas 3 (cyflenwr), bydd y Comisiwn yn adolygu'r strategaeth hon dros y flwyddyn nesaf.

Dau beth a gafodd effaith mawr ar gyrraedd targed eleni oedd llai o alw am wresogi a llai o deithio awyr. Gostyngodd ffactor trosi grid trydan y DU eleni hefyd, ar ôl dwy flynedd ar yr un lefel, oherwydd cynnydd yn y defnydd o ynni adnewyddadwy ar draws y rhwydwaith. Rydym wedi elwa o hyn; mae ein defnydd o drydan yn codi ychydig ond mae'r gydran hon o'n hôl troed carbon yn gostwng.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn ddigon ffodus i gael intern cynllun Ymlaen[4] yn gwella ein data carbon Cwmpas 3 drwy weithio gyda chyflenwyr a thimau caffael i wneud y wybodaeth hon yn fwy cyfannol a chywir. Mae hyn, yn y lle cyntaf, wedi arwain at gynnydd yn y data ôl-troed carbon ehangach hyn, gan fod mwy wedi'u cynnwys yng nghwmpas y gwaith. Ond bydd y gwaith sylfaenol hwn yn ein galluogi i wneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch carbon wrth brynu nwyddau a gwasanaethau yn y dyfodol, a sicrhau ein bod yn gweithredu model arfer gorau o adrodd ar garbon. Mae rhagor o wybodaeth am y fethodoleg hon ar gael yn y prif **Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd ar gyfer 2025-26**.

## Ynni

Ar ôl anwadalrwydd cwpl o flynyddoedd yn ôl, mae prisiau ynni yn parhau i ostwng. Mewn ymateb i adborth gan randdeiliaid, rydym wedi cadw pwyntiau gosod yn gyson ar draws ein hystad, yn dilyn rhai gostyngiadau pan oedd prisiau ar eu hanterth. Mae hyn wedi ein galluogi i gymharu'n agosach â'r llynedd, gan gynnwys pa mor dda y mae'r adeiladau'n ymateb i dymheredd y tu allan a sylwi ar yr arbedion o osod offer mwy effeithlon o ran ynni.

Mae'r defnydd o nwy wedi gostwng eto eleni - i lefel sy'n gymharol â dwy flynedd yn ôl. Adlewyrchwyd y flwyddyn oerach a gawsom y llynedd, a'r defnydd cynyddol o nwy, yn y data Dyddiau Gradd - gan ddangos bod galw gwirioneddol am fwy o wresogi. Fodd bynnag, mae hynny wedi gostwng eleni, gyda'r gostyngiad yn y defnydd o nwy hyd yn oed yn fwy na'r gostyngiad mewn Dyddiau Gradd (20% o'i gymharu ag 11%). Mae costau nwy cyfanwerthu wedi gostwng hefyd; ynghyd â defnydd is gwelsom ostyngiad sylweddol mewn gwariant ar nwy (30%+).

Cynyddodd y defnydd o drydan ychydig yn ystod y cyfnod hwn - cynnydd o 2% ar y llynedd. Mae nifer o newidynnau wedi cyfrannu at hyn, gan gynnwys haf

[4] Mae'r **cynllun interniaeth, sef Ymlaen**, yn rhaglen interniaeth â thâl yng Nghomisiwn y Senedd sydd â'r nod o roi profiad gwaith a datblygu sgiliau i raddedigion o gefndiroedd Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru.

cynhesach yn 2025 nag yn 2024 (mwy na dyblu nifer y Dyddiau Gradd Oeri), a boeleri adeilad y Pierhead allan o wasanaeth; gan olygu bod angen trydan i gynhesu rhywfaint o'r adeilad. O ystyried y ffactorau hyn, mae'r cynnydd o 2% yn is na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl, sy'n dyst i fesurau effeithlonrwydd pellach, gan gynnwys gosod mwy o oleuadau LED ar yr ystad. Gostyngodd costau trydan eleni hefyd, gyda'n gwariant bron i 30% yn is nag yn 2024-25.

Mae’r Comisiwn yn parhau i brynu ynni drwy fframwaith y llywodraeth, dros ffenestr brynu hirdymor. Mae hyn yn cynnig arbedion o ran maint, gan ein bod yn prynu ochr yn ochr â llawer o weddill y sector cyhoeddus, ac mae'r strategaeth brynu yn llyfnhau amrywiadau yn y farchnad; gan ganiatáu inni ragweld gwariant yn fwy cywir.

Dros y flwyddyn nesaf, un newid sylweddol i'r defnydd o ynni fydd cysylltu ein dau adeilad mwyaf (Tŷ Hywel a'r Senedd) â Rhwydwaith Gwres Caerdydd. Bydd hyn yn rhoi cyflenwad lleol, gwydn o ynni carbon isel inni ac yn helpu i leihau ein hôl troed carbon ymhellach.

## Gwastraff, dŵr ac adnoddau eraill

Mae’r gwastraff a gynhyrchir wedi gostwng eleni - i lawr i'r tunelli cyffredinol yr oeddem yn eu gweld ddwy flynedd yn ôl. Anfonwyd yr holl wastraff i'w ailgylchu neu i adfer ynni, ac nid i safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, rydym wedi cynyddu'r ganran sy'n cael ei hailgylchu. Gwelsom hefyd gynnydd yn y gwastraff bwyd sy'n cael ei gompostio - yn bennaf oherwydd mwy o weithgarwch ar yr ystad, drwy fwy o ddefnydd o'r ffreutur a'r galw am arlwyo ar gyfer digwyddiadau.

Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn adolygu eto yr ymwybyddiaeth o finiau ailgylchu o amgylch ein hadeiladau a’u hargaeledd, ac yn annog yr Aelodau, staff ac ymwelwyr i ailgylchu cymaint â phosibl.

Mae'r defnydd o ddŵr wedi cynyddu ychydig, tua 12%, ac unwaith eto mae hyn mewn ymateb i weithgarwch cynyddol ar yr ystad dros y flwyddyn ddiwethaf i raddau helaeth. Fodd bynnag, mae costau dŵr wedi codi'n sylweddol; cynnydd o 30% ar gyfer taliadau cyflenwi a charthffosiaeth dros y 12 mis diwethaf. Mae hwn yn gynnydd pris uniongyrchol gan ein cyflenwr ac mae'n arwydd bras o gynnydd ar draws y sector. Gan mai dim ond un cyflenwr sydd ar gael ym mhob ardal, ni allwn ond targedu arbedion effeithlonrwydd i leihau ein gwariant yma.

Mae’r Comisiwn yn parhau i gaffael nwyddau fel deunydd ysgrifennu yn ogystal â chyfleustodau drwy fframweithiau Llywodraeth Cymru a gydgysylltir yn ganolog. Mae staff cynaliadwyedd yn ymwneud â’r gwaith o ddatblygu

manylebau ac adolygiadau tendro ar gyfer pob contract mawr, gan sicrhau bod safonau fel Masnach Deg a'r Cyngor Stiwardiaeth Coedwigoedd (FSC) yn cael eu pennu lle y bo'n berthnasol. At hynny, rydym wedi parhau i ofyn i gyflenwyr newydd gyfrifo ôl troed carbon nwyddau lle bo modd, er mwyn ein helpu i gyfrifo ein hôl troed ein hunain yn fwy manwl gywir.

## Teithio

Ar ôl cynnydd mewn allyriadau teithio y llynedd, yn enwedig cynnydd mewn teithio awyr, rydym wedi gweld gostyngiad bach eleni. Mae costau teithio a hawliadau cyffredinol yn uwch nag mewn rhai blynyddoedd, fodd bynnag; patrwm a welwyd yn flaenorol yn y flwyddyn cyn etholiad. Mae'r Comisiwn yn parhau i hyrwyddo'r hierarchaeth deithio[5] i staff a'r Aelodau, a bydd yn ymchwilio i fesurau mwy gweithredol i leihau allyriadau yn y Senedd newydd.

Mae cerbydau trydan yn ddull trafnidiaeth carbon isel, ac rydym yn parhau i'w gefnogi, gan weithredu cerbyd trydan at ddefnydd pawb ar gyfer teithiau busnes a gweithgareddau ymgysylltu. Mae hyn nid yn unig yn lleihau allyriadau yn yr ardaloedd yr ydym yn ymweld â hwy, ond hefyd yn hyrwyddo'r dechnoleg hon. Mae pwyntiau gwefru ar yr ystad ar gyfer gyrwyr cerbydau trydan, sydd bellach yn llawn ar ddiwrnodau busnes. Mae cynllun aberthu cyflog hefyd ar waith ar gyfer cerbydau trydan, yn enwedig i hyrwyddo teithio allyriadau isel i'r rhai sy'n gorfod gyrru i'r gwaith, gan gynnwys teithio yr Aelodau o amgylch eu hetholaethau.

Mae systemau TG ar waith i barhau i gefnogi gweithio hybrid, o ystafelloedd cyfarfodydd hybrid i dechnoleg cyfarfodydd rhithwir sy'n gwella'n barhaus.

Mae'r Comisiwn yn parhau i fod yn aelod o grŵp y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer teithio llesol, gan gyflawni marc siarter y Cyflogwr Teithio Iach, sy'n adlewyrchu'r cyfleusterau a ddarperir i'r rhai sy'n cerdded ac yn beicio i'r gwaith, yn ogystal ag i yrwyr cerbydau trydan a defnyddwyr beiciau trydan.

## Bioamrywiaeth

Gyda'n hystad fach drefol, rydym wedi ein cyfyngu gan yr effaith y gallwn ei chael ar fioamrywiaeth ehangach yr ardal, ond nid yw hyn wedi ein hatal rhag gwneud gwelliannau lle bynnag y bo modd. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau

[5] Mae'r hierarchaeth deithio yn offeryn sy'n cynorthwyo wrth ystyried yr opsiynau sydd â'r effaith leiaf ar gyfer teithiau.

ffisegol o amgylch yr adeiladau ac wrth gaffael; gwneud penderfyniadau cyfrifol ynghylch cyrchu deunyddiau crai - gan nodi opsiynau fel pren FSC.

Rydym yn parhau i hyrwyddo amrywiaeth cynefinoedd i annog bioamrywiaeth ar ein hystad. Mae'r stribed gardd yn ffynnu ac yn llawn planhigion sy'n ystyriol o beillwyr, ynghyd â phwll bach a choed ffrwythau sy'n blodeuo ar hyn o bryd. Mae parhau â'r gyfundrefn dorri gyfyngedig ar y tir ochr yn ochr â'r Senedd wedi caniatáu iddo gynhyrchu ystod eang o fflora, gan gynnwys dau fath o degeirianau. Mae'r ardal hon bellach yn denu amrywiaeth o bryfed, gan gynnwys pryfed mursen a gloÿnnod byw.

Mae gan ardal y gwestai pryfed foncyffion coed Nadolig gwerth sawl blwyddyn mewn gwahanol gyflyrau o bydredd, gyda thyllau ychwanegol wedi'u drilio i mewn i gynnal pryfed sy'n nythu. Mae'r gwestai bach eu hunain, wedi'u lleoli ar y wal sy'n wynebu'r de uwchben y pentwr o foncyffion, yn boblogaidd iawn gyda gwenyn unigol ac yn ddiddorol i'w gwylio!

Ar ôl blwyddyn anodd i wenyn y Pierhead yn 2024, cawsom ein calonogi i weld cronfeydd mêl llawer uwch tua diwedd yr haf yn 2025. Roedd tywydd ac amodau tyfu mwy ffafriol wedi golygu bod stociau'n uwch yn ein dau gwch gwenyn, ac roeddem yn gallu cymryd cnwd o fêl am y tro cyntaf ers cwpl o flynyddoedd.  Mae gwerthiant y mêl yn cynhyrchu swm bach o arian parod, y gellir ei roi yn ôl i'r prosiect i sicrhau ei gynaliadwyedd.

Yn unol â’r gofynion adrodd ar fioamrywiaeth ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru, rydym yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am y pwnc hwn yn ein prif **Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd**.

## Effeithiau Eraill

Er bod cylch dylanwad ein Haelodau yn cynnwys agweddau amrywiol ar fywyd yng Nghymru, mae gweithrediadau Comisiwn y Senedd yn gymharol gyfyngedig i'n hadeiladau ym Mae Caerdydd a swyddfa fach yng ngogledd Cymru. Nid yw’r safleoedd hyn yn cael eu hystyried mewn perygl uniongyrchol oherwydd effeithiau newid hinsawdd, gyda Bae Caerdydd yn cael ei warchod i ryw raddau gan Forglawdd Bae Caerdydd. Serch hynny, mae ein Strategaeth Carbon Niwtral yn ymgorffori mesurau fel systemau ffotofoltäig solar i ddarparu diogelwch ychwanegol yn erbyn ansicrwydd yn y dyfodol, mesur i'w fabwysiadu fel rhan o brosiect Bae 32.

Ein prosiect cyfalaf mwyaf oedd ehangu Siambr y Senedd i ddarparu lle i'r Senedd mwy o faint. Roedd dyluniad gwreiddiol yr adeilad yn glynu wrth feini

prawf Rhagorol BREEAM ar gyfer ei nodweddion amgylcheddol, ac roedd hyn yn rhywbeth yr oeddem yn ceisio ei barhau ym mhrosiect y Siambr. Cafodd y desgiau derw Cymreig gwreiddiol eu tynnu a'u hailadeiladu, gyda 70% o'r pren yn cael ei achub i greu'r desgiau newydd. Gwnaethom hefyd ddefnyddio contractwyr lleol; y prif un wedi'i leoli yn Aberhonddu. Mae'r goleuadau newydd yn y Siambr i gyd yn oleuadau LED, ac uwchraddiwyd y systemau gwresogi ac oeri i ddarparu gwydnwch yn y dyfodol mewn hinsawdd sy'n newid.

Yn ein hadroddiad blaenorol, trafodwyd y broses o ailosod y system rheoli adeiladau yn adeilad y Senedd dros gydol ei hoes. Mae'r gwaith hwn bron wedi'i gwblhau bellach a bydd yn caniatáu inni gael mynediad at ddata monitro gwell a gwella effeithlonrwydd ynni yn haws mewn adeilad sydd, eleni, yn dathlu ei 20fed flwyddyn.

Rydym yn parhau i weithredu system o Asesiad o’r Effaith ar Gynaliadwyedd ar gyfer prosiectau a chontractau newydd, ac wedi bod yn gweithio i ddylunio hyfforddiant Llythrennedd Carbon i staff. Bydd hyn yn helpu i ymgorffori ymwybyddiaeth o garbon mewn prosesau gwneud penderfyniadau allweddol, yn enwedig o ran caffael.

| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** [6, 7, 8] | | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol ($tCO_2e$) | Cyfanswm yr allyriadau gros - cwmpas 1 | 252 | 211 | 182 | 210 | 163 |
| | Cyfanswm yr allyriadau gros - cwmpas 2 | 465 | 431 | 435 | 420 | 370 |
| | Cyfanswm yr allyriadau gros - cwmpas 3 | 144 | 217 | 235 | 261 | 225 |

[6] Mae'r holl ddata ynni bellach yn cynnwys allyriadau trawsyrru a dosbarthu presennol ac ôl-weithredol ac allyriadau ffynnon-i'r-tanc lle bo hynny'n berthnasol.
[7] Mae’r holl ddata teithio bellach yn cynnwys allyriadau presennol ac ôl-weithredol ffynnon i’r tanc ar gyfer defnyddio tanwydd.
[8] Eithriwyd teithio Aelodau o’r Senedd a’r Staff Cymorth rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2026 oherwydd oedi wrth adrodd. Addaswyd blynyddoedd blaenorol wrth i hawliadau terfynol ar gyfer y blynyddoedd hynny gael eu prosesu.

| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr** [6, 7, 8] | | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm yr allyriadau y tu hwnt i'r cwmpas | 4.3 | 4.1 | 5.6 | 5.9 | 5.6 |
| | Cyfanswm yr allyriadau gros | 865 | 863 | 857 | 898 | 763 |
| | Cyfanswm yr allyriadau net | 861 | 859 | 851 | 891 | 757 |
| Gwariant ar wrthbwysiadau ardystiedig (e.e. Cronfa Gwrthbwyso Carbon y Llywodraeth) | | £0 | £0 | £0 | £0 | £0 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant gros yng nghyswllt yr Ymrwymiad i Leihau Allyriadau Carbon | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol | Amherth-nasol |

| **Y defnydd o ynni** [5] | | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (kwh) | Trydan (tariff adnewyddadwy o 2018) | 2,179,254 | 2,209,985 | 2,109,437 | 2,029,970 | 2,084,693 |
| | Nwy | 1,352,857 | 1,083,181 | 1,020,916 | 1,149,889 | 890,719 |
| | Biomas (adnewyddadwy) | 275,885 | 391,500 | 522,000 | 548,100 | 522,000 |
| | Galw am wres cyfun | 1,628,742 | 1,474,681 | 1,542,916 | 1,697,989 | 1,425,000 |
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol ($tCO_2e$) | Cyfanswm yr allyriadau ynni | 800 | 701 | 686 | 634 | 697 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Cyfanswm y gwariant ar ynni | 424,857 | 437,974 | 1,195,034 | 935,669 | 676,717 |

| Y defnydd o ddŵr | | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (m3) | *Y dŵr a gyflenwyd (uniongyrchol)* | *2,326* | *4,408* | *4,227* | *3,759* | *4,198* |
| | *Y dŵr a gasglwyd (anuniongyrchol)* | *231* | *469* | *761* | *514* | *629* |
| | *Tynnu dŵr (anuniongyrchol)* | *0* | *0* | *0* | *0* | *0* |
| Dangosyddion ariannol (£) | *Gwariant ar gyflenwad a charthffosiaeth* | *11,387* | *16,832* | *15,705* | *14,237* | *18,430* |

| Gwastraff | | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (tunelli) | Cyfanswm y gwastraff | 50 | 63 | 63 | 81 | 67 |
| | Ailgylchu / Adfer | 49 | 63 | 62 | 79 | 67 |
| | Adfer ynni | 23 | 27 | 21 | 31 | 21 |
| | Tirlenwi | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwastraff wedi'i gompostio | 1.9 | 6.1 | 7.3 | 9 | 9.5 |
| | Gwastraff peryglus | 0.14 | 0.37 | 0.18 | 0.41 | 0.13 |
| | Papur a brynwyd (cyfateb i filiwn o dudalennau A4) | 0.65 | 1.97 | 2.05 | 1.97 | 1.29 |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar waredu gwastraff | 15,206 | 25,199 | 19,961 | 20,539 | 24,163 |

| **Teithio swyddogol[6,7]** | | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion nad ydynt yn ariannol (milltiroedd) | Teithio ar gyfer busnes | *184,005* | *503,784* | *597,583* | *680,395* | *609,527* |
| | Cerbydau y mae'r Senedd yn berchen arnynt, a cherbydau wedi'u llogi | *4,153* | *5,138* | *5,869* | *4,636* | *7,995* |
| Dangosyddion ariannol (£) | Gwariant ar deithio ar fusnes swyddogol | *88,140* | *202,878* | *245,774* | *273,616* | *227,800* |

Mae'r wybodaeth uchod wedi'i datblygu ar gyfer ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn unol â Chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi ynghylch Cyflwyno Adroddiadau ar Gynaliadwyedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26. Rydym hefyd yn defnyddio ffactorau trosi DEFRA ar gyfer 2025 ar gyfer ffigurau cyfwerth carbon deuocsid ($CO_2$e). Mae $CO_2$e yn uned fesur gyffredinol sy'n ei gwneud yn bosibl cymharu potensial cynhesu byd-eang nwyon tŷ gwydr gwahanol.

Caiff allyriadau eu nodi ar sail rheolaeth ariannol ac maent yn berthnasol i’r ystad weinyddol graidd yn unig.

Mae crynodeb llawn o’n perfformiad amgylcheddol ar gael yn Adroddiad Blynyddol Cynaliadwyedd y Senedd, sydd ar gael ar ein gwefan.

**Manon Bonner**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 13 Gorffennaf 2026**

**Cofio Srebrenica**

Mae'r Senedd yn cynnal llawer o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.



# Atebolrwydd



# Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r adroddiad hwn, sydd wedi'i lofnodi gan y Prif Weithredwr a Chlerc a hynny fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn unol â rheolau'r Trysorlys, yn cynnwys gwybodaeth am gydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a'r drefn archwilio.

## Adroddiad y Cyfarwyddwyr

### Y Comisiynwyr a deiliaid swyddi eraill

Mae gwybodaeth am y Llywydd a'r Comisiynwyr i'w chael ar dudalennau 15-16.

### Cynghorwyr Annibynnol

Mae gwybodaeth am y Cynghorwyr Annibynnol ac aelodau Pwyllgorau Annibynnol i'w chael ar dudalennau 18-19.

### Yr uwch-reolwyr

Mae gwybodaeth am gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Chlerc a'r uwch-reolwyr o ran cyfarwyddo prif weithgareddau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn i'w chael ar dudalennau 20-21.

### Buddiannau sylweddol sydd gan yr Aelodau

Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales**.

### Digwyddiadau'n ymwneud â data personol

Adroddwyd am 9 achos o dorri diogelwch data yn fewnol rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026. Ymchwiliwyd i bob achos, a chymerwyd camau unioni. Dysgwyd gwersi a chymerwyd camau i leihau'r risg o ailadrodd. Nid oedd yr un o'r achosion hyn yn cyrraedd y trothwy ar gyfer rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Colledion a thaliadau arbennig

Nid oedd unrhyw golledion na thaliadau arbennig yn ystod y flwyddyn.

## Amrywiaeth, Cynhwysiant ac Ymgysylltu â Staff

Gellir gweld gwybodaeth am bolisïau a gweithgareddau'r Comisiwn o ran amrywiaeth, cynhwysiant ac ymgysylltu â staff yn yr Adroddiad Taliadau (tudalennau 132-151).

## Archwilydd

Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n archwilio cyfrifon Comisiwn y Senedd. Mae'r Adroddiad Archwilio ar dudalen 159. Amcangyfrifir mai £73,594 (2024-25, £69,737) yw cost archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol. Ni chynhaliwyd unrhyw waith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2025-26 (2024-25, dim).

## Datgelu gwybodaeth i Archwilydd Cyffredinol Cymru

Cyn belled ag y gwn:

- nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilydd yn ymwybodol ohoni; ac
- rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i gadarnhau bod ein harchwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Y Cyfarwyddyd o ran Cyfrifon

Paratowyd y cyfrifon a geir yn nhudalennau 167-174 yn unol â Chyfarwyddyd y Trysorlys a ddyroddwyd o dan adran 137 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae'r datganiadau ariannol yn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi a cheir nodiadau esboniadol i gyd-fynd â hwy. Mae'r cyfrifon hyn yn nodi effaith ariannol penderfyniadau'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r blynyddoedd ariannol blaenorol.

Mae gwybodaeth am y Senedd a'r Comisiwn hefyd ar gael ar wefan y Senedd: **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales**.

**Manon Bonner**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 13 Gorffennaf 2026**

# Datganiad o gyfrifoldebau'r Comisiwn a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu

## Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, yn rhinwedd adran 138 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn.

Mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi paratoi'r datganiad o gyfrifon yn unol â Chyfarwyddyd a ddyroddir gan Drysorlys Ei Fawrhydi a'r egwyddorion cyfrifyddu a'r gofynion datgelu sydd wedi'u nodi yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Paratoir y Cyfrifon Adnoddau ar sail cyfrifyddu croniadau. Maent yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Comisiwn ar ddiwedd y flwyddyn ac alldro ei adnoddau net; yr adnoddau a ddyrannwyd i gyflawni amcanion; datganiad o'r gwariant net cynhwysfawr; datganiad o'r sefyllfa ariannol; llif arian, a datganiad o'r newidiadau i ecwiti trethdalwyr yn ystod y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd wedi:

- cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys Ei Fawrhydi o ran cyfrifon;
- cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu gwybodaeth, ac wedi bod yn gyson o ran gweithredu polisïau cyfrifyddu priodol;
- gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon rhesymol a gofalus;
- nodi a yw'r safonau cyfrifyddu priodol wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw eithriadau a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a'i bod wedi cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen er mwyn pennu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y Prif Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros gywirdeb a rheoleidd-dra cyllid y Comisiwn a thros gadw cofnodion priodol, wedi'u nodi mewn Memorandwm a ddyroddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi.

**Manon Bonner**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 13 Gorffennaf 2026**

# Datganiad Llywodraethu

Mae’r datganiad hwn, sydd wedi’i lofnodi gan Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu, yn nodi sut y caiff y Comisiwn ei lywodraethu a’i reoli, a sut y mae’n atebol am yr hyn y mae’n ei wneud. Mae'n amlinellu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu'r Comisiwn o ran cyflawni ei nodau strategol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

## Y fframwaith llywodraethu

O dan delerau Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae’r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau, gan gynnwys ei gyfrifoldeb am reoli staff, i'r Prif Weithredwr a Chlerc, yn amodol ar rai eithriadau ac amodau. Ymhlith y swyddogaethau a ddirprwyir mae’r trefniadau llywodraethu i alluogi’r Comisiwn i weithredu’n effeithiol er mwyn cyflawni ei nodau a’i flaenoriaethau strategol.

Mae’r fframwaith llywodraethu’n cynnwys y strwythurau, y systemau, y prosesau, a’r diwylliant a’r gwerthoedd sy’n cyfarwyddo ac yn rheoli’r Comisiwn. Mae’n diffinio perthnasoedd, atebolrwydd a chyfrifoldebau ymhlith y rhai sy’n gweithio yn y sefydliad a chydag ef, yn pennu’r rheolau a’r gweithdrefnau a ddefnyddir i osod nodau, blaenoriaethau ac amcanion y Comisiwn, ac yn darparu’r modd o’u cyflawni ac o fonitro perfformiad. Mae’r fframwaith yn ymdrin â meysydd fel: egwyddorion llywodraethu; cynllunio strategol a gweithredol; rheoli risg a pherfformiad; llywodraethu gwybodaeth; rheolau a gweithdrefnau caffael; rheolaeth ariannol; archwilio; a sicrwydd. Mae gennym bolisïau a chodau ymddygiad corfforaethol sy’n sicrhau bod pawb sy’n gweithio yn y Comisiwn, neu gyda’r Comisiwn, yn ymwybodol o’r angen i weithredu yn unol â’r safonau uchaf o ran llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys polisïau ar urddas a pharch, twyll, llygredigaeth a llwgrwobrwyo, a chwythu'r chwiban.

## Cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu set o egwyddorion llywodraethu a darpariaethau ategol,[9] sy'n gyson â'r egwyddorion a nodir yng nghod arfer da Trysorlys EF ar lywodraethu corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog, a Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU a gyhoeddir gan y Cyngor Adrodd Ariannol. Cyfrannodd dadansoddiad manwl o gydymffurfedd â'r darpariaethau ategol, a gynhaliwyd fel rhan o'r broses casglu sicrwydd, at adolygiad o'r rhain yn ystod y flwyddyn, a bydd y fersiwn ddiweddaraf yn cael ei chyflwyno i'r Comisiwn newydd ar ôl etholiadau'r Senedd

Mae egwyddorion arweinyddiaeth, effeithiolrwydd, atebolrwydd a chynaliadwyedd yn ganolog i'n dulliau gweithredu, fel y dangosir drwy gydol y datganiad hwn. Mae adran Sicrwydd y datganiad hwn yn disgrifio sut y casglwyd tystiolaeth o gydymffurfio â'n fframwaith llywodraethu a'n hamgylchedd rheolaeth fewnol, ynghyd â'u heffeithiolrwydd, drwy Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys asesiadau sicrwydd manwl ar lefel gwasanaethau ac ar lefel gorfforaethol.

## Strwythur llywodraethu

### Y Comisiwn

Y Comisiwn yw'r corff corfforedig sy'n gyfrifol am sicrhau bod eiddo, staff a gwasanaethau'n cael eu darparu er mwyn i'r Senedd weithredu'n effeithiol. Mae'n cynnwys y Llywydd, sy'n Gadeirydd arno, ynghyd â phedwar Comisiynydd. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y Llywydd a'r Comisiynwyr yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon (yr Adroddiad Blynyddol).

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd yw Prif Swyddog Cyfrifyddu'r Comisiwn. Mae'n atebol i'r Comisiynwyr am gyflawni eu nodau a'u blaenoriaethau strategol, ac mae'n atebol yn bersonol i'r Senedd am drefn ac ansawdd gwaith rheoli'r Comisiwn, gan gynnwys y ffordd y mae'n defnyddio arian cyhoeddus a sut y mae'n gwarchod ei asedau. Mae staff y Senedd yn gyflogeion i'r Comisiwn.

### Pwyllgorau'r Comisiwn

Fel rhan o'r fframwaith llywodraethu, mae gan y Comisiwn Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Phwyllgor Taliadau. Rhoddir manylion eu haelodaeth yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol. Cyrff cynghori annibynnol yw'r rhain, heb

[9] https://senedd.cymru/comisiwn/egwyddorion-llywodraethu-a-darpariaethau-ategol/

unrhyw bwerau gweithredol, ac maent yn llunio eu Hadroddiadau Blynyddol eu hunain.

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a roddir ac a yw'n diwallu anghenion y Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu. Mae'n canolbwyntio ar: adroddiadau archwilio mewnol ac allanol, gan gynnwys rhoi argymhellion ar waith; Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn; adroddiadau ar reoli risg, rheolaeth ariannol a phrosiectau mawr; a threfniadau llywodraethu a rheolaeth fewnol. Mae'r Comisiwn yn dilyn Llawlyfr Trysorlys EF ar Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg o ran cyfansoddiad a gweithrediad y Pwyllgor. Ceir rhagor o fanylion am waith y Pwyllgor drwy gydol y datganiad hwn, yn ei Adroddiad Blynyddol ac ar ei dudalennau ar y rhyngrwyd.[10]

Mae’r Pwyllgor Taliadau yn gwneud argymhellion ar faterion ynghylch taliadau a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr a Chlerc a swyddi uwch eraill. Mae hyn yn cynorthwyo’r Comisiwn i sicrhau bod trefniadau tâl yn cyrraedd y safonau uchaf o ran uniondeb ac atebolrwydd wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Mae pob aelod yn annibynnol ar y Comisiwn, ac nid oes ganddynt fuddiannau personol na buddiannau busnes yn swyddogaethau'r Pwyllgor. Yn ystod 2025–26, rhoddodd gyngor annibynnol ar gyflog a pherfformiad uwch reolwyr, a datblygiad cyflog, wedi'i lywio gan adolygiad o asesiadau perfformiad.

Cyfrannodd dau aelod o’r Pwyllgor hefyd at faterion ehangach yn ymwneud â'r gweithlu, gan eu bod yn aelod o grwpiau llywio, gan herio a goruchwylio cynllunio'r gweithlu, recriwtio, datblygu gallu ac amrywiaeth a chynhwysiant, gan gefnogi parodrwydd sefydliadol ar gyfer y Seithfed Senedd.

## Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes

Mae'r Comisiwn yn cyfarfod yn rheolaidd i roi arweiniad ac i oruchwylio'r modd y cyflawnir nodau, blaenoriaethau, ac amcanion strategol y Comisiwn.

Mae'r Comisiwn yn dirprwyo ei swyddogaethau rheoli o ddydd i ddydd i'r Prif Weithredwr a Chlerc. Mae'r ddirprwyaeth ffurfiol[11] yn amlinellu eithriadau a meysydd y mae rhaid i'r Prif Weithredwr a Chlerc ymgynghori â'r Comisiwn yn eu cylch. Mae system o awdurdod dirprwyedig hefyd i Gyfarwyddwyr a

[10] https://senedd.cymru/comisiwn/pwyllgor-archwilio-a-sicrwydd-risg-comisiwn-y-senedd/
[11] https://senedd.cymru/comisiwn/dirprwyo-swyddogaethau-comisiwn-y-senedd/

Phenaethiaid Gwasanaeth sy'n cwmpasu cyllid, staffio a chyfrifoldebau eraill sy’n ymwneud ag adnoddau, megis caffael.

Mae gweinyddiaeth y Comisiwn wedi'i rhannu'n dair cyfarwyddiaeth: Busnes; Adnoddau; a Chyfathrebu ac Ymgysylltu. Mae Cyfarwyddwr pob un yn atebol i'r Prif Weithredwr a Chlerc. Y Cyfarwyddwr Adnoddau yw rheolwr llinell y Prif Swyddog Cyllid gyda llinell adrodd uniongyrchol i'r Swyddog Cyfrifyddu, ac mae'n aelod o'r Bwrdd Gweithredol (y Prif Swyddog Cyllid hefyd yw’r uwch-noddwr ar gyfer archwilio mewnol sy'n gweithredu ar sail model contract allanol). Mae'r cyfarwyddiaethau wedi'u hisrannu’n feysydd gwasanaeth, sy'n cael eu harwain gan y Penaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y strwythur llywodraethu, gan gynnwys siart strwythur, yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol.

Bwrdd Gweithredol y Comisiwn, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr a Chlerc, yw'r corff sy’n gwneud penderfyniadau strategol ar gyfer pob mater a ddirprwyir gan y Comisiwn. Cefnogir hyn gan y Tîm Arwain, sy'n cynnwys aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a’r holl Benaethiaid Gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion am y Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Arwain yn adran Trosolwg yr Adroddiad Blynyddol.

Bwrdd Newid Senedd 26, dan gadeiryddiaeth y Prif Weithredwr a Chlerc, sydd â’r awdurdod i wneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â phontio i'r Seithfed Senedd. Yn ystod y flwyddyn, diwygiwyd Cylch Gorchwyl y Bwrdd i ddarparu ar gyfer newidiadau yn nhrefniadau gweithredu'r Seithfed Senedd, a thrwy hynny wella’r awdurdod i wneud penderfyniadau ac egluro’r llinellau atebolrwydd. O dan y trefniadau hyn, mae'r tri Chyfarwyddwr, sy'n adrodd i Fwrdd Newid Senedd 26, wedi'u dynodi'n Uwch-berchnogion Cyfrifol ar gyfer ffrydiau gwaith cyfatebol sy'n gysylltiedig â phontio i’r Seithfed Senedd, gyda’r Bwrdd Newid yn llywodraethu ac yn darparu goruchwyliaeth strategol. Adolygir cynnydd misol drwy ddangosfyrddau “adolygu parodrwydd” a gyflwynir i’r Bwrdd. At hynny, cyflwynir diweddariadau rheolaidd fel mater o drefn i'r Bwrdd Gweithredol ac i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn ar risgiau sydd wedi’u huwchgyfeirio i'r lefel gorfforaethol ar gyfer y ffrydiau gwaith hyn.

Ceir rhagor o fanylion am y gwaith y mae’r Bwrdd Newid a’r ffrydiau gwaith cysylltiedig yn ei wneud yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol.

# Cynllunio a mesur perfformiad

## Cynllunio

Nodwyd nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn ar gyfer y Chweched Senedd, a amlinellir yn adran Datganiad o Ddiben yr Adroddiad Blynyddol, yn Strategaeth y Comisiwn yn 2021. Maent wedi rhoi arweiniad ac wedi llywio gwaith cynllunio ar lefel gorfforaethol a gweithredol. Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Corfforaethol a'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig, cynlluniau a strategaethau ategol, a chynlluniau gwasanaeth.

Mae'r Cynllun Corfforaethol, a ddatblygwyd ar y cyd â Thîm Arwain y Comisiwn ac a gymeradwywyd gan y Bwrdd Gweithredol, yn troi Strategaeth y Comisiwn yn amcanion a blaenoriaethau gweithredol clir sy'n sylfaen i Gynlluniau Gwasanaeth blynyddol. Bydd yn cael ei ddiweddaru ar gyfer y Seithfed Senedd.

Mae'r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (y Fframwaith), sy'n cynnwys Cynllun Gweithlu, yn nodi gorwel ariannol y Comisiwn dros gyfnod treigl o dair blynedd, i gynorthwyo ac i lywio dyraniadau adnoddau'r Comisiwn dros amser, gan gyfeirio'n benodol at gyllidebau blynyddol a gwaith cynllunio'r gweithlu. Y Fframwaith hefyd sy'n rhoi cyd-destun i benderfyniadau'r Comisiwn i geisio adnoddau o Grant Bloc Cymru ac mae'n sicrhau bod yr anghenion o ran adnoddau'n cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael dros amser.

Bob blwyddyn, mae Cynlluniau Gwasanaeth yn ystyried y Cynllun Corfforaethol a strategaethau eraill y Comisiwn ac yn llywio gwaith i ddiweddaru'r Fframwaith. Mae hyn yn ein helpu i asesu a nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r busnes craidd, ochr yn ochr â pharatoadau ar gyfer y Seithfed Senedd, ac yn sicrhau bod gweithgarwch ac adnoddau'n cyd-fynd â Strategaeth y Comisiwn a'i Gynllun Corfforaethol.

## Mesur perfomiad

Nodir Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Comisiwn yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol. Cânt eu monitro yn ystod y flwyddyn ar lefel gwasanaethau ac ar lefel gorfforaethol, a ddwywaith y flwyddyn gan y Comisiwn. Mae'r data ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu creu'n fewnol gan y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, ac eithrio targed ymestynnol Gwariant Cymru lle mae'r data, oherwydd eu bod mor gymhleth, yn cael eu cynhyrchu gan ymgynghorydd trydydd parti.

O ran mesur perfformiad blaenoriaethau strategol allweddol, mae’r Comisiwn wedi parhau i wneud cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol a Strategaeth Newid Senedd 26, a chaiff perfformiad yn unol â Strategaeth Newid Senedd 26 ei fonitro drwy Adolygiadau Parodrwydd Etholiadol a gynhelir yn fisol gan y Bwrdd Newid.

## Effeithiolrwydd y Comisiwn

Mae manylion am sut mae perfformiad y Comisiwn fel sefydliad yn cael ei fesur yn erbyn ei nodau a'i flaenoriaethau strategol wedi'u nodi yn yr adran *mesur perfformiad* uchod.

O ran effeithiolrwydd y Comisiwn fel bwrdd llywodraethu'r Senedd, caiff hyn ei werthuso drwy adrodd blynyddol, dangosyddion perfformiad allweddol a phrosesau casglu sicrwydd. Mae'r gwerthusiad hwn wedi’i ddylanwadu gan ofynion strwythur penodol y Comisiwn, gyda'r Llywydd yn Gadeirydd a phedwar Aelod etholedig o'r Senedd yn Gomisiynwyr, pob un â statws cyfartal a chyfrifoldeb ar y cyd am benderfyniadau. Mae gan y Llywydd rôl bwysig wrth feithrin consensws wrth alluogi trafodaeth agored ac adeiladol rhwng Comisiynwyr o wahanol grwpiau gwleidyddol. Mae’r Comisiwn hefyd wedi cynnal ymarfer myfyrio mwy penodol ar ei effeithiolrwydd fel bwrdd yn ystod y Chweched Senedd, a helpodd i lywio ei ddatblygiad parhaus.

Mae'r dull hwn yn ymestyn i'r trefniadau cynghori a sicrwydd sy'n helpu’r Comisiwn i wneud penderfyniadau. Y Comisiwn ei hun, yn hytrach na’r rheolwyr, sy’n gyfrifol am benodi cynghorwyr annibynnol anweithredol. Mae hyn yn sicrhau ystyriaeth uniongyrchol o'r gallu, yr annibyniaeth a'r arbenigedd sydd eu hangen i ddarparu persbectif allanol a her adeiladol, gan gynnwys drwy'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau. Drwy gadw cyfrifoldeb am y penodiadau hynny, a thrwy drafodaeth uniongyrchol â Chadeiryddion y Pwyllgorau, mae'r Comisiwn hefyd yn cymryd cyfrifoldeb uniongyrchol am y sicrwydd a'r her y mae'n dibynnu arnynt.

At ei gilydd, gwerthusiad y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn oedd bod ei ddull o gyflawni ei gyfrifoldebau, gyda chefnogaeth trefniadau llywodraethu a

sicrwydd, yn parhau i alluogi cyflawniad, atebolrwydd a her effeithiol wrth geisio cyflawni ei nodau strategol.

### Ansawdd data

Nid oes unrhyw bryderon na phroblemau hysbys o ran ansawdd y data, ond mae ansawdd data’r Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'i gynnwys yn y rhaglen archwilio mewnol dros y tair blynedd nesaf.

Yn fwy cyffredinol, nodir sawl enghraifft isod i ddangos ansawdd y data a dderbyniwyd gan y Comisiwn a pham mae'r Comisiwn yn ei ystyried yn dderbyniol. Lle bo angen, caiff data o ansawdd uchel ei gaffael neu ei sicrhau i lywio penderfyniadau allweddol:

- Prosiect llety Bae 32. Defnyddiodd y prosiect hwn arbenigedd cynghorwyr proffesiynol i lunio a dadansoddi data cost a budd er mwyn sicrhau bod yr achos busnes amlinellol a ystyriwyd gan y Comisiwn ym mis Rhagfyr 2025 yn cynnwys data o ansawdd uchel, wedi'i feincnodi.
- Astudiaeth ddichonoldeb darpariaeth gofal plant. Yn yr achos hwn, comisiynwyd ymgynghorydd arbenigol annibynnol o'r trydydd sector i gynnal astudiaeth ddichonoldeb a ystyriwyd gan y Comisiwn. Cynhaliodd y cynghorydd trydydd sector ymchwil eilaidd a chynradd dull cymysg pwrpasol i lywio casgliadau'r astudiaeth.
- Dyfarniadau cyflog staff. Cesglir data cyflogau a chwyddiant o sector cyhoeddus arall, a ffynonellau swyddogol eraill o ansawdd uchel fel y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, data cyhoeddedig Trysorlys EM, a Banc Lloegr.

## Cynnydd mewn meysydd penodol i ganolbwyntio arnynt yn ystod 2025-26

Yn Natganiad Llywodraethu’r llynedd, gwnaethom gyfeirio at nifer o feysydd penodol i ganolbwyntio arnynt a’u datblygu ar gyfer 2025-26, a manylir ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd hynny o dan yr is-benawdau isod.

### Sicrhau bod strwythurau llywodraethu priodol ar waith i hwyluso gwaith monitro ac adrodd effeithiol ar gyflawni Strategaeth Newid Senedd 26

Nodir manylion y newidiadau a wnaed i strwythurau llywodraethu yn ystod y flwyddyn yn adran *Gwneud penderfyniadau a rheoli busnes* y datganiad hwn.

Mae'r newidiadau hyn, lle mae Bwrdd Newid Senedd 26 yn parhau i fod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau a goruchwylio'r gwaith o gyflawni Strategaeth Newid Senedd 26, wedi mireinio atebolrwydd (drwy benodi 3 Uwch-berchennog Cyfrifol gyda llythyrau cylch gorchwyl cysylltiedig) a goruchwyliaeth ar y gwaith hwn.

### Adolygu portffolio'r Comisiwn o strategaethau i sicrhau eu bod yn cydweddu'n briodol

Roedd yr angen i sicrhau bod ein strategaethau corfforaethol yn cydweddu'n well yn gam gweithredu yn Natganiad Sicrwydd Corfforaethol 2024-25. Mae tudalen wedi'i chreu ar y fewnrwyd i gynnwys lincs i bob strategaeth mewn un lle; bydd y gwaith hwn yn parhau yn 2026-27 wrth i'r Cynllun Corfforaethol gael ei ddiweddaru, fel y nodir uchod.

### Adolygu a diweddaru prosesau rheoli risg, gan gynnwys ymgorffori datganiadau ynghylch parodrwydd i dderbyn risg ac adolygiad sylfaenol o reolaethau

Mae cyfeiriad at barodrwydd i dderbyn risg wedi'i ychwanegu at adroddiadau risg a gyflwynir i'r Bwrdd Gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Cyfeirir at lefelau parodrwydd i dderbyn risg mewn papurau penderfyniadau hefyd ond mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod y rhain yn cael eu defnyddio'n unol â'r bwriad, h.y. i lywio cynigion.

Bydd adolygiad sylfaenol o effeithiolrwydd rheolaethau risg yn cael ei gynnal yn 2026-27. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r ffordd y mae rheolaethau'n cael eu saernïo a'u cofnodi, yn ogystal ag egluro perchnogaeth ac atebolrwydd. Yn y cyfamser, adolygir rheolaethau risg yn ôl yr arfer fel rhan o'r adolygiadau chwarterol o risgiau ar lefel gwasanaethau ac ar lefel gorfforaethol.

### Gwerthuso darpariaeth gwasanaethau archwilio mewnol

Bydd y Comisiwn yn parhau â model lle rhoddir gwasanaethau archwilio mewnol ar gontract allanol. Rhoddir manylion ynghylch hynny yn adran *Sicrwydd Annibynnol* y datganiad hwn. Disgwylir i broses gaffael y contract allanol ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol ddod i ben ym mis Awst 2026.

## Rheolaeth ariannol

Rydym yn gweithio o fewn system o reolaeth gref ac effeithiol i sicrhau uniondeb a defnydd priodol o arian.

Roedd yr Adroddiad Archwilio ar gyfer 2024-25 yn ddiamod, a chraffodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ym mis Tachwedd 2025. Mae'r Comisiwn a Phwyllgor Cyllid y Senedd hefyd yn parhau i'n herio ynghylch lefel adnoddau'r Comisiwn a'r defnydd a wneir ohonynt ac rydym wedi cynnal sesiynau briffio ychwanegol gyda'r Pwyllgor Cyllid er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddo am gynnydd prosiect Bae 32 i sicrhau swyddfeydd i'r Comisiwn pan ddaw'r brydles bresennol ar Dŷ Hywel i ben yn 2032.

Dywedodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus fod:

> "… y Comisiwn yn rheoli nifer o brosiectau mawr ac felly'n rheoli lefel uchel o risg ar draws ei bortffolio o brosiectau a gweithgareddau. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd bod y Comisiwn yn rhoi strwythurau ar waith i reoli'r risgiau hyn. Fodd bynnag, nid oes modd lliniaru'r holl risgiau bob amser."

Cafodd y Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig (y Fframwaith) ei ailwampio ar gyfer y flwyddyn a rhoddodd ddarlun tymor canolig wedi'i ddiweddaru o'r pwysau o ran adnoddau, gan wahaniaethu rhwng cyllidebau sydd o dan reolaeth y Comisiwn, y rhai sydd wedi'u clustnodi ar gyfer darnau penodol o waith a'r rhai y mae'r Comisiwn yn eu gweinyddu ond nad yw o reidrwydd yn dylanwadu arnynt, er enghraifft y gyllideb ar gyfer Penderfyniad y Bwrdd Taliadau Annibynnol. Mae'r Fframwaith yn amlygu'r pwysau o ran costau yn y dyfodol ac yn llywio'r gwaith o lunio cyllidebau.

Cafodd y cyllidebau ar gyfer blaenoriaethau allweddol strategol, sef Ffyrdd o Weithio, Diwygio'r Senedd ac Etholiad 2026, eu clustnodi er mwyn sicrhau tryloywder a rheoli effaith ffactorau anhysbys ar raddfa fawr ym mhob maes, ac yn enwedig felly y rhaglen Ffyrdd o Weithio. Gan ei bod yn cynnwys proses gaffael sylweddol o ran yr ystad (prosiect Bae 32), roedd y rhaglen honno'n sensitif o ran amser ac yn hynod gymhleth.

Er mwyn sicrhau gwerth am arian ar gyfer prosiect Bae 32 (sy'n rhan o'r rhaglen Ffyrdd o Weithio), bu'r prosiect yn destun dau Adolygiad Porth yn ystod y flwyddyn i roi sicrwydd annibynnol ar adegau penderfynu allweddol fod y prosiect yn barod i fynd rhagddo, bod yr achos busnes yn gadarn a bod y risgiau wedi'u deall a'u rheoli cyn gwneud ymrwymiadau ariannol pellach. Disgwylir i'r Comisiwn newydd ystyried Adolygiad Porth arall sydd i'w gynnal yn erbyn yr Achos Busnes Llawn yn hydref 2026.

Mae'r gwaith paratoi ar gyfer y Senedd newydd wedi mynd rhagddo'n dda gyda staff wedi'u recriwtio i nifer o swyddi newydd mewn meysydd lle disgwylir i lwyth y gwaith gynyddu, wrth i fwy o Aelodau olygu mwy o waith – er enghraifft, TGCh a Chymorth Busnes i'r Aelodau. Mae'r broses o recriwtio i swyddi ychwanegol wedi'i rheoli ar lefel strategol gan y Bwrdd Newid, sy'n ystyried y broses recriwtio fesul cyfran. Mae hynny'n caniatáu iddo ystyried y darlun cyfan wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyrannu adnoddau. Cydnabyddir o hyd y bydd unrhyw newidiadau pellach o ran adnoddau yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir yn y Seithfed Senedd. Cwblhawyd y gwaith i ad-drefnu'r Siambr yn ystod y flwyddyn hefyd, a symudodd yr Aelodau yn ôl yno o'r siambr dros dro ar ôl toriad hanner tymor mis Chwefror.

Mae'r Grŵp Rheoli Portffolio (dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Cyllid) yn gwneud argymhellion i'r Bwrdd Gweithredol yn ystod y flwyddyn i flaenoriaethu cyllid o fewn Cronfa Prosiectau'r Comisiwn, gan sicrhau bod digon o hyblygrwydd i ymateb i bwysau sy'n dod i'r amlwg. Mae cyllid yn cael ei ryddhau ar sawl adeg yn ystod y flwyddyn er mwyn i waith ar brosiectau allu mynd rhagddo mewn modd strategol, dan reolaeth, ac er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau o ran blaenoriaethau yn ystod y flwyddyn.

Caiff sefyllfa cyllidebau'r gwasanaethau ei hadolygu bob mis gan y tîm Cyllid, a bob chwarter gyda rheolwyr y cyllidebau, a chyflwynir adroddiad arnynt ym mhob cyfnod i'r Bwrdd Gweithredol.

## Nodi a rheoli risg

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus i nodi, blaenoriaethu a rheoli'n effeithiol y risgiau o ran cyflawni nodau a blaenoriaethau strategol y Comisiwn. O ran rheoli risg, mae'r Comisiwn i raddau helaeth yn dilyn canllawiau Trysorlys EF yn 'The Orange Book: Management of Risk – Principles and Concepts'. Bydd y polisi a'r prosesau'n cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r canllawiau arfer gorau.

Mae risgiau mwyaf arwyddocaol y Comisiwn wedi'u cofnodi mewn Cofrestr Risg Gorfforaethol y mae'r Bwrdd Gweithredol yn berchen ar y cyd arni. Trafodir proffil risg y Comisiwn yn fanwl yn adran rheoli risg yr adroddiad blynyddol. Mae'r risgiau corfforaethol hyn yn cael eu rheoli a'u monitro'n rheolaidd gan y Cyfarwyddwr perthnasol a'i Benaethiaid Gwasanaeth. Caiff y Gofrestr Risg Gorfforaethol ei hadolygu yn ei chyfanrwydd gan y Bwrdd Gweithredol bob chwarter er mwyn sicrhau bod y rheolaethau'n ddigonol a bod cynnydd yn cael

ei wneud ar gamau pellach i wella'r rheolaethau. Mae hyn yn cynnwys edrych tua'r dyfodol am risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg.

O dan hyn, caiff risgiau eu cofnodi, eu rheoli a'u monitro ar lefel gwasanaethau, ac mae Penaethiaid Gwasanaeth yn darparu adroddiadau chwarterol i'w Cyfarwyddwyr yn amlinellu newidiadau a manylion unrhyw risgiau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg. Mae hyn yn rhoi cyfle i Gyfarwyddwyr herio'r risgiau a phenderfynu a ddylid uwchgyfeirio unrhyw rai ohonynt. Mae adolygiad risg chwarterol y Bwrdd Gweithredol yn seiliedig ar yr adroddiadau hyn. Cyflwynir adroddiad ar risgiau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a phrosiectau i'r Bwrdd Gweithredol bob mis.

Cynorthwyir Penaethiaid Gwasanaeth, Cyfarwyddwyr a Rheolwr Risg y Comisiwn gan rwydwaith o Hyrwyddwyr Risg sy'n cyfarfod bob chwarter fel Fforwm Rheoli Risg. Mae cyfarfodydd y Fforwm yn cynnwys trafodaethau ar risgiau trawsbynciol, datblygu polisi a phrosesau, a chanlyniad proses adolygiad gan gymheiriaid a gynhelir bob blwyddyn lle mae'r Hyrwyddwyr Risg yn adolygu risgiau mewn meysydd gwasanaeth eraill.

Mae'r datganiadau ynghylch parodrwydd i dderbyn risg a gymeradwywyd gan y Comisiwn ym mis Ionawr 2025 wedi eu cyhoeddi'n fewnol a'u hymgorffori yn ein dogfennau rheoli risg. Mae swyddogion y Comisiwn yn addasu templedi papurau penderfyniadau i ymgorffori'r datganiadau parodrwydd i dderbyn risg. Bydd hyn yn cael ei fonitro i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio yn unol â'r bwriad, h.y. i lywio cynigion, a rhoddir canllawiau i awduron papurau lle bo angen.

Fel rhan o'n proses casglu sicrwydd i lywio'r datganiad hwn, gwnaethom lunio Map Sicrwydd Rheoli Risg, lle gwnaethom fapio'r rheolaethau ar gyfer ein risgiau corfforaethol a'n risgiau mwyaf arwyddocaol ar draws y tair llinell sicrwydd (yn unol â chanllawiau Trysorlys EF ar Fframweithiau Sicrwydd). Cafodd ei adolygu gan y Cyfarwyddwyr a'r Bwrdd Gweithredol a'i gyflwyno i'r Swyddog Cyfrifyddu. Ceir rhagor o fanylion am y broses hon yn yr adran *Adolygiad o effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu* yn y datganiad hwn.

Mae'r broses fapio hon yn helpu'r Comisiwn i sicrhau bod y cynllun archwilio mewnol wedi'i dargedu'n briodol i gynnwys risgiau sydd wedi cael llai o sicrwydd trydedd llinell/annibynnol. Arweiniodd hyn at gynnwys archwiliadau ar risgiau sy'n ymwneud ag Urddas a Pharch a Diogelu Data yn 2025-26, a chynnig i gynnwys deallusrwydd artiffisial yn rhaglen 2026-27. Tynnodd y broses sylw

hefyd at yr angen i adolygu'r disgrifiad o reolaethau risg a'u heffeithiolrwydd, a bwriedir bwrw ymlaen â hyn yn ystod 2026-27. Bydd adolygiadau archwilio mewnol ar reoli risg yn y dyfodol hefyd yn llywio rhagor o welliannau y bydd angen mynd i'r afael â hwy.

Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Comisiwn wedi cynnal trosolwg o effeithiolrwydd y trefniadau rheoli risg ac wedi croesawu amlygrwydd y risgiau a'r asesu parhaus arnynt, natur ddeinamig y gofrestr risgiau, a'r ffocws ar newid ac ansicrwydd. Mae'n cynnal adolygiadau o risgiau corfforaethol yn ei gyfarfodydd ac yn dewis risgiau penodol i'w hasesu'n fanwl. Yn 2025-26 roedd ymchwil trylwyr yn cynnwys risgiau yn ymwneud â:

- System yr adran Adnoddau Dynol/y Gyflogres
- Diogelu data
- Prosiectau ystadau
- Gallu a chapasiti corfforaethol

Un maes y mae'r Pwyllgor yn parhau i ganolbwyntio arno yw seiberddiogelwch, gan gynnig her annibynnol i'r gwaith a wnawn i ddiogelu'r Senedd rhag seiberymosodiadau ac ymosodiadau atal gwasanaeth. Yn ogystal ag adolygu diweddariadau manwl ar y risgiau gorfforaethol ym mhob cyfarfod, mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried adroddiadau archwilio mewnol blynyddol ar seiberddiogelwch. Mae uwch swyddogion TGCh hefyd yn mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn i roi diweddariadau a sicrwydd pellach, ac i ymateb i waith craffu.

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi rhoi sylw i'n paratoadau ar gyfer Seithfed Senedd fwy o faint. Mae uwch swyddogion yn rhoi diweddariadau corfforaethol ar y paratoadau hynny ym mhob cyfarfod, gan ategu'r wybodaeth fanwl am y risgiau cysylltiedig. Mae dangosfyrddau cynnydd hefyd yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor.

Ceir rhagor o fanylion am ffocws y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ar reoli risg yn ei adroddiad blynyddol.


# Adolygiad o effeithiolrwydd rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu

## Fframwaith sicrwydd

### *Y broses sicrwydd*

Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn yn defnyddio'r model tair llinell sicrwydd sydd wedi'i fabwysiadu'n eang ynghyd â chanllawiau Trysorlys EF i asesu rheolaethau mewnol a threfniadau llywodraethu.

Ar gyfer 2025-26, cwblhaodd pob maes gwasanaeth asesiad sicrwydd ar lefel gwasanaeth ar ffurf holiadur, ac mae'r canlyniadau'n cael eu trin fel ffynhonnell dystiolaeth i lywio un Datganiad Sicrwydd Corfforaethol i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr a'i gyflwyno i'r Swyddog Cyfrifyddu. Nodir yr holl dystiolaeth sy'n llywio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn y diagram isod:




Craffodd Cynghorwyr Annibynnol ar y broses ac awgrymu gwelliannau, megis sicrhau bod lefelau sicrwydd yn cydweddu â pharodrwydd i dderbyn risg. Caiff y broses ei gwerthuso'n rheolaidd i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithiol, fel y tystia'r ffaith bod Datganiad Sicrwydd Corfforaethol a mapiau sicrwydd newydd wedi'u cyflwyno yn 2024-25 a dull newydd o asesu sicrwydd ar lefel gwasanaethau wedi'i gyflwyno yn 2025-26. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi nodi yn ei Adroddiad Blynyddol ei fod o'r farn bod y broses ar gyfer casglu sicrwydd yn gadarn ac yn gymesur.

Mae'r tîm Llywodraethu'n mynychu cyfarfodydd rheoli ac yn darparu hyfforddiant i fynd i'r afael ag unrhyw fylchau, gan sicrhau y cynhelir trefniadau llywodraethu cryf ac y rhoddir sylw i unrhyw wendidau.

### *Canlyniad yr adolygiad o sicrwydd*

Mae'r Datganiad Sicrwydd Corfforaethol, sy'n seiliedig ar y prosesau mapio sicrwydd a ddisgrifir yn adran *y broses sicrwydd*, yn nodi bod lefel 'uchel' o sicrwydd at ei gilydd, gyda'r lefelau thematig yn amrywio o uchel i resymol.

Nid yw lefel resymol o sicrwydd yn awgrymu unrhyw wendid systemig, ond mae'n dangos, yn ei hanfod, fod lle i wella. O ran y meysydd thematig hynny yr aseswyd bod eu lefelau sicrwydd yn rhesymol, nodwyd meysydd i'w gwella a chytunwyd ar gamau gweithredu i fynd i'r afael â hwy. Bydd cynnydd o ran y camau gweithredu hyn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd Gweithredol yn yr hydref ac ar ddiwedd y flwyddyn, a chaiff hynny ei rannu â'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Sicrwydd ynghylch meysydd llywodraethu eraill

Mae'r Comisiwn yn parhau i ddefnyddio codau, fframweithiau, safonau a chanllawiau a gydnabyddir yn rhyngwladol i lywio ein gwaith llywodraethu, rheoli risg, a sicrwydd. Cyfeirir at y rhain yn y rhannau perthnasol o'r datganiad hwn.

Lluniodd y Prif Swyddog Cyllid Adroddiad Blynyddol ar Dwyll a'i gyflwyno, ynghyd â diweddariadau ar y Polisi Twyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo a'r Polisi Chwythu'r Chwiban, i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o dwyll na chwythu'r chwiban yn ystod 2025-26.

Mae'r Comisiwn yn cynnal proses ffurfiol i fonitro cydymffurfedd â rhwymedigaethau cyfreithiol a rheoleiddiol, a chyhoeddir adroddiadau ar hynny ar wefan y Comisiwn. Ymhlith enghreifftiau o hyn mae'r Adroddiad Blynyddol ar Amrywiaeth a Chynhwysiant, Adroddiad Blynyddol y Cynllun Ieithoedd Swyddogol, a'r Adroddiad Amgylcheddol Blynyddol. Mae Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth hefyd yn cael ei lunio a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Sicrwydd Annibynnol

### Archwilio mewnol

Mae’r Comisiwn wedi mabwysiadu model lle rhoddir ei wasanaethau archwilio mewnol ar gontract allanol, a phenodwyd Cyfarwyddwr darparwr trydydd parti’r gwasanaeth archwilio mewnol yn Brif Swyddog Gweithredol Archwilio. Mae’r Prif Swyddog Cyllid, sef yr uwch-noddwr archwilio, yn goruchwylio perfformiad y contract, gan gynnwys datblygu strategaethau archwilio mewnol a chynlluniau blynyddol, gan sicrhau bod archwiliadau'n cael eu targedu mewn modd amserol a pherthnasol yn unol â rhaglenni gwaith a risgiau. Bernir bod y system sydd ar waith yn cydymffurfio â safon swyddogaethol Llywodraeth y DU ar gyfer archwilio mewnol.

Cynhaliodd y gwasanaeth Archwilio Mewnol raglen o 11 o archwiliadau mewnol dros 90 diwrnod yn ystod 2025-26. Roedd y rhaglen hon yn cynnwys archwiliadau o reoliadau ariannol, hawliadau treuliau’r Aelodau a threfniadau llywodraethu gwybodaeth.

Mae adroddiadau archwilio mewnol yn parhau i nodi nifer bach o feysydd lle gellir cyflwyno gwelliannau i’r amgylchedd rheoli, ac maent yn tynnu sylw at feysydd lle mae’r Comisiwn yn dilyn arfer da o ran y systemau a'r rheolaethau sydd ar waith. Lle caiff gwendidau neu faterion eu nodi, mae'r rheolwyr yn parhau i gymryd camau cadarnhaol i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio ac maent wedi cynyddu’r adnoddau sydd ar gael ar gyfer olrhain argymhellion archwilio. Ni chodwyd unrhyw bryderon sylweddol yn yr adroddiadau archwilio yn ystod y flwyddyn.

Mae Prif Swyddog Gweithredol Archwilio’r Comisiwn ac Archwilio Cymru (yr archwilwyr allanol) yn parhau i fod â pherthynas waith effeithiol yn unol â phrotocol cydweithio. Fel rhan o’i asesiad risg, mae Archwilio Cymru yn ystyried y gwaith a wneir yn ystod y flwyddyn gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol.

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio yn cyflwyno pob adroddiad archwilio mewnol i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a hefyd mynd i bob un o gyfarfodydd y Pwyllgor a chyfarfodydd corfforaethol eraill yn ôl yr angen. Gellir gweld y rhestr lawn o archwiliadau a adolygwyd gan y Pwyllgor yn ei Adroddiad Blynyddol.

Mae Adroddiad Blynyddol a Barn y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio, sy’n cael ei gyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, yn dod i’r casgliad bod gan Gomisiwn y Senedd brosesau digonol ac effeithiol o ran rheoli risg,

llywodraethu a rheolaeth. Roedd y Pwyllgor o’r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o’r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn.

## Cynghorwyr Annibynnol

Mae Cynghorwyr Annibynnol y Comisiwn[12] yn cefnogi’r Comisiwn a’i waith ac yn cynnig her adeiladol. Ar wahân i'w rolau cynghori pwysig ar y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Taliadau, maent wedi cymryd rhan mewn nifer o ymgyrchoedd recriwtio ar gyfer swyddi uwch ac yn ein gwobrau cydnabod staff, ac wedi herio’r Bwrdd Gweithredol fel rhan o broses y datganiad sicrwydd. Maent hefyd wedi cefnogi ein gwaith drwy gynnig eu harbenigedd ar faterion penodol.

Fel rhan o'i rôl o ran adolygu gweithgarwch archwilio, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr mewnol ac allanol. Mae'r Pwyllgor yn cael sicrwydd ar hyn gan y Prif Swyddog Gweithredol Archwilio, gan gynnwys drwy ei Adroddiad Blynyddol a Barn, a chan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Flynyddol sy'n cynnwys adran ar annibyniaeth.

Mae sesiwn breifat flynyddol gydag Archwilio Cymru hefyd yn rhan o raglen waith y Pwyllgor, sy’n rhoi cyfle pellach i drafod y broses archwilio allanol. Mae hyn yn ogystal â thrafodaethau am y broses yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y Pwyllgor. At hynny, mae cyfleoedd i gynrychiolwyr Archwilio Cymru a Phrif Swyddog Cyllid y Comisiwn gael ôl-drafodaeth â’r Pwyllgor ar ôl y sesiwn gwersi a ddysgwyd flynyddol a gynhelir rhwng y tîm Cyllid a'r tîm archwilio allanol.

Yn unol â chanllawiau Trysorlys EF ar Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg, mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal sesiynau preifat blynyddol gyda'r Prif Swyddog Gweithredol Archwilio a'r Swyddog Cyfrifyddu.

## Ffynonellau sicrwydd allanol

Mae canlyniadau gweithgareddau cydnabyddiaeth allanol annibynnol hefyd yn bwysig i'r Comisiwn. Mae hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth sy'n adlewyrchu'r diwylliant a'r amgylchedd cynhwysol y mae staff y Comisiwn yn gweithio

[12] https://senedd.wales/comisiwn/cynghorwyr-annibynnol/?CId=386&Year=2015

ynddynt. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn o dan Amrywiaeth a Chynhwysiant yn adran Dadansoddi Perfformiad yr Adroddiad Blynyddol.

## Meysydd i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu ar gyfer 2026-27

Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â'n blaenoriaethau fel y'u hamlinellir yn Strategaeth a Chynllun Corfforaethol y Comisiwn, gan ymateb ar yr un pryd i dirwedd ddeinamig o ran arian cyhoeddus a materion cyfansoddiadol.

Bydd y meysydd penodol i ganolbwyntio arnynt a'u datblygu ar gyfer 2026-27 yn cynnwys:

- Sicrhau bod gwersi perthnasol o ran llywodraethu sy'n deillio o'r broses 'gwersi a ddysgwyd' wrth ddirwyn prosiect Siambr 26 i ben (a gynhaliwyd yn unol â'r arfer gorau) wedi'u hymgorffori yn fframwaith rheoli portffolio, rhaglenni a phrosiectau'r Comisiwn sydd wrthi'n cael ei ddatblygu.
- Cynnal adolygiad sylfaenol o effeithiolrwydd rheolaethau risg, ac egluro perchnogaeth ac atebolrwydd.
- Cynnal proses fapio ar gyfer ffynonellau sicrwydd ail linell ac ymgorffori hynny yn y fframweithiau rheoli risg a sicrwydd.
- Datblygu a dechrau gweithredu Cynllun Gwella Llywodraethiant cyffredinol ar lefel weithredol, gydag adnoddau ychwanegol drwy gynllun Ymlaen y Comisiwn (Interniaeth y Senedd ar gyfer graddedigion o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol). Bydd y cynllun hwn yn rhoi pwyslais ar wella ymgysylltiad â phrosesau llywodraethu gweithredol a'r system rheolaeth fewnol a rhoi mwy o amlygrwydd iddynt.

## Datganiad i gloi

Mae'r datganiad hwn yn rhoi sicrwydd bod y dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni ein hamcanion wrth weithio tuag at ein nodau strategol wedi bod yn effeithiol.

Rwy'n fodlon bod unrhyw wendidau a nodwyd drwy ein prosesau sicrwydd wedi cael sylw, neu eu bod wrthi'n cael sylw. Rwy'n hyderus ein bod, yn ystod y flwyddyn, wedi cynnal safonau uchel o ran llywodraethu a bod ein rheolaethau

mewnol a’r systemau a’r prosesau yn ein fframwaith llywodraethu wedi gweithredu'n effeithiol.

**Manon Bonner**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 13 Gorffennaf 2026**

# Staff a thaliadau

## Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn nodi gwybodaeth ariannol a sylwebaeth am ddeiliaid swyddi yn y Comisiwn, staff ac eraill a delir gan y Comisiwn.

### Y Polisi Taliadau

Y Bwrdd Taliadau Annibynnol (y Bwrdd), a sefydlwyd gan *Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010* (y Mesur), sy’n gyfrifol am bennu cyflogau a lwfansau'r Aelodau. Penodwyd Dr Elizabeth Haywood yn Gadeirydd y Bwrdd ym mis Medi 2020, a hynny am dymor o bum mlynedd, a chafodd ei hailbenodi am ail dymor o bum mlynedd fel Cadeirydd o fis Medi 2025 ymlaen.

Mae’r Cadeirydd yn cael £400 y diwrnod. Mae gan bedwar aelod arall y Bwrdd (Gareth Llewellyn, Hugh Widdis, yr Arglwydd Nicholas Bourne a Jennifer Long) hawl i gael £310 y diwrnod.[13]

Fel bwrdd annibynnol, mae’n cyhoeddi ei adroddiad blynyddol ei hun, ac mae’r trefniadau ar gyfer hyn wedi’u nodi yn y Mesur.

Pennwyd mai cyflog sylfaenol yr Aelodau ar gyfer blwyddyn ariannol 2025-26 fyddai £76,380 (2024-25, £72,057). Caiff cyflogau’r Aelodau eu haddasu ym mis Ebrill bob blwyddyn yn unol ag ASHE (yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion). Y cynnydd ar gyfer 2025-26 oedd 6 y cant.

[13] Penodwyd Gareth Llewellyn yn lle'r Fonesig Jane Roberts ar ddiwedd ei hail dymor o 21 Medi 2025 ymlaen. Llanwodd yr Arglwydd Nick Bourne a Jennifer Long leoedd a oedd eisoes yn wag. Nid yw Hugh Widdis yn hawlio cyfradd ddyddiol am ei waith ar y Bwrdd; cafodd ei ailbenodi am ail dymor o bum mlynedd o fis Medi 2025 ymlaen.

Roedd gan y swyddi canlynol hawl i gael cyflogau ychwanegol fel a ganlyn:

| Swydd | O 1 Ebrill 2025 ymlaen | O 1 Ebrill 2024 ymlaen |
|---|---:|---:|
| Y Llywydd | £48,930 | £46,160 |
| Dirprwy Lywydd | £25,063 | £23,644 |
| Comisiynwyr y Senedd | £15,514 | £14,636 |
| Cadeiryddion pwyllgorau (uwch)[14] | £15,514 | £14,636 |
| Cadeirydd pwyllgor (is) | £10,336 | £9,751 |
| Aelod o'r Pwyllgor Busnes | £10,336 | £9,751 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

O 1 Ebrill 2025, roedd arweinydd grŵp gwleidyddol heb rôl weithredol yn cael lwfans deiliad swydd ychwanegol wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio lefel sylfaenol o £15,514 (2024-25, £14,636) a £1,194 (2024-25, £1,126) yn ychwanegol am bob aelod o'r grŵp hyd at uchafswm cyflog ychwanegol o £42,963 (2024-25, £40,536).

Nid yw'r Comisiwn yn rhoi buddion mewn nwyddau. Mae Aelodau o'r Senedd yn aelodau o Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd y cyhoeddir cyfrifon blynyddol ar wahân ar ei gyfer drwy wefan y Senedd.[15]

Mae'r Comisiwn yn talu cyflogau a chostau cysylltiedig Gweinidogion Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol ac maent yn cael eu codi ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn er hwylustod gweinyddol. Mae Cyfrifon Adnoddau Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys gwybodaeth am y datgeliad.

[14] Y pwyllgorau oedd Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol; Cyllid; Iechyd a Gofal Cymdeithasol; Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Llywodraeth Leol a Thai; Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau; Deisebau; Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Safonau Ymddygiad; Pwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru.
Ni chafodd cadeiryddion / cyd-gadeiryddion chwe phwyllgor dâl am gadeirio'r pwyllgorau hynny gan eu bod yn cael cyflogau deiliaid swyddi ychwanegol eraill, a dim ond un cyflog deiliad swydd y caiff Aelodau ei hawlio. Y pwyllgorau hynny oedd y Pwyllgor Busnes, y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog, Pwyllgor y Llywydd, Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, y Pwyllgor Biliau Diwygio a Phwyllgor Diben Arbennig Ymchwiliad Covid-19 Cymru.

[15] **https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/**

## Deiliaid swyddi yn y Comisiwn

Sefydlwyd y Comisiwn ym mis Mai 2007 o dan adran 27 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006). Mae'r Comisiwn yn cynnwys pum Comisiynydd, sef: y Llywydd, sy'n cadeirio'r Comisiwn, a phedwar Aelod arall o'r Senedd a benodir gan y Senedd. Rhestrir y Comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod 2025–26 ar dudalennau 15-16.

Nid yw manylion eu pensiwn wedi'u cynnwys isod gan mai dim ond rhan o'u tâl sy'n berthnasol i'w gwaith fel Comisiynwyr. Ni all eu pensiwn cronedig a'u Gwerthoedd Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) fel Comisiynwyr gael eu gwahanu o'r cyfansymiau a gronnwyd.

Mae costau cyflogau'r Llywydd a'r Dirprwy Lywydd[16] yn dâl uniongyrchol a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru ac ni chodir hwy ar gyfrifon adnoddau'r Comisiwn.

***Tabl 1: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw a theitl | Cyflog | | Buddion Pensiwn[17, 18] | | Cyfanswm[19] | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025–26 £'000 | 2024-25 £'000 | 2025–26 £'000 | 2024-25 £'000 | 2025–26 £'000 | 2024-25 £'000 |
| Elin Jones AS – y Llywydd | 125-130 | 115-120 | 59 | 44 | 180-185 | 160-165 |
| David Rees AS – y Dirprwy Lywydd | 100-105 | 95-100 | 39 | 33 | 140-145 | 125-130 |

[16] https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/y-dirprwy-lywydd/
[17] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn. (Dangosir y buddion pensiwn i'r £1,000 agosaf.)
[18] Efallai y bydd rhai Aelodau'n gorfod talu taliadau treth Lwfans Blynyddol o ganlyniad i gronni pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.
[19] Mae'r Aelodau y mae Rhwymedi Dyfarniad McCloud yn effeithio arnynt wedi cael cynnig dewis ar unwaith rhwng aros yn y Cynllun CARE (Cyfartaledd Gyrfa) neu ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol yng Nghynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd dros Gyfnod y Rhwymedi. Bydd unrhyw newid i fuddion o ganlyniad i'w penderfyniad o dan y Rhwymedi yn cael ei adlewyrchu yn natgeliadau'r flwyddyn nesaf unwaith y byddant wedi cael cyfle i wneud eu dewis o dan y Rhwymedi.

***Tabl 2: Y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd - buddion pensiwn***

| Enw a theitl | Cynnydd / (gostyngiad) gwirioneddol mewn pensiwn £'000 | Cyfanswm a gronnwyd £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2026 £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2025 £'000 | Cynnydd / (gostyngiad) gwirioneddol mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Elin Jones AS – y Llywydd | 2.5-5 | 65-70 | 1,216 | 1,087 | 42 |
| David Rees AS – y Dirprwy Lywydd | 2.5-5 | 30-35 | 537 | 494 | 29 |

Mae Tabl 1 a Thabl 2 yn destun archwiliad

Clerc y Senedd (a benodwyd o dan adran 26 o Ddeddf 2006) yw Prif Weithredwr y Comisiwn a'i Brif Swyddog Cyfrifyddu. Yn ymarferol, mae'r Comisiwn wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau gweithredol i'r Prif Weithredwr a Chlerc, gyda rhai eithriadau. Mae ei staff yn cael eu penodi o dan baragraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf 2006. Mae'r Comisiwn yn annibynnol ar Weinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae gan y Comisiwn ddyletswydd statudol i sicrhau bod y Senedd yn cael yr eiddo, y staff a'r gwasanaethau sydd eu hangen arni i ymgymryd â'i rhwymedigaethau. Mae hyn yn sicrhau y gall y Senedd a'i phwyllgorau gynnull. Mae hefyd yn annog ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r broses ddemocrataidd ac yn hybu ymgysylltiad â'r broses honno, ac mae'n cefnogi'r uchelgais o wneud y Senedd yn gorff seneddol hygyrch ac effeithiol sy'n ennyn hyder pobl Cymru.

## Aelodau Pwyllgorau a Chynghorwyr Annibynnol

Mae Comisiwn y Senedd yn penodi Cynghorwyr Annibynnol i sicrhau y caiff Comisiynwyr ac uwch dîm rheoli'r Senedd eu cynorthwyo a'u herio mewn modd adeiladol wrth eu gwaith. Rhestrir y Cynghorwyr Annibynnol a wasanaethodd yn ystod 2025–26 ar dudalennau 18-19.

## Uwch staff y Comisiwn

Penodir staff y Comisiwn, yn unol ag amodau a thelerau a bennir gan y Comisiwn, yn ôl teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r dull

hwn yn cyd-fynd â threfniadau'r gwasanaeth sifil. Nid yw’r staff yn aelodau o'r Gwasanaeth Sifil ond mae ganddynt hawl i fuddion o dan drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Dangosir uwch staff y Comisiwn yn y tabl isod. Cytunwyd ar y swyddi cyfarwyddwyr hyn yn unol ag Offeryn Dirprwyo'r Comisiwn. Mae’r Cyfarwyddwyr wedi datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau.

Mae'r uwch-reolwyr y mae’r adroddiad hwn yn berthnasol iddynt yn cael eu penodi am gyfnod penagored. Os terfynir cyflogaeth unigolyn yn gynnar am unrhyw reswm ac eithrio ei fod yn camymddwyn neu’n ymddiswyddo, bydd yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Ni adawodd yr un uwch-reolwr y Comisiwn yn ystod 2025-26 (gadawodd un yn ystod 2024-25 ar gost a gafodd ei chynnwys yn y cyfrifon, sef £40-45,000).

Crëwyd swydd Prif Gynghorydd Cyfreithiol, a phenodwyd Huw Williams i’r swydd ar 1 Ebrill 2022. Nodwyd ei rôl newydd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2023-24, ond er tryloywder llawn, mae ei fanylion wedi'u darparu fel ar gyfer yr uwch staff eraill yn yr adroddiad hwn.

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Manon Bonner | Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Roedd Manon Bonner yn bresennol mewn deuddeg o ddeuddeg cyfarfod y Comisiwn, pedwar o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac un o un cyfarfod y Pwyllgor Taliadau. |
| Matthew Richards<br>(18 Tachwedd 2024 – 6 Gorffennaf 2025) | Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd<br>Roedd Matthew Richards yn bresennol mewn tri o dri chyfarfod y Comisiwn, ac un o ddau gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Nid oedd yn bresennol mewn cyfarfod o’r Pwyllgor Taliadau. |
| Julian Luke<br>(7 Gorffennaf 2025 - presennol) | Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Roedd Julian Luke yn bresennol mewn wyth o naw cyfarfod y Comisiwn, a dau o ddau gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Nid oedd yn bresennol mewn cyfarfod o’r Pwyllgor Taliadau. |
| Arwyn Jones | Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu<br>Roedd Arwyn Jones yn bresennol mewn un ar ddeg o ddeuddeg cyfarfod y Comisiwn, a phedwar o bedwar |

| Enw | Teitl a phresenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| | cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Nid oedd yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Taliadau. |
| Ed Williams | Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd<br>Roedd Ed Williams yn bresennol mewn deuddeg o ddeuddeg cyfarfod y Comisiwn, a phedwar o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio. Nid oedd yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Taliadau. |
| Huw Williams | Prif Gynghorydd Cyfreithiol<br>Nid oedd Huw Williams yn bresennol yn unrhyw un o ddeuddeg cyfarfod y Comisiwn, ac nid oedd yn bresennol yn unrhyw un o bedwar cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Nid oedd yn bresennol mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Taliadau. |

Heblaw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd, nid yw'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Gynghorydd Cyfreithiol yn mynd i bob un o gyfarfodydd y Comisiwn a'i Bwyllgorau. Maent yn mynd i gyfarfodydd perthnasol sy'n cyfateb i'w cyfrifoldebau unigol.

***Tabl 3: Cyfanswm tâl mewn ffigurau sengl***

| Enw | Cyflog (£'000) | | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf)[20] | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2025-26 | 2024-25 | 2025-26 | 2024-25 | 2025-26 | 2024-25 |
| **Manon Bonner** | 180-185 | 175-180 | 71 | 67* | 255-260 | 240-245 |
| **Matthew Richards** | 25-30 | 35-40 | 14 | 40* | 40-45 | 75-80 |
| **Julian Luke** | 85-90 | - | 34 | - | 120-125 | - |
| **Arwyn Jones** | 120-125 | 110-115 | 47 | 45 | 165-170 | 155-160 |
| **Ed Williams** | 120-125 | 110-115 | 47 | 45 | 165-170 | 155-160 |

[20] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn. Mae rhifau sydd â * yn eu hymyl wedi'u hailddatgan ar gyfer y llynedd.

| Enw | Cyflog (£'000) | | Buddion pensiwn (i'r £1,000 agosaf)[20] | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Huw Williams**[21] | 70-75 | 65-70 | 29 | 27 | 100-105 | 95-100 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros, tâl goramser a lwfansau recriwtio a chadw.

Nid yw Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd na'r Cyfarwyddwyr yn cael taliadau bonws na buddion mewn nwyddau.

## Cyflogau staff y Comisiwn

Cyflogau (neu dâl) yw cydnabyddiaeth flynyddol gyfwerth ag amser llawn yr holl staff (gan gynnwys staff dros dro) ar 31 Mawrth 2026. Nid yw tâl yn cynnwys Yswiriant Gwladol y cyflogwr, cyfraniadau pensiwn, taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod pensiynau.

Nid oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau na thâl neu fonysau cysylltiedig â pherfformiad yn 2025-26 nac yn 2024-25.

| Gwybodaeth am dâl | 2025-26 £ | 2024–25 £ |
|---|---|---|
| Pwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf | 182,500 | 177,500 |
| Newid canrannol ym mhwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf o'r flwyddyn ariannol flaenorol | 2.82% | 2.90% |
| Newid canrannol yng nghyflog cyfartalog cyflogeion cyfwerth ag amser llawn (ac eithrio'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf) o'r flwyddyn ariannol flaenorol | 4.26% | 4.90% |
| Tâl cyflogai sydd â chyflog ar 25ain ganradd tâl yr holl gyflogeion ar gyfer y flwyddyn ariannol | 32,414 | 34,034 |

[21] Mae Huw Williams yn 0.6 cyfwerth ag amser llawn; nid yw ei gostau wedi'u grosio i ffigurau cyfwerth ag amser llawn

| Gwybodaeth am dâl | 2025-26 £ | 2024–25 £ |
|---|---:|---:|
| Tâl cyflogai sydd â chyflog ar 50fed ganradd tâl yr holl gyflogeion ar gyfer y flwyddyn ariannol | 44,766 | 42,634 |
| Tâl cyflogai sydd â chyflog ar 75ain ganradd tâl yr holl gyflogeion ar gyfer y flwyddyn ariannol | 56,632 | 53,935 |

Mae’r tabl hwn yn destun archwiliad.

Datgelir y berthynas rhwng pwynt canol band cyflog y cyfarwyddwr a oedd yn cael y cyflog uchaf yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 a thâl cyflogai ar 25ain, 50fed a 75ain ganradd holl staff y Comisiwn yn y tabl a ganlyn.

| Gwybodaeth Cymhareb Tâl | Cymhareb tâl y 25ain ganradd | Cymhareb tâl canolrifol | Cymhareb tâl y 75ain ganradd |
|---|---:|---:|---:|
| 2025-26 | 5.63:1 | 4.08:1 | 3.22:1 |
| 2024-25 | 5.22:1 | 4.16:1 | 3.29:1 |

Mae’r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae cymhareb y 25ain ganradd wedi cynyddu 7.85 y cant ac mae’r canolrif wedi gostwng 1.92 y cant o gymharu â’r flwyddyn flaenorol. Arhosodd cymhareb y 75ain ganradd fwy neu lai yr un fath. Mae pwynt cyflog y 25ain ganradd wedi gostwng o gymharu â 2024-25 gan roi cymhareb uwch. Mae'r gymhareb tâl canolrifol yn weddol sefydlog. Cynyddodd y cyflog uchaf 5 y cant yn unol â'r dyfarniad cyflog.

Yn 2025-26 a 2024-25, ni roddwyd unrhyw daliadau a oedd yn fwy na chyflog y cyfarwyddwr a oedd yn cael y cyflog uchaf. Roedd y taliadau’n amrywio o £25,878, a oedd yn sicrhau bod cyflogeion yn cael Cyflog Byw, i £184,768 (2024-25, £24,500 i £176,000).

## Pensiynau

***Tabl 4: Uwch-reolwyr – buddion pensiwn***

| Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn[22] £'000 | Cyfanswm y pensiwn cronedig[23] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2026[24] £'000 | CETV ar 31 Mawrth 2025 £'000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £'000 |
|---|---|---|---|---|
| ***Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd:*** *Manon Bonner* | | | | |
| 2.5-5 | 50-55 | 833 | 737 | 55 |
| ***Cyfarwyddwr Dros Dro Busnes y Senedd:*** *Matthew Richards* | | | | |
| 0-2.5 | 30-35 | 596 | 569 | 11 |
| ***Cyfarwyddwr Busnes y Senedd:*** *Julian Luke* | | | | |
| 0-2.5 | 10-15 | 213 | 177 | 23 |
| ***Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu:*** *Arwyn Jones* | | | | |
| 2.5-5 | 15-20 | 220 | 180 | 25 |
| ***Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd:*** *Ed Williams* | | | | |
| 2.5-5 | 10-15 | 168 | 123 | 33 |
| ***Prif Gynghorydd Cyfreithiol:*** *Huw Williams (ymunodd â'r cynllun pensiwn ar 01/12/2023)* | | | | |
| 0-2.5 | 0-5 | 57 | 33 | 20 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae'r buddion pensiwn cronedig sydd wedi'u cynnwys yn y tabl hwn ar gyfer unrhyw unigolyn y mae'r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn effeithio arno wedi'u cyfrifo ar sail eu cynnwys yn y cynllun gwaddol ar gyfer y

[22] Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn.
[23] Cyfanswm y pensiwn cronedig ar oedran pensiwn a'r cyfandaliad cysylltiedig ar 31 Mawrth 2025 ar gyfer deiliaid swyddi cyfredol, ac ar y dyddiad y gwnaethant roi'r gorau i'r swydd ar gyfer deiliaid swyddi blaenorol.
[24] Mae gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gyfrifo fel (y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20) plws (y cynnydd gwirioneddol mewn unrhyw gyfandaliad) namyn (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, yn dilyn dyfarniad McCloud. Mae’r Rhwymedi Pensiynau Gwasanaeth Cyhoeddus yn gymwys i unigolion a oedd yn aelodau, neu a oedd yn gymwys i fod yn aelodau, o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ar 31 Mawrth 2012 ac a oedd yn aelodau o gynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022. Mae'r sail ar gyfer y cyfrifiad yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfreithiol fod aelodau y mae hyn yn effeithio arnynt wedi'u dirwyn yn ôl i'r cynllun gwaddol perthnasol ar gyfer cyfnod y rhwymedi ac y bydd hyn yn gymwys oni bai bod yr aelod yn arfer ei hawl wrth ymddeol i benderfynu yn hytrach ei fod am dderbyn buddion a gyfrifir o dan delerau'r cynllun Alpha ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022.

## Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddion pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Cyn 1 Ebrill 2015, yr unig gynllun oedd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (y Prif Gynllun Pensiwn), sydd wedi’i rannu’n bedair rhan – mae’r cynlluniau classic, premium a classic plus yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, a nuvos yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. O 1 Ebrill 2015 ymlaen, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil, sef Cynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa. Ymunodd yr holl weision sifil newydd eu penodi, a mwyafrif y rhai a oedd eisoes yn gweithio yn y gwasanaeth, â’r cynllun newydd.

Mae'r Prif Gynllun Pensiwn ac alpha yn gynlluniau statudol nas ariennir. Mae cyflogeion a chyflogwyr yn gwneud cyfraniadau (mae cyfraniadau cyflogeion yn amrywio rhwng 4.6 y cant ac 8.05 y cant, yn dibynnu ar eu cyflog). Caiff balans cost y buddion a delir eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Caiff pensiynau a delir eu cynyddu bob blwyddyn yn unol â'r ddeddfwriaeth cynyddu pensiynau. Yn hytrach na’r trefniadau buddion diffiniedig, caiff cyflogeion ddewis trefniant cyfraniadau diffiniedig gyda chyfraniad gan y cyflogwr, sef y cyfrif pensiwn partneriaeth.

Yn alpha, mae pensiwn yn cronni ar gyfradd o 2.32 y cant o enillion pensiynadwy bob blwyddyn, ac mae cyfanswm y swm a gronnir yn cael ei addasu'n flynyddol yn unol â chyfradd a bennir gan Drysorlys EF. Gall aelodau ddewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir yn Neddf Cyllid 2004. Cafodd buddion y Prif Gynllun Pensiwn eu “bancio” ar gyfer pob aelod a newidiodd i alpha o’r Prif Gynllun Pensiwn, a chaiff y rhai sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y Prif Gynllun pensiwn y buddion hynny ar sail eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha.

Y pensiwn cronedig a nodir yn yr adroddiad hwn yw’r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn arferol, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o’r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn arferol neu os yw'n hŷn na hynny. Oedran pensiwn arferol aelodau cynlluniau classic, premium a classic plus yw 60 oed, a 65 yw'r oed ar gyfer aelodau cynllun nuvos, a’r oedran uchaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau o alpha. Mae'r ffigurau pensiwn yn yr adroddiad hwn yn dangos pensiwn a enillwyd yn y Prif Gynllun Pensiwn neu yn alpha, fel y bo’n briodol. Pan fo gan aelod fuddion yn y Prif Gynllun Pensiwn ac alpha, mae’r ffigurau’n dangos gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gallai gwahanol rannau’r pensiwn hwnnw fod yn daladwy wrth gyrraedd oedrannau gwahanol.

Pan gyflwynodd y Llywodraeth gynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus newydd yn 2015, roedd y trefniadau trosiannol yn trin aelodau presennol yn wahanol yn seiliedig ar eu hoedran. Arhosodd aelodau hŷn y Prif Gynllun Pensiwn yn y cynllun hwnnw, yn hytrach na symud i alpha. Yn 2018, penderfynodd y Llys Apêl fod y trefniadau trosiannol yng nghynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus yn gwahaniaethu’n anghyfreithlon yn erbyn aelodau iau.

O ganlyniad, mae camau’n cael eu cymryd i unioni’r diwygiadau hynny a wnaed yn 2015, gan wneud darpariaethau’r cynlluniau pensiwn yn deg i’r holl aelodau. Mae dwy ran i’r rhwymedi pensiynau gwasanaeth cyhoeddus. Caeodd y rhan gyntaf y Prif Gynllun Pensiwn ar 31 Mawrth 2022, a daeth yr holl aelodau gweithredol yn aelodau o alpha o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Mae'r ail ran yn dileu'r gwahaniaethu ar sail oedran ar gyfer cyfnod y rhwymedi, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022, drwy symud aelodaeth aelodau cymwys yn ystod y cyfnod hwn yn ôl i'r Prif Gynllun Pensiwn ar 1 Hydref 2023. Gelwir hyn yn ‘dirwyn yn ôl’.

Ar gyfer aelodau sydd o fewn cwmpas y rhwymedi pensiynau gwasanaeth cyhoeddus, cyfrifir eu buddion at ddibenion cyfrifo eu Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod a chyfanswm eu tâl un ffigur, a hynny ar 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024, ar sail y ffaith bod aelodaeth rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 wedi'i dirwyn yn ôl i'r Prif Gynllun Pensiwn. Er y bydd aelodau maes o law yn cael dewis penderfynu a ddylai'r cyfnod hwnnw gyfrif tuag at fuddion y Prif Gynllun Pensiwn neu alpha, mae'r ffigurau'n dangos y sefyllfa wedi'i dirwyn yn ôl, h.y. buddion y Prif Gynllun Pensiwn ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Mae’r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniadau diffiniedig galwedigaethol sy’n rhan o’r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8 y cant a 14.75 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i’r cyflogai gyfrannu, ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3 y cant o’r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant yn rhagor o’r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan **www.civilservicepensionscheme.org.uk**

## Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV)

Gwerth Trosglwyddo sydd Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalafol buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol yn ôl asesiad yr actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy’n daladwy o’r cynllun. Taliad yw CETV a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo’r buddion a gronnwyd eisoes yn ei gynllun blaenorol. Mae’r ffigurau pensiwn a ddangosir yn nodi’r buddion a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i gyfanswm cyfnod ei aelodaeth o’r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd ei fod wedi prynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun.

Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid yw’n ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl mewn buddion o ganlyniad i’r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir buddion pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw’n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant,

cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Rhwymedigaethau pensiwn

Mae'r modd yr ymdrinnir â rhwymedigaethau pensiwn a manylion y cynlluniau pensiwn perthnasol wedi'u nodi yn y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu yn y cyfrifon hyn.

## Niferoedd y staff

Niferoedd y staff yn ôl categori

Mae'r holl uwch-reolwyr a'r holl staff yn gyflogeion i'r Comisiwn. Roedd nifer **cyfartalog** y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys uwch-reolwyr) fel a ganlyn:

***Tabl 5: Nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn***

| Categori | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| Staff cyflogedig | 474.53 | 471.90 |
| Staff asiantaeth | 0.00 | 0.08 |
| Staff ar secondiad | 2.17 | 1.15 |
| Staff dros dro/achlysurol | 17.24 | 10.07 |
| **Cyfanswm** | **493.93** | **484.91** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ar **ddiwedd** y flwyddyn ariannol, roedd y Comisiwn yn cyflogi 523.1 o staff cyfwerth ag amser llawn (31 Mawrth 2025: 490.1).

***Tabl 6: Penodiadau oddi ar y gyflogres***

| **Staff a benodwyd oddi ar y gyflogres am fwy na £245 y diwrnod, ar 31 Mawrth 2026** | **Nifer ar 31 Mawrth 2026** |
|---|---|
| Nifer y penodiadau presennol | 0 |
| **Nifer y gweithwyr dros dro a benodwyd oddi ar y gyflogres ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026** | **Nifer 2025-26** |
| Nifer | 0 |
| Yn cynnwys:<br>Yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres ac y pennwyd eu bod o fewn cwmpas IR35 | 0 |

***Tabl 7: Pecynnau ymadael***

| | **Dileu swyddi yn orfodol** | | **Ymadawiadau eraill** | |
|---|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2026** | **31 Mawrth 2025** | **31 Mawrth 2026** | **31 Mawrth 2025** |
| **<£10,000** | - | - | - | - |
| **£10,000-£25,000** | - | - | - | - |
| **£25,000-£50,000** | - | - | - | 1 |
| **£50,000-£100,000** | - | - | - | - |
| **£100,000-£150,000** | - | - | - | - |
| **£150,000-£200,000** | - | - | - | - |
| **Cyfanswm y pecynnau** | **-** | **-** | **-** | **1** |
| **Cyfanswm y gost (£000)** | **-** | **-** | **£-** | **£42** |

Nid oedd unrhyw becynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y talwyd amdanynt yn ystod y flwyddyn (un yn 2024-25, £41,830)

***Tabl 8: Cyfansoddiad staff yn ôl rhywedd a band cyflog****

| Categori | 31 Mawrth 2026 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Anneuaidd | Hunaniaeth arall o ran rhywedd | **Cyfanswm** |
| Cyfarwyddwyr | 1 | 4 | - | - | **5** |
| Staff | 275 | 263 | - | - | **538** |
| **Cyfanswm** | **276** | **267** | | | **543** |

| Categori | 31 Mawrth 2025 | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Menywod | Dynion | Anneuaidd | Hunaniaeth arall o ran rhywedd | **Cyfanswm** |
| Cyfarwyddwyr | 1 | 4 | - | - | **5** |
| Staff | 263 | 242 | - | - | **505** |
| **Cyfanswm** | **264** | **246** | - | **-** | **510** |

*Yn y tablau uchod, nodir y staff a gyflogir fel niferoedd cyfwerth ag amser llawn. Fodd bynnag, nodir y dadansoddiad ar sail rhywedd fel niferoedd gwirioneddol.

Nid yw cynghorwyr annibynnol wedi'u cynnwys yn y ffigurau cyfwerth ag amser llawn na'r dadansoddiad o ran rhywedd uchod.

## Data absenoldeb salwch

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i gefnogi a rheoli cyflogeion sy'n absennol o'r gwaith oherwydd afiechyd neu salwch. Mae hyn yn golygu ymdrechu i greu amgylchedd sy’n hwyluso cyfathrebu agored ac adeiladol a chymorth ar gyfer llesiant cyflogeion i’w galluogi i ddod â phob agwedd arnynt eu hunain i’r gwaith. Yn sgil ein Strategaeth Llesiant flaenorol ar gyfer 2022-25, mae Strategaeth Llesiant newydd wedi’i drafftio ar gyfer 2026-30, sy’n darparu dull strategol o gynllunio a rheoli ymyriadau llesiant, ac yn caniatáu i ni asesu effaith y gweithgareddau hyn. Mae effeithiolrwydd / canlyniadau’r strategaeth hon yn cael eu monitro drwy arolygon llesiant blynyddol.

Rydym yn rhoi pwys mawr ar iechyd a llesiant ein cyflogeion ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu cefnogi a'u rheoli gan roi

ystyriaeth ddyledus i anghenion gweithredol y Comisiwn. Mae absenoldebau'n creu costau uchel i'r Comisiwn ac i'n cyflogeion ac yn cael effaith fawr arnynt, ac mae sicrhau'r lefelau presenoldeb gorau o fudd i bawb. Mae gennym weithdrefnau i reoli absenoldebau er mwyn sicrhau bod dull teg, cyson a, lle bo hynny'n briodol, cadarn yn cael ei ddefnyddio i reoli absenoldebau yn y Senedd. Eleni, rydym wedi cynnal adolygiad ac wedi diweddaru ein polisi rheoli absenoldeb oherwydd salwch. Rydym bellach wedi rhoi Polisi Salwch Hirdymor, Polisi Salwch Tymor Byr a chanllawiau gwell i reolwyr ar waith. O'r herwydd, bydd hyfforddiant yn cael ei gyflwyno i reolwyr yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Gostyngodd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y flwyddyn i gyfartaledd o 5.8 diwrnod a gollwyd y pen (yn 2024-2025 collwyd 6.4 diwrnod y pen). Mae hyn yn is na meincnod y Gwasanaeth Sifil (8.2 diwrnod) a ddefnyddir gennym i fonitro absenoldeb salwch yn ei gyfanrwydd. Mae absenoldeb sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl bellach yn cyfrif am 788.8 diwrnod a gollwyd (27.3 y cant o gyfanswm yr absenoldebau). Mae rhwydwaith MINDFUL y Senedd wedi parhau i gynnal sesiynau galw heibio rhithwir, gan greu lle i bawb gael sgwrs gyffredinol a chyngor yn ôl yr angen, ynghyd â sesiynau ar y safle.

Mae'r gwasanaethau Adnoddau Dynol, Ystadau a TGCh wedi parhau i gydweithio i sicrhau bod gan staff sy'n gweithio o bell offer sgrin arddangos (DSE) priodol, gan gynnwys unrhyw addasiadau rhesymol a gofynion ergonomig. Mae'r Senedd yn defnyddio porth DSE ar-lein i sicrhau bod gan bob aelod o staff asesiadau DSE cyfredol, p'un a yw'n gweithio o bell neu ar yr ystad.

## Data trosiant staff

Mae trosiant wedi gostwng rywfaint dros y 12 mis diwethaf i 5.7 y cant (6.5 y cant yn 2024-25). Mae hyn yn is na chyfartaledd y DU ar gyfer y gyfradd ymddiswyddo gwirfoddol (10.3 y cant yn 2024 yn ôl **Xpert HR**). Cyn y pandemig roedd y gyfradd trosiant yn 9.7 y cant yn 2018-19.

## Dangosyddion ymgysylltu â staff

Yn dilyn arolwg staff Comisiwn y Senedd ym mis Mawrth 2023, cytunwyd y byddai ein harolygon staff blynyddol yn symud i gylch 18 mis, wedi'i ategu gan arolygon pwls bob hanner blwyddyn. Mae'r addasiad hwn wedi creu nifer o fanteision. Mae'n meithrin dull mwy ystwyth ac ymatebol ar gyfer adborth cyflogeion, gan ein galluogi i barhau i fod yn ymwybodol o anghenion a phryderon ein cydweithwyr. Mae'r cylch 18 mis yn rhoi digon o amser i gynlluniau gweithredu a newidiadau ymarferol gael eu gweithredu a'u hasesu,

tra bo'r arolygon pwls bob chwe mis yn bwyntiau gwirio hanfodol i fesur effaith ein cynlluniau ac i fynd i'r afael yn gyflym ag unrhyw faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r dull hwn yn hybu gwelliant parhaus, ond mae hefyd yn lleihau syrffed ar arolygon ymhlith ein staff, gan ei fod yn taro cydbwysedd rhwng casglu data cynhwysfawr a pharchu eu hamser. Mae'n adlewyrchu ein hymrwymiad i feithrin amgylchedd gwaith deinamig a chysylltiedig, lle mae lleisiau cyflogeion yn cael eu clywed yn rheolaidd a lle gweithredir yn sgil hynny.

Mae'r arolwg yn rhoi cipolwg ar brofiad cyflogeion o weithio yn y Senedd ac yn helpu i nodi meysydd i'w gwella fel y gallwn wneud newidiadau yn seiliedig ar adborth cyflogeion. Ym mis Medi 2024, gwnaethom weithio ar y cyd â WorkL eto i gynnal yr arolwg, gan gyfuno eu harbenigedd hwy â'n hanghenion penodol ni. Mae'r bartneriaeth hon wedi ein galluogi i barhau i feincnodi ein canlyniadau yn erbyn amrywiaeth ehangach o sefydliadau tebyg, gan gynnwys y gwasanaeth sifil.

Mae'r arolwg yn seiliedig ar fframwaith sy'n mesur chwe thema graidd: Gwobrwyo a Chydnabyddiaeth; Rhannu Gwybodaeth; Galluogi; Llesiant; Ennyn Balchder a Boddhad Gwaith. Unwaith eto, mae'r canlyniadau'n dangos bod timau'n gweithio'n hyblyg, ac yn cefnogi ei gilydd drwy heriau a newidiadau, ac mae'r mwyafrif helaeth o gydweithwyr yn falch o weithio yn y Senedd. Mae'r Sgôr Ymgysylltu yn y Gweithle eleni yn parhau i fod yn gadarnhaol (74 y cant), ac yn cymharu'n ffafriol â sgôr gyffelyb y sector cyhoeddus (70 y cant).

Er mwyn rhoi'r trawsnewidiad hwn ar waith yn effeithiol, rydym wedi defnyddio ein Rhwydwaith Ymgysylltu â Staff (Engage) fel system gymorth ganolog. Mae'r rhwydwaith hwn yn gyfrwng ar gyfer lledaenu gwybodaeth am y dull newydd o gynnal yr arolwg, gan sicrhau bod gweithwyr yn deall ei bwrpas a'i fanteision. At hynny, mae rhwydwaith Engage yn chwarae rhan hanfodol wrth annog staff i gymryd rhan weithredol yn yr arolygon blynyddol a'r arolygon pwls. Mae eiriolwyr ac arweinwyr o fewn y rhwydwaith yn helpu i feithrin diwylliant o adborth parhaus, ateb cwestiynau, mynd i'r afael â phryderon, a thynnu sylw at bwysigrwydd mewnbwn staff wrth lunio ein sefydliad. Mae cyrhaeddiad a dylanwad y Rhwydwaith Ymgysylltu â Staff yn ei wneud yn fodd amhrisiadwy o hyrwyddo system adborth fwy deinamig a chynhwysol, sy'n cyd-fynd yn berffaith â chylch arfaethedig yr arolwg ac yn gwella ymhellach ein hymdrechion i ymgysylltu â chyflogeion.

## Anabledd

Mae EMBRACE, rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle’r Senedd ar gyfer anabledd, yn darparu cefnogaeth gan gymheiriaid a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth, yn creu polisïau ac yn cyfrannu at y broses o’u datblygu drwy gynnig syniadau a herio. Mae gennym hefyd Uwch Hyrwyddwr anabledd sy'n gweithio'n agos gyda'n rhwydwaith ac yn eirioli dros gydraddoldeb i bobl anabl ar lefel uwch o ran gwneud penderfyniadau. Mae ein rhwydwaith MINDFUL gweithgar yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant ac yn cynnal gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth o iechyd meddwl drwy gydol y flwyddyn.

Mae ein his-grŵp Café Neuro newydd yn cynnig cefnogaeth i bobl niwrowahanol ac mae wedi helpu i wella prosesau i sicrhau addasiadau rhesymol. Yn sgil adborth gan y rhwydwaith, gwnaethom sefydlu grŵp cychwyn a gorffen i edrych ar ble y gellir gwella’r broses. Rydym wedi datblygu llinell newydd yn y gyllideb a phroses adrodd newydd i olrhain ceisiadau, a byddwn yn rhyddhau polisi penodol ar gyfer addasiadau rhesymol maes o law.

Mae gennym fesurau ar waith i gefnogi cyflogeion sy'n nodi bod ganddynt anabledd. Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Mae ein Polisi Recriwtio yn cyfeirio at ein gwarant o gyfweliad i ymgeiswyr sy'n bodloni gofynion sylfaenol y rôl, sydd hefyd yn berthnasol yn fewnol i gyflogeion sydd am gael dyrchafiad. Gwahoddir ymgeiswyr i drafod gyda'r Tîm Recriwtio unrhyw anghenion unigol i gefnogi hygyrchedd ym mhob agwedd ar y broses recriwtio a chânt eu diwallu lle bo angen.

Gwneir addasiadau i’r gweithle, lle bynnag y bo hynny'n bosibl, yn dilyn trafodaethau rhwng cyflogeion a rheolwyr ar gyfer dechreuwyr newydd, cyflogeion sydd mewn swydd neu’r rhai sy’n dychwelyd i'r gwaith yn dilyn anaf neu salwch a allai gael effaith ar eu gallu i wneud eu gwaith. Gallai hyn gynnwys addasiadau i batrymau gwaith a/neu offer wedi’u haddasu a thechnoleg gynorthwyol sy’n ystyriol o drefniadau gweithio o bell neu weithio ar y safle. Bydd cyflogeion anabl yn cael Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng (PEEP) pan fyddant fel arfer yn gweithio ar ein hystad. Mae gan ein hystad systemau dolen glyw mewn sawl lleoliad ac arwyddion hygyrch. Cynhelir archwiliadau mynediad rheolaidd ar ein hystad, gan gynnwys archwiliad synhwyraidd ar gyfer pobl niwrowahanol.

## Perthynas â'r undebau llafur

Mae Fforwm Partneriaeth y Senedd yn gorff sy'n cynnwys cynrychiolwyr Ochr yr Undebau Llafur a'r Rheolwyr ac mae'n seiliedig ar yr egwyddor y caiff nodau ac amcanion sefydliad eu cyflawni orau gan reolwyr a chyflogeion, wedi'u cynrychioli gan eu hundebau llafur cydnabyddedig, yn cydweithio i gyflawni nodau a rennir, er enghraifft adolygu parhaus a diweddaru polisïau Adnoddau Dynol.

Cynhelir cyfarfodydd Partneriaeth ffurfiol unwaith bob hanner tymor, gyda chyfarfodydd llai ffurfiol yn rheolaidd bob tymor, i roi cyfle i drafod y gwahanol faterion ar draws y Comisiwn a sicrhau ymgynghori ac ymgysylltu priodol ag Ochr yr Undebau Llafur. Eleni, llwyddodd Ochr yr Undebau Llafur a'r rheolwyr i gytuno ar gytundeb cyflog ar gyfer 2026-27 ac ymgynghorwyd ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys nifer o bolisïau Adnoddau Dynol newydd neu bolisïau wedi'u diweddaru.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Yn ystod 2025/26, parhaodd Comisiwn y Senedd i wreiddio amrywiaeth a chynhwysiant fel un o alluoedd craidd y sefydliad, gan gefnogi gwaith i ddarparu gwasanaethau gwydn ac effeithiol sy'n cael eu harwain gan werthoedd yn ystod cyfnod o newid sefydliadol mawr. Cafodd gweithgarwch Amrywiaeth a Chynhwysiant ei ymgorffori fwyfwy yn y portffolio Diwylliant a Gallu, ochr yn ochr â Datblygu Sefydliadol a Dysgu a Datblygu, gan gryfhau'r cydweddu rhwng arweinyddiaeth gynhwysol, datblygu'r gweithlu a diwylliant sefydliadol.

Mae hynny'n adlewyrchu newid o ddarpariaeth sy'n sefyll ar ei phen ei hun tuag at wreiddio ymddygiadau, systemau a phenderfyniadau cynhwysol ar draws y sefydliad, ar sail data am y gweithlu, gwybodaeth sy'n deillio o ymgysylltu ac asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb. Mae'r Comisiwn wedi parhau i roi ffocws cryf ar arferion cynhwysol, addasiadau rhesymol a chefnogi llesiant, urddas ac ymdeimlad o berthyn i bob cydweithiwr.

Mae'r datblygiadau hyn yn rhoi sylfaen gref ar gyfer y Seithfed Senedd, gan sicrhau bod amrywiaeth a chynhwysiant yn parhau i gefnogi effeithiolrwydd y sefydliad, cynaliadwyedd y gweithlu ac ymddiriedaeth y cyhoedd. Maent hefyd yn llywio gwaith i ddatblygu blaenoriaethau o ran pobl a diwylliant yn y dyfodol.

Mae Adroddiad Blynyddol Amrywiaeth a Chynhwysiant 2025-2026 cynnwys gwybodaeth fanwl am y gwaith y mae Comisiwn y Senedd wedi'i wneud i ddathlu amrywiaeth a hybu cynhwysiant fel senedd ac fel cyflogwr. Rydym hefyd yn cyhoeddi data ar amrywiaeth y gweithlu a recriwtio, archwiliad cyflog cyfartal, a data am y bwlch cyflog o ran rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd. Mae'r adroddiadau hyn ar gael ar wefan Comisiwn y Senedd.

**Manon Bonner**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 13 Gorffennaf 2026**

# Atebolrwydd ac archwilio

## Datganiad o gyflenwad y Senedd a nodiadau ategol

### a) Crynodeb o Alldro Adnoddau 2025-26

| | | Cyllideb | Alldro | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm £'000 | Cyfanswm alldro net o gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant) £'000 | Alldro £'000 |
| Adnoddau i'w defnyddio gan Gomisiwn y Senedd | Nodyn SOS 01 | 58,794 | 56,980 | 1,814 | 50,739 |
| Costau sy'n gysylltiedig â'r etholiad | Nodyn SOS 01 | 1,000 | 842 | 158 | - |
| Adnoddau mewn perthynas â phenderfyniadau'r Bwrdd Taliadau | Nodyn SOS 01 | 20,323 | 19.991 | 332 | 18,387 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | Nodyn SOS 01 | 500 | (284) | 784 | 231 |
| | | **80,617** | **77,529** | **3,088** | **69,357** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Ceir eglurhad o'r gwahaniaethau rhwng y gyllideb a'r alldro yn SOS 01 ac yn yr Adroddiad ar Berfformiad.

## b) Gofyniad arian parod net 2025-26

| | | Cyllideb | Alldro | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Cyfanswm alldro net o gymharu â'r gyllideb: tanwariant / (gorwariant)** | **Alldro** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gofyniad arian parod net | Nodyn SOS 03 | 76,846 | 74,359 | 2,487 | 65,126 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Mae SOS 03 i'w weld yn yr Atodiad - adrodd ar reoleidd-dra, tudalen 204

# Nodiadau i gyd-fynd â’r Cyfrifon Adnoddau

## (Datganiad o gyflenwad y Senedd)

***SOS 01. Dadansoddiad o’r alldro adnoddau net 2025-26***

| Gwariant Refeniw | Alldro £’000 | Dadansoddiad o’r gyllideb a gymeradwywyd £’000 | Alldro o gymharu â’r gyllideb a gymeradwywyd £’000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £’000 | Alldro o gymharu â’r gyllideb ddiwygiedig £’000 | Alldro 2024-25 £’000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 33,531 | 34,615 | 1,264 | 35,041 | 1,690 | 30,356 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 9,342 | 18,151 | 8,809 | 11,010 | 1,668 | 13,182 |
| Costau cyfalaf – heblaw arian parod | 5,502 | 5,600 | 98 | 5,600 | 98 | 5,481 |
| **Gwariant refeniw gros** | **48,195** | **58,366** | **10,171** | **51,651** | **3,456** | **49,019** |
| Incwm refeniw gros wedi’i gymhwyso | (38) | (61) | (23) | (61) | (23) | (75) |
| **Gwariant refeniw net** | **48,157** | **58,305** | **10,148** | **51,590** | **3,433** | **48,944** |
| Gwariant cyfalaf* | 8,242 | 2,308 | (5,934) | 6,490 | (1,752) | 1,176 |
| **Alldro adnoddau net (gwariant y Comisiwn)** | **56,399** | **60,613** | **4,214** | **58,080** | **1,681** | **50,120** |
| Cyflogau a lwfansau’r Aelodau a chostau cysylltiedig | 19,991 | 20,525 | 534 | 20,323 | 332 | 18,387 |
| Cymorth ar gyfer y Bwrdd Taliadau | 497 | 602 | 105 | 609 | 112 | 535 |
| Swyddfa'r Comisiynwyr Safonau | 84 | 105 | 21 | 105 | 21 | 84 |
| Costau’r etholiad | 842 | 1,000 | 158 | 1,000 | 158 | 0 |
| **Alldro adnoddau** | **77,813** | **82,845** | **5,032** | **80,117** | **2,304** | **69,126** |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | (284) | 1,000 | 1,284 | 500 | 784 | 231 |
| **Cyfanswm alldro adnoddau net** | **77,529** | **83,845** | **6,316** | **80,617** | **3,088** | **69,357** |

Mae’r tabl hwn yn destun archwiliad.

*Cyfanswm y gwariant cyfalaf yw £8,242,000, yr oedd £4,466,000 ohono mewn perthynas â phrosiect Diwygio'r Senedd a £476,000 mewn perthynas â'r rhaglen Ffyrdd o Weithio (2024-25 £1,176,000). Mae'r cyllidebau ar gyfer pob clustnodiad o fewn y categorïau perthnasol.

## Rhannwyd y cyllidebau wedi'u clustnodi fel a ganlyn:

### Diwygio'r Senedd

| Gwariant Refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 1,434 | 2,163 | 729 | 2,172 | 738 |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 61 | 2,511 | 2,450 | 769 | 708 |
| Costau cyfalaf / prosiectau | 4,466 | 1,808 | (2,658) | 3,550 | (916) |
| **Cyfanswm** | **5,961** | **6,482** | **521** | **6,491** | **530** |

### Ffyrdd o Weithio

| Gwariant Refeniw | Alldro £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Alldro o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd £'000 | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig £'000 | Alldro o gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyflogau staff a chostau cysylltiedig | 282 | 101 | (181) | 106 | (179) |
| Costau nad ydynt yn ymwneud â staff | 843 | 2,295 | 1,452 | 1,495 | 652 |
| Costau cyfalaf / prosiectau | 476 | 0 | (476) | 800 | 324 |

| | Alldro | Dadansoddiad o'r gyllideb a gymeradwywyd | Alldro o gymharu â'r gyllideb a gymeradwywyd | Dadansoddiad o'r gyllideb ddiwygiedig | Alldro o gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **1,601** | **2,396** | **795** | **2,401** | **800** |

## Alldro adnoddau net – Sylwebaeth reoli

Yr alldro adnoddau ar wariant y Comisiwn, cyn cyflogau a lwfansau'r Aelodau, costau i gefnogi Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, costau i gefnogi Swyddfa'r Comisiynydd Safonau a chostau cyllid pensiwn, ar gyfer 2025-26 oedd £56.4 miliwn yn erbyn cyllideb o £58.1 miliwn, gan arwain at danwariant cyffredinol o £1.7 miliwn (2.89 y cant). Mae'r sefyllfa hon yn cynnwys yr alldro ar gyfer pob un o'r cyllidebau wedi'u clustnodi sy'n ymwneud â Ffyrdd o Weithio a Diwygio'r Senedd. Roedd y cyllidebau hyn yn benodol ar gyfer y prosiectau perthnasol gyda'r tanwariant yn gyfyngedig ac nid oedd ar gael ar gyfer gwariant gweithredol.

Dangosir yr alldro ar gyfer pob prosiect yn y tabl isod. Ac eithrio'r eitemau hyn, roedd yr alldro gweithredol yn danwariant o £0.4 miliwn (0.71 y cant).

| Prosiect | Cyllideb £000 | Alldro £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|
| **Ffyrdd o Weithio** | £2,401 | £1,601 | £800 |
| **Diwygio'r Senedd** | £6,491 | £5,962 | £529 |

Ac eithrio eitemau nad ydynt yn arian parod a chyllidebau prosiectau wedi'u clustnodi, yr alldro oedd £43.3 miliwn yn erbyn cyllideb o £43.6 miliwn, gan arwain at danwariant o 0.58 y cant, sydd o fewn ystod darged y Comisiwn o danwariant – rhwng 0 ac 1.5 y cant o'r gyllideb weithredol – ac sy'n adlewyrchu'r dull rhagweithiol o reoli adnoddau'r Comisiwn.

Gwnaed gwaith cyfalaf sylweddol ar yr ystad yn ystod y flwyddyn i baratoi ystad y Senedd ar gyfer 36 Aelod ychwanegol o fis Mai 2026 ymlaen. Mae hyn yn cynnwys cwblhau'r gwaith i ychwanegu swyddfeydd i 36 Aelod ychwanegol ac ad-drefnu'r Siambr i ddarparu ar gyfer y Senedd fwy o faint.

Yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, gwnaeth Comisiwn y Senedd gynnydd sylweddol ar brosiect Bae 32, gan gyrraedd carreg filltir allweddol pan gwblhawyd y broses gaffael a dewis cynigydd a ffefrir i symud y prosiect ymlaen i'r cam nesaf. Ymrwymodd y Comisiwn i Gytundeb Cyn

Datblygu a oedd yn nodi'r newid o’r cam cynllunio amlinellol i’r cam datblygu manwl. Bydd hyn yn galluogi'r Comisiwn i ystyried, yn ddiweddarach yn 2026, a ddylai fwrw ymlaen â Chytundeb Datblygu, gan nodi nad yw’r Cytundeb Cyn Datblygu yn rhwymo'r Comisiwn i fwrw ymlaen, a bod penderfyniad terfynol ynghylch buddsoddi yn dal i fod yn amodol ar gymeradwyo’r Achos Busnes Llawn.

Yr elfen ‘staff’ yw elfen fwyaf y gyllideb weithredol, ac mae defnyddio ‘dyddiadau dechrau targed’ ar gyfer recriwtio wedi ei gwneud yn haws rheoli arian ac adnoddau yn well yn ogystal â rhagfynegi’n well. Mae hefyd wedi helpu’r tîm recriwtio i gyfeirio adnoddau mewn ffordd strwythuredig, dan reolaeth.

Y Grŵp Rheoli Portffolio oedd yn gyfrifol am ddyrannu’r gronfa prosiectau yn ystod y flwyddyn, gan dargedu'r cyllid a oedd ar gael at feysydd blaenoriaeth y Comisiwn a gwaith cynnal a chadw cylch bywyd hanfodol. Gwnaed gwaith uwchraddio allweddol i’r seilwaith TGCh yn ystod y flwyddyn fel rhan gyntaf prosiect i ddisodli'r Feddalwedd Rheoli Deddfwriaeth a ddefnyddir gan y Comisiwn a Llywodraeth Cymru, sy’n ddarn allweddol o feddalwedd i'r ddau sefydliad. Bydd y prosiect hwn yn cael ei gwblhau yn ystod 2026-27.

Y gyllideb a osodwyd ar gyfer Cyflogau a Lwfansau'r Aelodau oedd £20.3 miliwn. Yr alldro oedd £20.1 miliwn, gan roi tanwariant o 1.2 y cant. Addaswyd y gyllideb hon ar gyfer newid i gyfraniadau Yswiriant Gwladol yn ystod y flwyddyn ac yna cafodd ei gostwng i adlewyrchu'r tanwariant disgwyliedig ar ddiwedd y flwyddyn drwy broses y gyllideb atodol. Mae tanwariant o'r gyllideb hon wedi'i glustnodi ac nid yw ar gael i'r Comisiwn.

Mae cyllideb Gwariant a Reolir yn Flynyddol y Comisiwn ar gyfer yr addasiad cyfrifyddu nad yw'n arian parod mewn perthynas â rhwymedigaeth ariannol Cynllun Pensiwn Aelodau o’r Senedd yn y dyfodol. Gosodwyd y gyllideb o £1.0 miliwn ar gyfer 2025-26 ym mis Tachwedd 2024, ar sail data a oedd ar gael ar y pryd, a chafodd ei gostwng yn ddiweddarach i £0.500 miliwn drwy’r gyllideb atodol. Y costau gwirioneddol oedd -£0.284 miliwn.

***SOS 02. Cysoni alldro â gwariant gweithredu net***

| | Nodyn | 2024-25 £’000 | 2024-25 £’000 |
|---|---|---|---|
| Alldro adnoddau net | SOS 01 | 77,529 | 69,357 |
| Gwariant cyfalaf | 4 | (8,242) | (1,176) |
| Taliadau uniongyrchol a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru | | 842 | 795 |

| | Nodyn | 2024-25 £'000 | 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm na ellir ei gadw sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | 3 |
| Gwariant gweithredu net | | 70,129 | 68,979 |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad

Mae'r taliadau uniongyrchol a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru, sef £841,862 (2024-25, £794,683) yn ymwneud â chostau cyflogau'r Llywydd, y Dirprwy Lywydd, Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru; a chostau cyflogau a threuliau'r Comisiynydd Safonau a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru. Telir y cyflogau a'r treuliau hyn gan y Comisiwn, a chânt eu hawlio yn ôl o'r Gronfa. Gan eu bod yn dâl uniongyrchol ar y Gronfa, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr alldro adnoddau net.

Cafodd y Comisiwn £4,465.94 (2024-25, £3,360.34) mewn llog ar ei gyfrif banc masnachol yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26.  Bydd yn cael ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru yn 2026-27 yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, nad yw'n caniatáu i'r Comisiwn gadw'r llog banc a enillwyd.

# Y Dystysgrif ac adroddiad yr archwilydd annibynnol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Adroddiad ar yr archwiliad o’r datganiadau ariannol

### Barn am y datganiadau ariannol

Rwy’n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn y Senedd ar gyfer y flwyddyn 2025-26 o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y canlynol Datganiad o Gyflenwad, Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o’r Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o’r Newidiadau yn Ecwiti’r Trethdalwyr; a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu materol.

Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw cyfraith gymwys a safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y’u dehonglwyd a’u mabwysiadwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiwn y Senedd ar 31 Mawrth 2026, a’r gofyniad arian parod net, yr alldro adnoddau net, a’r costau gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddaswyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM; ac
- wedi’u paratoi’n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF codwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

### Barn am reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob modd perthnasol:

- mae'r Datganiad o Gyflenwad yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i

ben ar 31 Mawrth 2026 ac mae'n dangos nad aed dros y cyfansymiau hynny;

- mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail dros y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith gymwys a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (UK)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol a Rheoleidd-dra o Gyrff Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran ar gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio datganiadau ariannol yn fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail dros fy marn.

## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu wrth lunio'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi canfod ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

Mabwysiedir sail busnes gweithredol o gyfrifyddu ar gyfer Comisiwn y Senedd i ystyried y gofynion a nodwyd yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu'r sail busnes

gweithredol o gyfrifyddu wrth lunio'r datganiadau ariannol pan ragwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau yn y dyfodol.

## Rhagor o wybodaeth

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a'r rhannau hynny yn yr adroddiad taliadau a staff sy'n destun archwiliad a'm hadroddiad archwilio arnynt. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi casgliad sicrwydd arnynt. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth yn sylweddol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos ei bod yn cyfateb i gamddatganiad o bwys.

Os byddaf yn dod o hyd i anghysondebau sylweddol o'r fath neu os ymddengys fod camddatganiadau o bwys, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith rwyf wedi'i wneud, yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall hon yn gamddatganiad o bwys, mae'n ofynnol i mi adrodd hynny.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yn hyn o beth.

## Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio wedi cael ei llunio'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Taliadau sydd i'w harchwilio wedi cael eu llunio'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Trosolwg, Dadansoddi Perfformiad ac Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu llunio ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol cymwys.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt fel eithriad

Yn sgil y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr Adroddiad Trosolwg, Dadansoddi Perfformiad ac Atebolrwydd.

Nid oes gennyf sylwadau ar y materion a ganlyn, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os, yn fy marn i:

- nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a’r esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.
- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi cael eu cadw neu na chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â hwy;
- nad yw'r datganiadau ariannol a’r rhan o’r Adroddiad Atebolrwydd sydd i’w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r adroddiadau cyfrifyddu;
- nad yw gwybodaeth a nodir yn benodol gan Drysorlys EF am daliadau a thrafodiadau eraill wedi cael ei datgelu;
- nad yw datgeliadau penodol o daliadau a bennwyd gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF wedi cael eu gwneud neu nad yw rhannau o'r Adroddiad Taliadau a Staff sydd i'w harchwilio yn gytûn â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad yw’r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfedd â chanllawiau Trysorlys EF.

## Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn y Datganiad o gyfrifoldebau’r Comisiwn a’r Prif Swyddog Cyfrifyddu, y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y canlynol:

- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- llunio’r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;

- sicrhau rheoleidd-dra trafodiadau ariannol;
- rheolaethau mewnol fel y mae’r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu eu bod yn angenrheidiol i alluogi datganiadau ariannol i gael ei lunio heb gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu wall;
- asesu gallu Comisiwn y Senedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio’r sail busnes gweithredol o gyfrifyddu oni bai bod y Prif Swyddog Cyfrifyddu yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw *archwilio, ardystio ac adrodd ar y* datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd heb gamddatganiad o bwys, boed oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys mewn adroddiad. Gall camddatganiadau godi o ganlyniad i dwyll neu wall ac ystyrir eu bod o bwys os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, ar eu pennau eu hunain neu gyda’i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achos o anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau. Byddaf yn cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- ymholi rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol Comisiwn y Senedd a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Comisiwn y Senedd sy'n ymwneud â:

- nodi a gwerthuso deddfau a rheoliadau a chydymffurfio â hwy ac a oeddent yn ymwybodol o achosion o anghydymffurfedd;
- dod o hyd i risgiau'n ymwneud â thwyll ac ymateb iddynt, ac a oes ganddynt wybodaeth am dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig;
- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau.

- ystyried, fel tîm archwilio, sut a lle y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, a dangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais y y potensial ar gyfer twyll yn y meysydd a ganlyn: cydnabyddiaeth refeniw, cydnabyddiaeth gwariant a phostio cyfnodolion anarferol:
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Comisiwn y Senedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Comisiwn y Senedd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Comisiwn y Senedd;
- cael dealltwriaeth o berthynas partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'r datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu a oeddent yn cydymffurfio â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- ymholi rheolwyr, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd Comisiwn y Senedd, y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Bwrdd Gweithredol;
- mynd i'r afael â'r risg o dwyll a all godi os yw rheolwyr yn diystyru rheolaethau, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r penderfyniadau a wneir wrth gyflwyno amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso

rhesymeg busnes trafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu sydd y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu deddfau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau twyll posibl i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau i fod yn effro i arwyddion o dwyll neu anghydymffurfedd â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Comisiwn y Senedd, a natur, amseriad a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Mae disgrifiad ychwanegol o gyfrifoldebau'r archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol ar gael ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol: **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau archwilio eraill

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd resymol bod y Datganiad o Gyflenwad yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 ac mae'n dangos nad aed dros y cyfansymiau hynny.

Mae yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodiadau ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, ymhlith materion eraill, gan gynnwys diffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Adrian Crompton**
Archwilydd Cyffredinol Cymru
**Dyddiad: 14 Gorffennaf 2026**

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall,
Caerdydd
CF10 4BZ

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chadw a sicrhau cywirdeb gwefan Senedd Cymru; nid yw'r gwaith y mae Archwilwyr yn ymgymryd ag ef yn ystyried y materion hyn ac, oherwydd hyn, nid yw Archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a allai fod wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno am y tro cyntaf ar y wefan.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg wreiddiol yw'r fersiwn hon. Senedd Cymru sy'n gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

**Dathlu Dydd Gŵyl Dewi 2026**
Penwythnos o weithgareddau i'r teulu, teithiau a gweithdai yn y Senedd.



# Datganiadau ariannol



# Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026***

| **Incwm o weithrediadau** | **Nodyn** | **2025-26 £'000** | **2024-25 £'000** |
|---|---|---|---|
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | SOS 05 | 38 | 72 |
| **Cyfanswm yr incwm gweithredu** | | **38** | **72** |
| **Gwariant gweithredu** | | | |
| Costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff | 2a | 41,776 | 38,241 |
| Costau eraill yr Aelodau | 2b | 13,003 | 11,823 |
| Costau cyllid Pensiwn yr Aelodau | 2a a 5 | (284) | 231 |
| Dibrisiant a thaliadau amhariad | 3 | 4,905 | 4,873 |
| Cost cyllid | 3 | 597 | 608 |
| Costau gweinyddol eraill | 3 | 10,170 | 13,275 |
| **Cyfanswm y gwariant gweithredu** | | **70,167** | **69,051** |
| | | | |
| **Gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth** | SOS 02 | **70,129** | **68,979** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall** | | | |
| Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | |
| Enillion actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn | 2a a 5 | (2,943) | (5,515) |
| Enillion net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (4,362) | (100) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **62,824** | **63,364** |

Mae'r holl weithgareddau'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion na cholledion sylweddol heblaw'r rhai sydd wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 175-206 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol

***Ar 31 Mawrth 2026***

| **Asedau anghyfredol:** | **Nodyn** | **31 Mawrth 2026 £'000** | **31 Mawrth 2025 £'000** |
|---|---|---|---|
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 79,252 | 69,697 |
| Asedau hawl-i-ddefnyddio | 10 | 61,299 | 63,155 |
| Ased pensiwn | 5 | 7,438 | 4,211 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **147,989** | **137,063** |
| **Asedau cyfredol:** | | | |
| Stocrestrau | | 16 | 15 |
| Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | 2,570 | 2,267 |
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | 7 | 241 | 350 |
| **Cyfanswm yr asedau cyfredol** | | **2,827** | **2,632** |
| **Cyfanswm yr asedau** | | **150,816** | **139,695** |
| **Rhwymedigaethau cyfredol:** | | | |
| Symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | (5,544) | (5,437) |
| Rhwymedigaethau les | 10 | (1,778) | (1,736) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(7,322)** | **(7,173)** |
| **Cyfanswm yr asedau namyn y rhwymedigaethau cyfredol** | | **143,494** | **132,522** |
| **Rhwymedigaethau anghyfredol:** | | | |
| Darpariaethau | 9 | (370) | (144) |
| Rhwymedigaethau les | 10 | (60,673) | (62,304) |
| **Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol** | | **(61,043)** | **(62,448)** |
| **Cyfanswm yr asedau namyn cyfanswm y rhwymedigaethau** | | **82,451** | **70,074** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill:** | | | |
| Y Gronfa Gyffredinol | | 35,431 | 30,643 |
| Y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn | 5 | 7,438 | 4,211 |
| Y Gronfa Ailbrisio wrth Gefn | | 39,582 | 35,220 |

| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill:** | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr ecwiti** | | **82,451** | **70,074** |

Mae'r Comisiwn yn cadw'r cronfeydd wrth gefn a ganlyn:

- Y Gronfa Gyffredinol sy'n cynrychioli cyfanswm yr asedau namyn rhwymedigaethau'r Comisiwn, i'r graddau nad yw'r cyfanswm yn cael ei gynrychioli gan gronfeydd wrth gefn ac eitemau cyllido eraill.
- Mae'r Gronfa Bensiwn wrth Gefn yn dangos y newid o ran enillion neu golledion actiwaraidd ar rwymedigaethau'r cynllun pensiwn (a gydnabyddir yn y Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr).
- Mae'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn yn gronfa nad yw'n gronfa arian parod a grëwyd i adlewyrchu gwir werth asedau'r Comisiwn pan fo gwerth marchnadol categori penodol o ased yn fwy neu'n llai na gwerth ased o'r fath ar yr adeg y caiff ei gofnodi yn y llyfrau cyfrifon.

**Manon Bonner**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd**
**Dyddiad: 13 Gorffennaf 2026**

Mae'r nodiadau ar dudalennau 175-206 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad Llif Arian

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026***

| | Nodyn | 2025-26 £'000 | 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| Gwariant gweithredu net | SOS 02 | (70,129) | (68,979) |
| **Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn rhai arian parod:** | | | |
| Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad | 4 | 2,886 | 2,875 |
| Asedau hawl-i-ddefnyddio – dibrisiant | 10 | 2,019 | 1,998 |
| Colled wrth waredu asedau | 4 | - | - |
| (Cynnydd) / gostyngiad mewn stocrestrau | | (1) | (1) |
| Gostyngiad / (Cynnydd) mewn symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn | 6 | (303) | (18) |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | | - | - |
| Cynnydd mewn symiau masnachol a symiau taladwy eraill | 8 | 107 | 952 |
| (Gostyngiad) / Cynnydd mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | SOS 03 | 109 | (74) |
| (Gostyngiad) / Cynnydd mewn rhwymedigaethau les | 10 | 164 | - |
| Llog ar rwymedigaethau les | | 597 | 608 |
| Defnyddio / creu darpariaethau | | 226 | - |
| Costau cyllid pensiynau | 5 | (284) | 231 |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu** | | **(64,609)** | **(62,408)** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | 4 | (8,079) | (1,176) |
| Asedau hawl-i-ddefnyddio – ychwanegiadau | | (163) | - |
| **All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi** | | **(8,242)** | **(1,176)** |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (cyflenwad) | | 74,600 | 65,476 |
| O Gronfa Gyfunol Cymru (taliadau uniongyrchol) | SOS 02 | 842 | 795 |
| Taliadau i Gronfa Gyfunol Cymru | SOS 03 | (350) | (276) |
| Llog banc (yn daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru) | | 0 | (3) |
| Talu rhwymedigaethau les | 10 | (2,350) | (2,340) |
| **Mewnlif arian parod net o weithgareddau cyllido** | | **72,579** | **63,658** |
| Cynnydd net mewn arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod | SOS 03 | (109) | 74 |

| | Nodyn | 2025-26 £'000 | 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|
| Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 7 | 350 | 276 |
| **Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | **7** | **241** | **350** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 175-206 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr

***Am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026***

| | Nodyn | Y Gronfa Gyffredinol £'000 | Y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn £'000 | Y Gronfa Bensiwn Wrth Gefn £'000 | Ecwiti Trethdalwyr £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2024** | | **33,467** | **35,120** | **(1,073)** | **67,514** |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SOS 02 | (68,979) | 100 | 5,515 | (63,364) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 5 | 231 | - | (231) | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 67,100 | | | 67,100 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (1,624) | | | (1,624) |
| Taliadau uniongyrchol | SOS 02 | 795 | | | 795 |
| Incwm na ellir ei gadw | SOS 02 | 3 | | | 3 |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (350) | | | (350) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2025** | | **30,643** | **35,220** | **4,211** | **70,074** |
| Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn | SOS 02 | (70,129) | 4,362 | 2,943 | (62,824) |
| Trosglwyddo rhwng cronfeydd wrth gefn | 5 | (284) | - | 284 | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad (awdurdodedig) | SOS 03 | 76,846 | | | 76,846 |
| Cyflenwad (heb ei dynnu) | SOS 03 | (2,246) | | | (2,246) |
| Taliadau uniongyrchol | SOS 02 | 842 | | | 842 |
| Incwm na ellir ei gadw | SOS 02 | | | | |
| Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | | | | |
| Cyflenwad | | (241) | | | (241) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2026** | | **35,431** | **39,582** | **7,438** | **82,451** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 175-206 yn rhan o'r cyfrifon hyn

# Nodiadau i gyd-fynd â’r Cyfrifon

## 01. Datganiad ar y polisïau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn ar sail gronnus yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2025-26 a addaswyd yn briodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a’r Comisiwn fel y pennir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae’r polisïau cyfrifyddu a geir yn y Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn dilyn y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) i’r graddau y bo hynny’n ystyrlon ac yn briodol i’r sector cyhoeddus.

Pan fo’r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol ar gyfer amgylchiadau penodol y Comisiwn er mwyn cyflwyno darlun cywir a theg. Cafodd polisïau cyfrifyddu’r Comisiwn eu cymhwyso’n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyriwyd eu bod yn berthnasol i’r cyfrifon. Yn ogystal â’r datganiadau a baratowyd o dan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, mae’r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i’r Comisiwn lunio dau ddatganiad cyflenwad ychwanegol.

### Adolygiad o safonau newydd

Cwblhawyd adolygiad o bob safon a dehongliad newydd a ddyroddwyd ac a ddaeth i rym yn 2025-26 gan y Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) a'r Pwyllgor Dehongli Adroddiadau Ariannol Rhyngwladol (IFRIC) yn ystod y flwyddyn.

Roedd y safonau a'r dehongliadau/diwygiadau a ganlyn, nad ydynt wedi'u cymhwyso yn y datganiadau ariannol hyn, wedi’u dyroddi ond nid oedd pob un ohonynt mewn grym eto:

- Amendments to the Classification and Measurement of Financial Instruments – Amendments to IFRS 9 Financial Instruments and IFRS 7 Financial Instruments: Disclosures
- Contracts Referencing Nature-dependent Electricity – Amendments to IFRS 9 and IFRS 7
- IFRS 18 Presentation and Disclosure in Financial Statements
- IFRS 19 Subsidiaries without Public Accountability: Disclosures

- IAS 21 The Effects of Changes in Foreign Exchange Rates

Nid yw'r Comisiwn yn disgwyl y byddai mabwysiadu'r safonau a'r dehongliadau yn cael effaith sylweddol ar y datganiadau ariannol mewn cyfnodau yn y dyfodol, er bod IFRS 18 yn debygol o effeithio ar y ffordd y cânt eu cyflwyno.

**IFRS 16 – Lesoedd**

Mae'r Comisiwn wedi mabwysiadu lefel de-minimis o £20,000 ac wedi dewis peidio â chymhwyso IFRS 16 i asedau anghyffyrddadwy gan fod y rhain wedi'u dileu'n llawn.

## Confensiwn cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i ystyried ailbrisio asedau sefydlog yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol a meysydd dyfarnu

Er mwyn paratoi'r datganiadau ariannol mae angen gwneud amrywiaeth o amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y gwerthoedd a adroddir ar ddiwedd y flwyddyn a'r gwariant a'r incwm o fewn y flwyddyn.

Mae tri amcangyfrif cyfrifyddu allweddol a maes dyfarnu o fewn y cyfrifon hyn:

1. **Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd** - mae gwerth teg yr ased pensiwn yn seiliedig ar dybiaethau arwyddocaol a chyfrifiadau cymhleth a wnaed gan Actiwari. Rhoddir manylion yn Nodyn 02.A, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Cynllun Pensiwn a'r polisïau cyfrifyddu perthnasol.

2. **Darpariaethau** - gwneir darpariaethau pan fo'n fwy tebygol na pheidio, ym marn y Swyddog Cyfrifyddu, fod rhwymedigaeth ariannol yn bodoli na ellir ei hamcangyfrif yn gywir ar ddiwedd y flwyddyn. Mae manylion y darpariaethau a gedwir ar ddiwedd y flwyddyn wedi'u nodi yn Nodyn 09 gyda rhagor o wybodaeth yn y polisi cyfrifyddu perthnasol.

3. **Prisio asedau tir ac eiddo -** rhaid dal asedau eiddo a thir ar werth teg a gallant amrywio'n sylweddol. Mae'r Comisiwn yn cyflogi prisiwr cymwysedig i wneud y gwaith hwn ar ei ran. Rhoddir manylion yn Nodyn 04 a'r polisïau cyfrifyddu perthnasol.

## Eiddo, offer a chyfarpar

Caiff asedau eu cyfalafu pan ystyrir bod gwariant ar offer a/neu brosiectau yn bodloni’r profion cydnabyddiaeth a nodir yn Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 16 ar eiddo, offer a chyfarpar. Nid yw'r Comisiwn yn defnyddio de-minimis i gyfalafu ond mae'n cynnal asesiad sylweddol o drafodion i gyfalafu gwariant pan fo'n briodol gwneud hynny.

Caiff tir ac adeiladau eu prisio gan gwmni proffesiynol bob tair blynedd o leiaf. Ni chaiff asedau cyffyrddadwy eraill eu hailbrisio, ond cedwir hwy ar werth teg, gan na fyddai’r symiau dan sylw yn arwyddocaol, ym marn y Comisiwn.

## Amhariad asedau

Caiff eiddo, offer  a chyfarpar eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau na phriodolir gwerth uwch i asedau na’u symiau adenilladwy. Os yw’r gwerthoedd hyn yn llai na gwerth cario’r asedau, codir colled amhariad yn gyntaf ar y Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn heb godi unrhyw falans gweddilliol ar y Datganiad o Wariant Net.

## Asedau sy’n cael eu hadeiladu

Caiff gwerth asedau sy’n cael eu hadeiladu ei nodi yn seiliedig ar gost hanesyddol oherwydd ystyrir bod hyn yn cyfateb mewn modd derbyniol i werth teg. Pan ddechreuir defnyddio’r ased, fe’i trosglwyddir i’r categori priodol a chaiff ei gynnwys mewn ailbrisiadau ac adolygiadau amhariad dilynol.

## Asedau a gafwyd yn rhodd

Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu yn ôl eu gwerth cyfredol wrth eu derbyn, ac fel rheol cânt eu hailbrisio yn yr un modd ag asedau a brynwyd. Mae gwerth asedau a gafwyd yn rhodd yn cael ei gredydu â gwerth y rhodd wreiddiol ac ailbrisiadau dilynol. Caiff gwerth asedau a gafwyd yn rhodd ei gynnwys yn y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn unol â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi o dan y Rhaglen Clear Line of Sight.

## Dibrisiant

Nid yw asedau sy'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio. Cyfrifir dibrisiant ar gyfradd a fydd yn dileu gwerth adeiladau ac asedau cyffyrddadwy eraill drwy randaliadau cyfartal dros gyfnod eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig. Caiff asedau eu dadansoddi yn ôl eu helfennau perthnasol i adlewyrchu eu hoes

economaidd amrywiol. Ni chânt eu dibrisio yn ystod y flwyddyn y cawsant eu caffael.

Mae oes asedau fel arfer fel a ganlyn, ond adolygir hyn fesul achos fel bod oes ddefnyddiol yn adlewyrchu'r amgylchiadau ar y pryd:

| Ased | Oes ased |
|---|---|
| Tir ac Adeiladau | 50 mlynedd neu gyfnod arall a bennir gan brisiwr cymwysedig (RICS) |
| Offer sefydlog: | 10 mlynedd, neu gyfnod arall a bennir gan y cyflenwr pan gânt eu prynu neu eu prisio. |
| Gosodiadau a ffitiadau: | Pump i ddeng mlynedd |
| Offer TGCh, cyfarpar clyweledol a darlledu: | Pedair i ddeng mlynedd |
| Seilwaith TGCh: | 10 mlynedd |
| Asedau anghyffyrddadwy (meddalwedd): | Pum mlynedd |
| Cerbydau modur: | Pedair blynedd |
| Asedau a gafwyd yn rhodd: | I'w hasesu ar ôl eu cael |

## Yr elfen ddibrisiant a wireddir o'r gronfa ailbrisio wrth gefn

Cyfrifir dibrisiant ar sail gwerth asedau ar ôl eu hailbrisio. Gall elfen o'r dibrisiant, felly, ddeillio o gynnydd yn y prisiad, a byddai'n fwy na'r dibrisiant a fyddai'n cael ei gyfrifo ar sail cost hanesyddol yr asedau. Byddai'r swm sy'n ymwneud â swm dros ben o'r fath yn enillion a wireddir ar y prisiad, ac mae i'w drosglwyddo o'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn i'r Gronfa Gyffredinol, pan gaiff yr ased ei waredu.

## Cydrannau asedau

Caiff asedau eiddo eu hadolygu drwy'r prisiadau proffesiynol bob tair blynedd i gadarnhau a oes gan unrhyw ran o'r ased oes ddefnyddiol sylweddol wahanol. Os felly, bydd yr ased yn cael ei rhannu'n gydrannau a bydd y rhannau gwahanol yn cael eu dibrisio dros eu priod oes ddefnyddiol. Caiff asedau a brynwyd yn y cyfnod interim eu hadolygu gan y tîm Cyllid a Rheolwyr Asedau.

Mae asedau TGCh wedi'u "grwpio" yn TGCh; offer clyweledol a darlledu; seilwaith TGCh, ac asedau anghyffyrddadwy. Bydd y gwahanol rannau yn cael eu dibrisio dros eu priod oes ddefnyddiol.

## Datganiad o wariant cynhwysfawr

Mae incwm a chostau gweithredu yn ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Comisiwn. Mae incwm yn cynnwys taliadau am nwyddau a gwasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn i gwsmeriaid allanol. Dangosir incwm a chostau heb gynnwys TAW os gellir ei hadennill.

Mae'r Comisiwn yn ad-dalu Aelodau mewn cysylltiad â threuliau neu gostau yr eir iddynt ym mhob blwyddyn ariannol yn unol â'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau, yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau amrywiol ar dreuliau neu gostau a nodir yn y Penderfyniad.

## Stocrestrau

Nodir stocrestrau, gan gynnwys nwyddau i'w hailwerthu yn siop y Comisiwn, yn ôl y pris cost neu'r gwerth gwireddadwy net, pa un bynnag yw'r isaf.

## Cyfnewid arian tramor

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosi i sterling yn ôl y cyfraddau cyfnewid sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion dan sylw.

## Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

Mae arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod yn cynnwys arian mewn llaw a balansau cyfredol gyda Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth a chyda banciau masnachol y gellir eu trosi'n hawdd yn symiau penodol o arian parod ac nad oes risg sylweddol y bydd eu gwerth yn newid.

## Lesoedd

**Asedau ar les**: Contract neu ran o gontract sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased am gyfnod o amser yn gyfnewid am gydnabyddiaeth yw les.

Caiff yr asedau ar les eu mesur yn y lle cyntaf ar sail swm sy'n gyfwerth â'u gwerth teg neu werth presennol y taliadau les isaf, pa un bynnag sydd leiaf. Yn dilyn y gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff yr asedau eu hailbrisio, yn unol â'r polisi cyfrifyddu ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar.

Ar ddyddiad cychwyn y les, mae'r Comisiwn yn cydnabod ased hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaeth les ar y fantolen. Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei fesur ar bris cost, sy'n cynnwys mesuriad cychwynnol o'r rhwymedigaeth les, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol y mae'r Comisiwn yn mynd

iddynt, ac unrhyw daliadau les a wneir cyn dyddiad cychwyn y les (heb gynnwys unrhyw gymhellion a dderbyniwyd).

Mae’r Comisiwn yn dibrisio’r asedau hawl-i-ddefnyddio ar sail linol o ddyddiad cychwyn y les hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl-i-ddefnyddio neu ddiwedd cyfnod y les, pa un bynnag sydd gynharaf. Mae'r Comisiwn hefyd yn asesu'r ased hawl-i-ddefnyddio ar gyfer amhariad pan fo dangosyddion o'r fath yn bodoli. Ar y dyddiad cychwyn, mae’r Comisiwn yn mesur y rhwymedigaeth les ar sail gwerth presennol y taliadau les sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, wedi’u disgowntio gan ddefnyddio’r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y les os yw’r gyfradd honno ar gael yn rhwydd neu gyfradd fenthyca gynyddrannol y Comisiwn. Y gyfradd fenthyca gynyddrannol a ddefnyddiwyd (a bennir gan Drysorlys Ei Fawrhydi) yw 5.32 y cant ar gyfer lesoedd hirdymor newydd sy’n cychwyn, neu addasiadau neu ailfesuriadau perthnasol i lesoedd i’w hailfesur yn y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026, neu 3.64 y cant ar gyfer lesoedd byrdymor.

Mae taliadau les sydd wedi’u cynnwys wrth fesur y rhwymedigaeth les yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys rhai sefydlog mewn sylwedd), taliadau amrywiol yn seiliedig ar fynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol a thaliadau sy’n deillio o opsiynau y ceir sicrwydd rhesymol y cânt eu harfer.

Ar ôl y mesuriad cychwynnol, bydd y rhwymedigaeth yn cael ei lleihau ar gyfer taliadau a wnaed a'i chynyddu ar gyfer llog. Bydd yn cael ei hailfesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sefydlog mewn sylwedd. Pan fydd y rhwymedigaeth les yn cael ei hailfesur, mae'r addasiad cyfatebol yn cael ei adlewyrchu yn yr ased hawl-i-ddefnyddio, neu elw a cholled os yw'r ased hawl-i-ddefnyddio eisoes wedi'i ostwng i sero. Mae'r Comisiwn wedi dewis rhoi cyfrif ar gyfer lesoedd byrdymor (llai na blwyddyn) a lesoedd asedau â gwerth isel (llai nag £20,000) gan ddefnyddio'r dulliau cyflym ymarferol. Yn lle cydnabod ased hawl-i-ddefnyddio a rhwymedigaeth les, mae’r taliadau mewn perthynas â’r rhain yn cael eu cydnabod fel traul mewn elw neu golled ar sail linol dros gyfnod y les. Ar y datganiad o’r sefyllfa ariannol, mae asedau hawl-i-ddefnyddio wedi’u cynnwys o dan eiddo, offer a chyfarpar ac mae rhwymedigaethau les wedi’u cynnwys o dan symiau masnachol a symiau taladwy eraill.

Caiff asedau a ddelir o dan lesoedd eraill eu dosbarthu fel lesoedd gweithredol ac nid ydynt yn cael eu cydnabod yn y datganiad o’r sefyllfa ariannol.

**Taliadau les**: Caiff rhenti sy'n daladwy o dan les weithredol eu codi ar y datganiad o wariant cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn berthnasol iddo.

## Adroddiadau fesul rhan

Mae'r rheolwyr yn fodlon nad oes gan y sefydliad unrhyw ddatgeliad ychwanegol i'w wneud o dan ofynion IFRS 8.

## Buddion i gyflogeion

Mae cyflogau, taliadau a chost yr holl fuddion sy'n ymwneud â chyflogaeth, gan gynnwys y rhwymedigaeth sy'n gysylltiedig â gwyliau blynyddol heb eu hawlio, yn cael eu cydnabod yn ystod cyfnod gwasanaeth cyflogeion. Mae'r rhwymedigaeth am wyliau blynyddol heb eu cymryd yn seiliedig ar nifer cyfartalog y diwrnodau a gronnwyd fesul aelod o staff wedi'i luosi â chyflog canolrifol y staff.

## Pensiynau

### Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill

Mae staff a gyflogir yn uniongyrchol gan y Comisiwn a staff a secondiwyd i'r Comisiwn yn gymwys i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill. **https://www.civilservicepensionscheme.org.uk/about-us/resource-accounts/**

Cynlluniau buddion diffiniedig aml-gyflogwr nas ariennir yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill – a elwir yn "Alpha" – ac ni all y Senedd nodi ei chyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiwyd Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil gan actiwari'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Gallwch ofyn am fanylion cyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Pensiwn Sifil drwy gysylltu â: **resourceaccounts@civilservicepensionscheme.org.uk**.

### Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Sefydlwyd cynllun pensiwn i Aelodau o'r Senedd yn wreiddiol o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998* ac mae'n parhau i fod mewn grym o dan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Cynllun buddion diffiniedig yw Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (y Cynllun), ac mae'n gymwys i gyflogau'r Aelodau a chyflogau unrhyw ddeiliaid swyddi. Telir cost pensiynau Aelodau o'r Senedd drwy gyfrwng taliadau a gyfrifir ar sail gronnus, a chaiff y rhwymedigaeth i dalu buddion yn y dyfodol ei chodi ar gyfrifon y Cynllun. Byddai unrhyw rai o

rwymedigaethau'r gronfa sy'n deillio o ddiffyg o ran asedau yn cael eu talu ar hyn o bryd drwy gynyddu'r swm y mae'r Comisiwn yn ei ariannu. Wrth gyflwyno adroddiad ar asedau a rhwymedigaethau'r Cynllun, mae'r Comisiwn wedi cadw at Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 (IAS 19). Yn unol ag IAS 19, rhaid i Ymddiriedolwyr y Cynllun gynnal dadansoddiad sensitifrwydd ar gyfer pob tybiaeth actiwariaid arwyddocaol ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ddangos sut y byddai'r newidiadau yn y dybiaeth actiwariaid berthnasol ar y dyddiad hwnnw wedi effeithio ar y rhwymedigaeth o ran buddion diffiniedig.

Mae'r Cynllun yn paratoi ei gyfrifon blynyddol ei hun, sydd ar wahân i gyfrifon y Comisiwn, ac mae'r rhain i'w gweld ar wefan y Senedd.[25]

## Treth ar Werth

Caiff y Comisiwn ei drin fel un o Gyrff y Goron at ddibenion *Deddf Treth ar Werth 1994* a, chan hynny, at ddibenion adran 41 o'r Ddeddf honno (cymhwyso i'r Goron), caiff ei drin fel un o adrannau'r llywodraeth, a gall y TAW ar nwyddau a gwasanaethau a gyflenwir i'r Senedd fod yn adenilladwy. Codir TAW ar y Comisiwn yn ôl y gyfradd safonol yng nghyswllt ei weithgareddau masnachol, fel siop y Senedd.

## Darpariaethau

Mae'r Comisiwn yn cydnabod darpariaeth yn llawn yn y flwyddyn pan ddigwyddodd y digwyddiad sy'n creu rhwymedigaeth.

## Dadfeilio

Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn yn meddiannu Tŷ Hywel fel eiddo lesddaliadol yn ogystal â swyddfeydd yn y gogledd. Dim ond pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol i adfer yr eiddo i'w gyflwr gwreiddiol ar ddiwedd y les y cydnabyddir darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau, a phan ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r gost.

## Croniadau a Rhagdaliadau

Pan fo nwyddau neu wasanaethau wedi'u darparu neu eu derbyn, ond nad oes anfoneb wedi'i phrosesu eto ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, nodir croniad perthnasol yn y datganiadau ariannol. Caiff taliadau a wneir ar gyfer nwyddau,

[25] **https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/aelodau-o-r-senedd-adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon/**

gwasanaethau, neu eitemau cyfalaf sy'n ymwneud â chyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol eu cofnodi fel rhagdaliadau ar y Fantolen, a'u hamorteiddio ar ôl hynny (eu codi ar wariant) dros y cyfnod y caiff y budd ei wireddu.

## 02. A - Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

Mae gwybodaeth am nifer yr Aelodau a staff (a datgeliadau perthnasol eraill) i'w chael yn yr adran Atebolrwydd – Staff a thaliadau.

### Costau sy'n gysylltiedig â'r Aelodau a staff

***Tabl 9: Mae costau staff yn cynnwys***

| Categori | Staff<br>£'000 | Aelodau a deiliaid swyddi<br>£'000 | Cyfanswm 2025-26<br>£'000 | Cyfanswm 2024-25<br>£'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Cyflogau** | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 23,217 | 5,938 | 29,155 | 27,391 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 664 | - | 664 | 464 |
| Staff ar secondiad | 116 | - | 116 | 52 |
| **Costau nawdd cymdeithasol** | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 3,178 | 852 | 4,030 | 3,153 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 87 | - | 87 | 48 |
| Staff ar secondiad | 16 | - | 16 | 5 |
| **Costau pensiwn eraill** | | | | |
| Staff parhaol, Aelodau a deiliaid swyddi | 6,597 | 1,040 | 7,637 | 7,157 |
| Staff Dros Dro a Staff Asiantaeth | 154 | - | 154 | 118 |
| Staff ar secondiad | 33 | - | 33 | 11 |
| **Is-gyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff** | **34,062** | **7,830** | **41,892** | **38,399** |
| Namyn yr adenillion am y secondiadau allanol | (116) | - | (116) | (158) |
| **Cyfanswm costau cyflogau Aelodau, deiliaid swyddi a staff** | **33,946** | **7,830** | **41,776** | **38,241** |

Ni wnaed unrhyw daliadau diswyddo i staff y Comisiwn yn 2025-26 (2024-5, un taliad.)

Y Comisiwn sy'n talu cyflogau'r holl Aelodau o'r Senedd a deiliaid swyddi, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, fel yr esbonnir yn yr Adroddiad Taliadau yn y cyfrifon hyn. Caiff y symiau a delir i Weinidogion Cymru eu datgelu yng nghyfrifon adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru. Ar 31 Mawrth 2026, roedd 60 Aelod o'r Senedd yn eu swyddi. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd 34 Aelod o'r Senedd yn dal swyddi a oedd yn cael cyflog ychwanegol, fel y pennwyd gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd, ac roedd 14 ohonynt yn ffurfio'r Cabinet: un Prif Weinidog, wyth Ysgrifennydd Cabinet (Gweinidogion Cymru), pedwar Gweinidog (dirprwy Weinidogion Cymru), ac un Cwnsler Cyffredinol.

## Trefniadau Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Ar gyfer 2025-26, roedd cyfraniadau cyflogwr o £6,742,894.71 yn daladwy i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (2024-25, £6,235,490.27) ar 28.97 y cant o enillion pensiynadwy. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer, yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion sy'n cronni yn 2025-26 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol ac nid y buddion i'w talu yn ystod y cyfnod hwn i aelodau sydd eisoes yn bensiynwyr.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £39,342.98 i un neu ragor o'r tri darparwr pensiwn rhanddeiliaid penodedig ar y panel. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8 y cant i 14.75 y cant.

Mae'r cyflogwr hefyd yn rhoi cyfraniad o hyd at 3 y cant o enillion pensiynadwy i gyfateb i gyfraniadau'r cyflogai. At hynny, roedd cyfraniadau cyflogwr o £1,645.90, sef 0.5% o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r Prif Gynllun Pensiwn i dalu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol ar gyfer y rhai sy'n marw yn y swydd neu'n ymddeol ar sail afiechyd. Y cyfraniadau a oedd yn daladwy i ddarparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £39,342.98. Rhag-dalwyd cyfraniadau o £0.00 ar y dyddiad hwnnw.

## Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd

Mae'r Senedd yn darparu cynllun buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998*. Mae adran 20(4) o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* ac Atodlen 11 iddi yn rhoi dilyniant i'r Cynllun. Nid yw *Deddf Llywodraeth Cymru 2006* wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am bennu cyflogau, lwfansau a phensiynau Aelodau o'r Senedd a'u staff. Mae manylion y cyflogau a'r lwfansau wedi'u cynnwys yn nogfen Penderfyniad y Bwrdd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2025.

Cyflwynodd y Bwrdd, fel rhan o'i Benderfyniad ar gyfer y Bumed Senedd, gynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa (CARE) newydd ar gyfer Aelodau. Cymeradwywyd y Cynllun gan Drysorlys Ei Fawrhydi yn unol â *Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013* ac fe'i cyflwynwyd gydag effaith o 6 Mai 2016.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion ar gyfer Aelodau o'r Senedd a deiliaid swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n ymuno â'r Senedd, oni bai ei fod yn benodol yn dewis peidio â gwneud hynny.

Ers dechrau'r Chweched Senedd, mae pob Aelod yn y Cynllun CARE. Mae gan y Cynllun gyfradd gronni o 1/50fed ac mae'r oedran pensiwn yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth. Cyfradd cyfraniad yr aelodau yw 10.5 y cant. Cafodd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 'Ddiogelwch Trosiannol', gan barhau i gael eu buddion wedi'u cyfrifo ar sail cyflog terfynol am bum mlynedd ychwanegol tan 6 Mai 2021. Cyfrannodd yr aelodau hyn naill ai 10 y cant neu 6 y cant ar gyfer y 40fed neu'r 50fed croniad yn y drefn honno tan 6 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'diogelwch trosiannol' a gynigiwyd i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a'r diffoddwyr tân wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'diogelwch trosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu'r darpariaethau a oedd yn arwain at driniaeth wahanol o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau a oedd wedi cyflawni'r cyfnod perthnasol o wasanaeth.

Y Bwrdd sy'n gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i gael gwared ar yr elfen wahaniaethol yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau diogelwch trosiannol a oedd ynddynt. Ymgynghorodd y Bwrdd â'r Aelodau yr oedd hyn yn effeithio arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Cafodd Aelodau yr oedd hyn yn effeithio arnynt gynnig dewis ar unwaith ym mlwyddyn dreth 2024/25 i aros yn y Cynllun CARE neu ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol ar gyfer cyfnod y Rhwymedi (6 Mai 2016 – 6 Mai 2021).

O 7 Mai 2021 ymlaen, mae'r holl Aelodau bellach yn y cynllun CARE.

Mae’r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65 oed, pa un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnwyd cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar oedran ymddeol arferol o 65 oed.

Caiff asedau’r Cynllun eu cadw ar wahân i asedau Comisiwn y Senedd, gan Mobius Life Limited, ac mae chwe rheolwr buddsoddi yn ymdrin â hwy. Mae’r buddsoddiadau’n cynnwys unedau mewn cronfeydd cyfun a reolir gan Baillie Gifford, Partners Group, Legal & General Asset Management, M&G Investments UK, Troy Asset Management ac Insight Investment. Mae’r Ymddiriedolwyr yn buddsoddi mewn dwy gronfa ecwiti, un yn gronfa mynegai ecwiti byd-eang oddefol wedi’i rhagfantoli ar sail arian cyfred nad yw’n cynnwys buddsoddiadau mewn tanwydd ffosil, a’r llall yn gronfa ecwiti byd-eang a reolir yn weithredol sy’n buddsoddi mewn cwmnïau sy’n gweithredu’n unol â Chytundeb Paris yn unig. Mae’r ymddiriedolwyr hefyd yn buddsoddi mewn dwy gronfa Twf Amrywiol, cronfa Marchnadoedd Preifat Aml-ased, cronfa Eiddo a dwy Gronfa Credyd Aml-sector. Mae’r Ymddiriedolwyr yn parhau i weithio tuag at eu hamcanion o ran ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, a’u hamcanion buddsoddi, i wella nodweddion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu y Cynllun a lleihau cyswllt uniongyrchol y Cynllun â’r sector olew a nwy.

Ar ôl cwblhau'r prisiad, gostyngodd cyfradd cyfraniad y cyflogwr sy'n daladwy gan y Senedd o 19.9 y cant i 18 y cant o gyflogau cyfanredol yr Aelodau. Roedd hyn yn adlewyrchu gwelliannau yn lefel ariannu'r cynllun a newidiadau yn rhagolygon y farchnad. Cyfradd cyfraniad yr Aelodau yw 10.5 y cant o’u cyflog.

Mae gan y Bwrdd Pensiynau amcanion cyllido ac mae’n cynnal prisiad cyllid bob tair blynedd i fonitro lefelau cyllido a rheoli costau'r Cynllun. Bydd y prisiad actiwaraidd nesaf fel ar 1 Ebrill 2026.

Y prif amcan cyllido yw cynnal cronfa o asedau y disgwylir iddi fod yn ddigonol i ddarparu'r buddion a addawyd i aelodau a'u buddiolwyr. Mae'r amcan hwn yn unol â chyngor Ymddiriedolwyr y Cynllun, gan ystyried cyngor gan yr Actiwari. Y nod yw sicrhau y telir am fuddion sy’n cronni yn ystod cyfranogiad aelodau yn y Cynllun a bod y taliadau a delir gan y Senedd ar gyfer buddion sy’n cronni yn rhesymol sefydlog dros gyfnod. Ymdrinnir â'r amcanion hyn drwy bennu cyfradd cyfraniadau a fynegir fel canran o'r cyflog pensiynadwy o'r enw'r Gyfradd Cyfraniad Safonol. Mae’r gyfradd safonol hon yn golygu y byddai’n ddigonol

cyllido'r buddion o dan y Cynllun, cyhyd ag y bo'r profiad hwnnw yn unol â'r tybiaethau actiwaraidd a wnaed. Yn dibynnu ar faint y gronfa gronedig a phrofiad gwirioneddol y Cynllun fel y'i datgelir gan y prisiadau actiwaraidd bob tair blynedd, efallai y bydd rhaid talu cyfraniadau mwy neu lai am gyfnod i ganiatáu, yn benodol, ar gyfer amorteiddio'r symiau dros ben neu'r diffygion.

Sefydlwyd y Cynllun Pensiwn ym 1999 ac mae'n anaeddfed, gydag incwm cyfraniadau yn dal i fod yn fwy na gwariant rheolaidd ar fuddion. Hyd cyfartalog rhwymedigaethau'r cynllun, wedi'i bwysoli, yw oddeutu 16 mlynedd.

***Tabl 10: Mae'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel a ganlyn***

| | Nodyn | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|---|
| Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | | (43,983) | (44,205) |
| Gwerth teg asedau'r cynllun | | 51,422 | 48,416 |
| **Gwarged net (rhwymedigaeth)** | | **7,439** | **4,211** |
| Swm yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol | | | |
| Rhwymedigaethau | | - | - |
| Asedau | | 7,439 | 4,211 |
| **Gwarged net (rhwymedigaeth)** | **5** | **7,439** | **4,211** |

***Tabl 11: Dadansoddiad o'r symiau a godwyd ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr***

| | 2025-26 £'000 | 2024-25 £'000 |
|---|---|---|
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 735 | 937 |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 2,482 | 2,291 |
| Llog ar asedau'r cynllun | (2,721) | (2,236) |
| Treuliau gweinyddol | 166 | 163 |
| | **662** | **1,155** |
| **Dyrannwyd yn y cyfrif fel a ganlyn:** | | |
| Costau pensiwn eraill | 946 | 924 |
| Costau cyllid pensiynau | (284) | 231 |
| | **662** | **1,155** |

***Tabl 12: Dadansoddiad o'r symiau a gydnabuwyd yn y Datganiad o'r Newidiadau yn Ecwiti'r Trethdalwyr (SCITE)***

| | 2025-26 £'000 | 2024-25 £'000 |
|---|---|---|
| (Colled) / enillion gwirioneddol namyn llog ar asedau'r cynllun | 805 | (885) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | (165) | (110) |
| Newidiadau mewn tybiaethau | 2,303 | 6,510 |
| **Enillion actiwaraidd net a gydnabyddir yn SCITE** | **2,943** | **5,515** |

***Tabl 13: Newidiadau yn y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Rhwymedigaethau ar 1 Ebrill | 44,205 | 48,158 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth (heb gynnwys cyfraniadau'r aelodau) | 735 | 937 |
| Cyfraniadau'r aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 552 | 534 |
| Buddion a dalwyd yn ystod y flwyddyn | (1,853) | (1,315) |
| Llog ar rwymedigaeth pensiwn | 2,482 | 2,291 |
| Colledion/(enillion) actiwaraidd | (2,138) | (6,400) |
| **Rhwymedigaethau ar 31 Mawrth** | **43,983** | **44,205** |

***Tabl 14: Newidiadau mewn asedau yn ystod y flwyddyn***

| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Asedau ar 1 Ebrill | 48,417 | 47,085 |
| Llog ar asedau'r cynllun | 2,721 | 2,236 |
| (Colled) / enillion gwirioneddol namyn llog ar asedau'r cynllun | 805 | (885) |
| Cyfraniadau'r cyflogwr | 946 | 924 |
| Cyfraniadau gan yr Aelodau (gan gynnwys symiau net a drosglwyddwyd i mewn) | 552 | 534 |
| Buddion a dalwyd a threuliau | (1,853) | (1,315) |
| Treuliau gweinyddol | (166) | (163) |
| **Gwerth teg asedau'r cynllun wrth gau'r cyfrifon ar 31 Mawrth** | **51,422** | **48,416** |

Mae'r Comisiwn yn disgwyl cyfrannu £1,687,234 at Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd yn 2026-27.

Dyma brif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun:

***Tabl 75: prif gategorïau asedau'r cynllun fel canran o holl asedau'r cynllun***

| | 2025-26 | 2024-25 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 50% | 50% |
| Buddsoddiadau amgen | 7% | 11% |
| Eiddo | 7% | 7% |
| Llog sefydlog ac arian parod | 37% | 32% |
| | **100%** | **100%** |

Mae asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi mewn amrywiaeth o gronfeydd. Cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn ystod 2024. Yn dilyn yr adolygiad, cytunodd y Bwrdd Pensiynau ar y strategaeth fuddsoddi bresennol.

Mae'r strategaeth bresennol yn targedu enillion buddsoddi ychydig yn uwch na'r strategaeth flaenorol, sy'n cefnogi'r tybiaethau prisio actiwaraidd (gan nodi bod y Cynllun yn parhau i fod â gwarged ar sail y prisiad cyfredol). Fodd bynnag, mae gan y strategaeth newydd broffil risg ychydig yn is o gymharu â'r strategaeth flaenorol (fel y'i mesurir gan y Gwerth mewn Perygl).

Mae'r rheolwyr a'r cronfeydd a ddefnyddiwyd i weithredu'r strategaeth newydd yn cynnig ffocws cryfach ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a gostyngiad sylweddol arall yng nghysylltiad yr asedau â'r sector olew a nwy.

Ni ddisgwylir i'r newid gael effaith sylweddol ar lefel yr enillion tymor hir disgwyliedig sy'n gysylltiedig â strategaeth fuddsoddi'r Cynllun, na pheryglu gallu'r Cynllun i dargedu'r lefel o elw buddsoddi yn y tymor hir fel sy'n ofynnol gan dybiaethau'r prisiad actiwaraidd.

Mae'r Bwrdd Pensiynau yn ymwybodol y gall elw buddsoddi fod yn anwadal yn y tymor byr, yn enwedig pan na fo sectorau penodol wedi'u cynnwys yn y portffolio. Felly, bydd yn parhau i adolygu'n rheolaidd enillion y strategaeth gyffredinol, a'r cronfeydd unigol, ac yn trafod unrhyw addasiadau sydd eu hangen â'i gynghorwyr buddsoddi.

Roedd y cronfeydd a ddelid ar 31 Mawrth 2026 fel a ganlyn:

- Legal & General FTSE TPI Global Fossil Fuel Exclusions Equity Index (GBP hedged)

- M&G Global Sustainable Paris Aligned
- Troy Trojan Ethical
- Baillie Gifford Defensive Growth
- Legal & General Managed Property
- Partners Group Generations
- M&G Global Sustainable Paris Aligned
- M&G Sustainable Total Return Credit Investment
- Insight Responsible Horizons Multi-Sector Credit
- Legal & General Cash (sylwer nad yw hyn yn rhan o ddyraniad asedau strategol y Cynllun ac y'i defnyddir ar sail ad hoc at ddibenion llif arian)

Cyfanswm gwerth marchnadol y Cronfeydd a fuddsoddwyd ar 31 Mawrth 2026 oedd £51.44 miliwn (31 Mawrth 2025, £48.43 miliwn).

Dros y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2026, cynhyrchodd portffolio buddsoddi'r Cynllun elw o tua 7.3 y cant. Sbardunwyd hyn gan enillion yng ngwerth pob dosbarth o asedau mawr yn ystod y cyfnod, yn enwedig ecwiti. Yr elw gwirioneddol ar fuddsoddiadau'r Cynllun yn ystod 2025-26 oedd enillion o £3.5 miliwn (2024-25, enillion o £1.4 miliwn).

Tanberfformiodd strategaeth fuddsoddi'r Cynllun yn erbyn marchnadoedd ecwiti byd-eang dros yr un cyfnod, y cynyddodd eu gwerth tua 16.4 y cant (mewn termau lleol), ond perfformiodd yn well na bondiau hirdymor Llywodraeth y DU (a wnaeth adennill tua 0.4 y cant). Perfformiodd y Cynllun yn well yn erbyn ei gyfradd ddisgownt (Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) plws 3.0 y cant), a wnaeth adennill tua 6.3 y cant.

## Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol:

***Tabl 16: Y prif dybiaethau actiwaraidd ar ddyddiad paratoi'r Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol***

| Tybiaeth | 31 Mawrth 2026 | 31 Mawrth 2025 |
|---|---|---|
| Y gyfradd ddisgownt | 6.10% | 5.65% |
| Y gyfradd ddisgownt uwchlaw'r cynnydd mewn enillion yn y dyfodol | 1.90% | 1.60% |
| Y gyfradd ddisgownt uwchlaw'r cynnydd mewn pensiynau yn y dyfodol (CPI) | 3.15% | 2.80% |
| Disgwyliad oes yn 65 oed (blynyddoedd): | | |
| Dynion | 23.7 | 23.6 |
| Menywod | 25.6 | 25.5 |
| Gweddwon | 24.5 | 24.4 |

## Sensitifrwydd i'r prif dybiaethau

Mae'r tabl a ganlyn yn nodi'r effaith ddangosol ar gyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd ar 31 Mawrth 2026 o ran y newidiadau yn y prif dybiaethau:

***Tabl 17: Effaith ddangosol ar gyfanswm y rhwymedigaeth actiwaraidd***

| Newidiadau yn y prif dybiaethau | Effaith fras | |
|---|---|---|
| | % | £ miliwn |
| Cyfradd ddisgownt + 0.5% y flwyddyn | -7% | -3.0 |
| Cyfradd ddisgownt – 0.5% y flwyddyn | + 8% | +3.3 |
| Enillion + 0.5% y flwyddyn | <1% | +0.2 |
| Enillion – 0.5% y flwyddyn | <1% | -0.1 |
| CPI + 0.5% y flwyddyn | + 7% | +3.0 |
| CPI – 0.5% y flwyddyn | -6% | -2.7 |
| Tybir bod hirhoedledd ar ôl ymddeol 2 flynedd yn fwy | + 6% | +2.4 |

Mae'r symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol fel a ganlyn:

***Tabl 18: Y symiau ar gyfer y cyfnod cyfredol a'r pedwar cyfnod blaenorol***

| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 | 31 Mawrth 2024 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 | 31 Mawrth 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhwymedigaeth buddion diffiniedig | 43,983 | 44,205 | 48,158 | 45,135 | 65,211 |
| Asedau'r cynllun | 51,422 | 48,416 | 47,085 | 42,801* | 46,166 |
| Gwarged net / (rhwymedigaeth) | 7,439 | 4,211 | (1,073) | (2,334)* | (19,045) |
| Enillion a cholledion profiad sy'n codi ar rwymedigaethau pensiwn | 165 | 110 | 990 | 3,536 | 229 |
| (Colled) / enillion gwirioneddol namyn llog ar asedau'r cynllun | 805 | (885) | 2,412 | (4,894)* | 2,233 |

**Mae ffigurau 2022-23 wedi'u hailddatgan i adlewyrchu'r gwerthoedd a gyhoeddwyd yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cynllun Pensiwn yr Aelodau ar gyfer 2022-23*

Mae rhagor o wybodaeth am Gynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd[26] ar gael yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y cynllun am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

[26] **https://senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio/ynghylch-aelodau-o-r-senedd/cynllun-pensiwn-aelodau-o-r-senedd-y-cynllun/**

## 02. B – Costau eraill yr Aelodau

Mae costau eraill yr Aelodau, sef £13.100 miliwn (2024-25, £11.823 miliwn), yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn cynnwys y canlynol:

| Categori | 2025-26 £'000 | 2024-25 £'000 |
|---|---:|---:|
| Costau swyddfa | 1,237 | 1,398 |
| Costau ychwanegol | 367 | 317 |
| Costau staff yr Aelodau | 11,187 | 9,914 |
| Costau teithio | 212 | 194 |
| **Cyfanswm costau eraill yr Aelodau** | **13,003** | **11,823** |

Mae costau staff yr Aelodau yn cynnwys dau daliad diswyddo yn 2025-26 ar gost o £23,863 (2024-25, £28,840).

O 1 Ebrill 2023 ymlaen, newidiodd y cynllun pensiwn ar gyfer staff cymorth Aelodau o drefniant Rhanddeiliaid i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp. Mae'r cynllun yn gynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig gydag Aviva y mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad misol o 10 y cant iddo o'r cyflog gros ar gyfer staff cymorth Aelodau o'r Senedd. At hynny, o ddechrau'r Chweched Senedd, pan fydd aelod o staff cymorth yn dewis gwneud cyfraniad personol i'w bensiwn, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad sy'n cyfateb i'r cyfraniadau personol hynny hyd at uchafswm o dri y cant o'r cyflog gwirioneddol a delir. Mae'r Cynllun yn cydymffurfio â deddfwriaeth ar gofrestru awtomatig a dyddiad ailgyflwyno diwethaf y Cynllun oedd 1 Ionawr 2026. Y cyfraniadau pensiwn cyflogwr a dalwyd yn 2025-26 oedd £1,216,897 (2024-25 £1,098,509).

## 02. C – Y Comisiynydd Safonau

Yn unol â thelerau *Mesur Comisiynydd Safonau Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2009*, y Comisiwn sy'n talu cyflog y Comisiynydd Safonau (“y Comisiynydd”) ac unrhyw gostau cysylltiedig y mae’r Comisiynydd yn mynd iddynt. Y Comisiwn sy'n gyfrifol am sicrhau bod y cyflog a'r lwfansau y cytunwyd arnynt yn nhelerau ac amodau penodi'r Comisiynydd, ac unrhyw rwymedigaethau rhesymol y mae’n mynd iddynt wrth gyflawni ei ddyletswyddau, yn cael eu codi ar Gronfa Gyfunol Cymru.

Douglas Bain CBE TD, a benodwyd o 1 Ebrill 2021 ymlaen, yw’r Comisiynydd. Mae'r penodiad yn para am gyfnod o chwe blynedd. Mae rhagor o wybodaeth am Douglas Bain a'i waith fel Comisiynydd ar gael yn **http://comisiynyddsafonaucymru.org/**

### Adnoddau cymorth

Caiff swydd y Comisiynydd ei chefnogi gan aelod o staff y Comisiwn sydd ar secondiad i gynorthwyo gyda'r gwaith achos sy’n cael ei ystyried, i ddarparu gwasanaeth i gwsmeriaid ac i sicrhau bod y swyddfa'n cael ei rhedeg yn effeithiol. Ar gyfer 2025-26, rhoddodd yr aelod hwn o staff 80 y cant o'i amser i gefnogi'r Comisiynydd. Mae'r tabl isod yn rhoi manylion yr amser a'r costau yr aeth y Comisiynydd iddynt a chostau cyflog ei staff cymorth. Ceisiodd y Comisiynydd gyngor cyfreithiol gan staff y Comisiwn lle’r oedd hynny’n briodol.

### Oriau a chostau staffio

| Natur y gost | 2025-26 | | 2024-25 | |
|---|---|---|---|---|
| | Oriau | Costau | Oriau | Costau |
| Oriau'r Comisiynydd | 402.75 | | 517 | |
| Costau cyflogaeth y Comisiynydd / Comisiynydd Dros Dro | | £36,531 | | £42,101 |
| **Costau a godwyd ar Gronfa Gyfunol Cymru**[27] | | **£36,531** | | **£42,101** |
| Costau cyflogaeth staff cymorth | | £64,665 | | £76,368 |
| Costau cymorth cyfreithiol a chymorth proffesiynol arall | | £4,117 | | £8,555 |

[27] Aed i daliadau teithio a chynhaliaeth o £24.30 yn ystod 2024-25 na chafodd eu hailgodi ar Gronfa Gyfunol Cymru. Cafodd hyn ei gywiro yn 2025-26.

| Natur y gost | 2025-26 | | 2024-25 | |
|---|---|---|---|---|
| **Costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i adnoddau a ddarparwyd gan y Comisiwn** | | **£105,313** | | **£127,024** |

## 03. Costau gweinyddol eraill

Mae'r costau gweinyddol eraill o £15.4 miliwn (2024-25, £18.8 miliwn) yn y Datganiad o Wariant Cynhwysfawr yn cynnwys:

| | 2025-26 £'000 | 2024-25 £'000 |
|---|---|---|
| Lesoedd – adeiladau | 7 | 493 |
| Lesoedd – eraill | 51 | 48 |
| Costau adeiladau a chyfleusterau | 2,235 | 6,812 |
| Costau TGCh | 3,780 | 3,429 |
| Treuliau gweinyddol | 3,058 | 1,963 |
| Costau sy'n gysylltiedig â staff | 548 | 530 |
| **Costau gweinyddol eraill** | **10,170** | **13,275** |
| Taliadau llog ar asedau hawl-i-ddefnyddio | 597 | 608 |
| Dibrisiant, amorteiddiad a thaliadau amhariad | 4,905 | 4,873 |
| **Cyfanswm y costau gweinyddol eraill** | **15,672** | **18,756** |

Amcangyfrifir mai £73,954 (2024-25, £69,737) yw cost archwilio'r datganiadau ariannol hyn yn allanol. Ni chynhaliwyd dim gwaith archwilio anstatudol ychwanegol yn ystod 2025-26 (2024-25, dim).

## 04. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Tir ac adeiladau | TGCh | Gosodiadau a ffitiadau[28] | Asedau sy'n cael eu hadeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2025** | **66,621** | **5,879** | **2,427** | **333** | **75,260** |
| Ychwanegiadau | 5,562 | 1,157 | 1,360 | 0 | 8,079 |
| Ailbrisiwyd | 2,221 | - | - | - | 2,221 |
| Gwarediadau | - | (1,652) | - | - | (1,652) |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **74,404** | **5,384** | **3,787** | **333** | **83,908** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2025** | **(1)** | **(4,151)** | **(1,411)** | **-** | **(5,563)** |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | (2,141) | (577) | (168) | - | (2,886) |
| Ailbrisiwyd | 2,141 | - | - | - | 2,141 |
| Gwarediadau | - | 1,652 | - | - | 1,652 |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **(1)** | **(3,076)** | **(1,579)** | **-** | **(4,656)** |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2026** | **74,403** | **2,308** | **2,208** | **333** | **79,252** |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2025** | **66,620** | **1,728** | **1,016** | **333** | **69,697** |

Gwerth cario y tir a'r adeiladau a ddelir o dan drefniadau les ar 31 Mawrth 2026 yw £3.6 miliwn (31 Mawrth 2025, £5.3 miliwn).

Cynhaliwyd ailbrisiad o dir ac adeiladau gan T Merrifield MRICS o Avison Young (UK) Limited ar 31 Mawrth 2026, yn unol â Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r Comisiwn yn cynnal ailbrisiad llawn bob tair blynedd. Roedd y prisiad ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026 yn brisiad llawn ac yn adlewyrchu'r gwariant sylweddol ar adeilad y Senedd yn ystod y flwyddyn ariannol yn ogystal â chynnydd chwyddiannol a diwygiadau BCIS.

Mae ailbrisio wedi arwain at gynnydd yng ngwerth Tir ac Adeiladau yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol o £4.4 miliwn o gymharu â'r gwerth cario a

[28] Mae gosodiadau a ffitiadau yn cynnwys 'asedau a gafwyd yn rhodd', gan gynnwys y Byrllysg a roddwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

fyddai wedi cael ei gydnabod pe bai'r asedau wedi cael eu cario o dan y model cost.

Ni nododd yr adolygiadau amhariad unrhyw arwyddion o amhariad ar 31 Mawrth 2026 ac felly ni nodwyd unrhyw amhariadau.

Mae adolygiad o'r Gofrestr Asedau Sefydlog wedi'i gynnal ac mae wedi nodi gwarediadau o £1.652 miliwn. Mae hyn yn ymwneud ag asedau sydd â gwerth cario o ddim ac nad ydynt yn cael eu defnyddio mwyach.

| | Tir ac adeiladau £’000 | TGCh £’000 | Gosodiadau a ffitiadau[29] £’000 | Asedau sy’n cael eu hadeiladu £’000 | Cyfanswm £’000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **68,660** | **8,655** | **2,019** | **252** | **79,586** |
| Ychwanegiadau | - | 687 | 127 | 362 | 1,176 |
| Ailddosbarthwyd | - | - | 281 | (281) | - |
| Ailbrisiwyd | (2,039) | - | - | - | (2,039) |
| Gwarediadau | - | (3,463) | - | - | (3,463) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **66,621** | **5,879** | **2,427** | **333** | **75,260** |
| **Dibrisiant** | | | | | |
| **Ar 1 Ebrill 2024** | **0** | **(6,985)** | **(1,305)** | **-** | **(8,290)** |
| Codwyd yn ystod y flwyddyn | (2,140) | (629) | (106) | - | (2,875) |
| Ailbrisiwyd | 2,139 | - | - | - | 2,139 |
| Gwarediadau | - | 3,463 | - | - | 3,463 |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **(1)** | **(4,151)** | **(1,411)** | **-** | **(5,563)** |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2025** | **66,619** | **1,729** | **1,016** | **333** | **69,697** |
| **Gwerth cario ar 31 Mawrth 2024** | **68,660** | **1,670** | **714** | **252** | **71,296** |

[29] Mae gosodiadau a ffitiadau yn cynnwys ‘asedau a gafwyd yn rhodd’, gan gynnwys y Byrllysg a roddwyd gan Senedd De Cymru Newydd pan agorwyd y Senedd.

## 05. Ased pensiwn

| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 4,211 | (1,073) |
| Gostyngiad mewn darpariaeth | 2,944 | 5,515 |
| Costau cyllid pensiynau | 284 | (231) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **7,439** | **4,211** |

O dan IAS 19, cydnabyddir gwarged o £7.438 miliwn ar gyfer Cynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd. Mae'r gwarged yn digwydd oherwydd bod gwerth teg asedau'r cynllun yn fwy na gwerth presennol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig. Mae'r Comisiwn yn rhagweld y gellid adennill y gwarged dros y 4 i 15 mlynedd nesaf drwy ostyngiad mewn cyfraniadau. Ceir rhagor o wybodaeth yn Nodyn 02.A.

## 06. Symiau masnachol a symiau eraill i'w derbyn

| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| Symiau masnachol i'w derbyn | 79 | 26 |
| Symiau eraill i'w derbyn | 41 | 58 |
| Rhagdaliadau | 2,052 | 1,878 |
| TAW y gellir ei hadennill | 398 | 305 |
| **Cyfanswm** | **2,570** | **2,267** |

Y swm sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn yw £9653.80

## 07. Arian parod ac eitemau sy'n cyfateb i arian parod

| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Ebrill | 350 | 276 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (109) | 74 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **241** | **350** |
| Roedd y balansau a ganlyn ar 31 Mawrth yn cael eu dal yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 581 | 350 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | (340) | 0 |

| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth** | **241** | **350** |

## 08. Symiau masnachol taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau sy'n ddyledus cyn pen blwyddyn: | | |
| TAW yn daladwy | 10 | 8 |
| Trethi eraill a nawdd cymdeithasol | 1,893 | 1600 |
| Symiau masnachol taladwy | 251 | 570 |
| Croniadau | 3,203 | 2,909 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 241 | 350 |
| | **5,544** | **5,437** |

Nid oedd unrhyw symiau taladwy yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn.

## 09. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| Dadfeilio | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| **Balans ar 1 Ebrill** | **144** | **144** |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 226 | - |
| Darpariaeth a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | - |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **370** | **144** |

Rhoddir rhagor o wybodaeth am ddarpariaeth dadfeilio yn Nodyn 01 – Datganiad o bolisïau cyfrifyddu.

## 10. Ymrwymiadau o dan lesoedd

### (a) Lesoedd gweithredol

Yn y tabl isod, nodir yr ymrwymiadau o dan lesoedd gweithredol i dalu rhenti yn ystod y flwyddyn ar ôl blwyddyn y cyfrifon hyn, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod yr aed i'r taliadau.

| Categori | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
| --- | --- | --- |
| Tir ac adeiladau: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | - | - |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | - | - |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| | **-** | **-** |
| Eraill – car, argraffwyr a chopïwyr: | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 10 | 19 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 26 | 11 |
| | **36** | **30** |

### (b) Lesoedd cyllid

Mae dadansoddiad yn y tablau isod o'r ymrwymiadau a ddosberthir fel lesoedd yn unol â chymhwysiad IFRS 16. Nid oes gan y Comisiwn unrhyw lesoedd cyllid eraill. Ychwanegwyd dwy les yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26 (dim yn 2024-25), ar gyfer copïwyr a thorwyr cardiau.

Mae'r risg hylifedd yn y dadansoddiad aeddfedrwydd o'r ased hawl-i-ddefnyddio yn fach iawn o ystyried bod y Comisiwn yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru ar sail cyllideb sy'n darparu ar gyfer costau gwasanaethu'r les.

| Asedau hawl-i-ddefnyddio | Adeiladau | Technoleg Gwybodaeth | Offer a Pheiriannau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Ar 1 Ebrill 2025 | 63,127 | 21 | 7 | 63,155 |
| Ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn | 0 | 160 | 0 | 160 |
| Ailfesur lesoedd presennol | | | 4 | 4 |
| Cost dibrisiant | (1,974) | (41) | (5) | (2,020) |
| **Ar 31 Mawrth 2026** | **61,153** | **140** | **6** | **61,299** |

| Dadansoddiad aeddfedrwydd | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 (ailddatganedig) £'000 |
|---|---|---|
| **Adeiladau** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 2,311 | 2,311 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 9,242 | 9,200 |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 60,086 | 62,397 |
| Namyn yr elfen log | (9,337) | (9,928) |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | **62,303** | **64,023** |
| **Arall** | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 46 | 17 |
| Yn hwyrach na blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 109 | |
| Yn hwyrach na phum mlynedd | 0 | 0 |
| *Namyn* yr elfen log | (7) | 0 |
| Gwerth presennol rhwymedigaethau | **148** | **17** |
| Cyfanswm gwerth presennol rhwymedigaethau | **62,451** | **64,040** |
| Rhan gyfredol | 1,778 | 1,736 |
| Rhan nad yw'n gyfredol | 60,673 | 62,304 |

| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Cyfanswm yr all-lif arian parod ar gyfer lesoedd | 2,350 | 2,340 |

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys TAW

## 11. Ymrwymiadau cyfalaf ac ymrwymiadau eraill

Roedd un ymrwymiad cyfalaf o dan gontract ar 31 Mawrth 2026 mewn perthynas â'r cytundeb cyn datblygu ar gyfer Bae 32. Mae gwerth y cytundeb hwn wedi'i gapio ar £1.63 miliwn ac eir i'r costau yn ystod 2026-27 (dim, 31 Mawrth 2025).

## 12. Ymrwymiadau ariannol eraill

Mae'r Comisiwn yn barti i amrywiol gontractau sy'n cyfeirio at derfynu'n gynnar ond nid oes taliadau wedi'u pennu ar gyfer hynny. Mae'n debygol y byddai terfynu'n gynnar yn cyfrif fel torri contract, ac mae'n debygol y byddai hawl gan y contractwr i hawlio iawndal am golli elw mewn perthynas â'r gwaith nad yw wedi'i gwblhau. Gan fod y ffigur hwn yn amrywio ar gyfer pob contract, nid yw'r contractau hyn wedi'u cynnwys yn y nodyn hwn.

## 13. Rhwymedigaethau amodol

Pe bai'r Comisiwn yn terfynu'r les ar Dŷ Hywel, byddai'r Landlord yn pennu a oes angen unrhyw waith cyweirio ar ddiwedd y les. Mae unrhyw gostau yn anhysbys ar hyn o bryd ac yn dibynnu ar ganlyniad proses gaffael Bae 32.

## 14. Offerynnau ariannol

Nid yw'r Comisiwn yn dyroddi nac yn masnachu mewn offerynnau ariannol megis benthyciadau ac nid yw wedi benthyca arian. Mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid o Gronfa Gyfunol Cymru am ei ofynion arian parod ac, felly, nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd, nid oes ganddo adneuon arwyddocaol, ac mae'r holl asedau a'r rhwymedigaethau perthnasol mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg arian cyfred.

## 15. Trafodion â phartïon cysylltiedig

Mae gan y Comisiwn nifer o drafodion gyda Llywodraeth Cymru ac adrannau eraill y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi. Yn ogystal, mae trafodion rheolaidd yn digwydd gyda Chynllun Pensiwn Aelodau o'r Senedd (gweler yr adroddiad Staff a thaliadau, tudalen 132).

Gall y Senedd roi cyfarwyddydau arbennig neu gyffredinol i'r Comisiwn at ddibenion arfer swyddogaethau Comisiwn y Senedd, neu mewn cysylltiad â hynny.

Nid yw'r Comisiwn wedi cael unrhyw drafodion perthnasol uniongyrchol â Chomisiynwyr, uwch-reolwyr nac unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd nac ag unrhyw sefydliad lle mae gan Gomisiynwyr, uwch-reolwyr neu unrhyw aelodau agos o'u teuluoedd swydd sy'n eu galluogi i reoli neu ddylanwadu ar benderfyniadau.

Sefydlwyd Bwrdd Taliadau (y Bwrdd) annibynnol gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010 (y Bwrdd). Y Bwrdd sy'n pennu cyflogau a lwfansau pob Aelod o'r Senedd a phob deiliad swydd. O'r blaen, roedd hawl gan yr Aelodau i hawlio lwfansau am gyflogi aelodau o'r teulu. Ni chaniateir iddynt mwyach hawlio lwfansau ar gyfer unrhyw staff newydd sy'n aelodau o'r teulu; bydd lwfansau i'r rhai mewn swydd yn dod i ben ar ddiwedd y Senedd bresennol

Y Comisiwn sy'n penderfynu ar y polisïau ar gyflogau ac amodau staff y Comisiwn. Nid oes cyfyngiadau mewn perthynas â chyflogi aelodau o deuluoedd y Comisiynwyr neu'r uwch-reolwyr gan y Comisiwn.

Mae'r Cyfarwyddwyr wedi datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau trydydd parti arwyddocaol a allai wrthdaro â'u dyletswyddau. Mae Cofrestr o Fuddiannau Ariannol a Buddiannau Eraill yr Aelodau ar gael yn **www.senedd.cymru** a **www.senedd.wales.**

# Atodiad – adrodd ar reoleidd-dra

## Adrodd ar reoleidd-dra

Caiff cyllideb Comisiwn y Senedd ei hawdurdodi gan y Senedd drwy gynigion cyllideb ffurfiol. Mae'r cynigion hyn yn awdurdodi gwariant cyfalaf a refeniw y Comisiwn, yn ogystal ag incwm y gellir ei gadw a'r swm y gellir ei dynnu o Gronfa Gyfunol Cymru.

Paratowyd y Datganiad a'r nodiadau ategol yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol 2025-2026 y Llywodraeth a addaswyd yn briodol ar gyfer cyfansoddiad Senedd Cymru a'r Comisiwn fel y pennir yn *Neddf Llywodraeth Cymru 2006*.

**SOS 3 Cysoni'r gofyniad arian parod net â'r cynnydd mewn arian parod**

| | 31 Mawrth 2026 £'000 | 31 Mawrth 2025 £'000 |
|---|---|---|
| Gofyniad arian parod net | (74,359) | (65,126) |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | 76,846 | 67,100 |
| Symiau sy'n ddyledus o Gronfa Gyfunol Cymru sydd heb eu tynnu | (2,246) | (1,624) |
| Symiau a dalwyd i'r Gronfa Gyfunol | (350) | (276) |
| **Cynnydd mewn arian parod** | **(109)** | **74** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

Derbyniwyd swm o £4,466  (2024-25, £3,360) mewn cysylltiad â llog banc ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026. Yn unol â *Deddf Llywodraeth Cymru 2006*, ni chaniateir i'r Comisiwn gadw'r swm hwn a bydd yn ei ddychwelyd i Gronfa Gyfunol Cymru.

## SOS 04 Cysoni Alldro Adnoddau Net â'r Gofyniad Arian Parod Net 2025-26

| | Nodyn | Cyllideb | Alldro | Cyfanswm alldro net o gymharu â'r gyllideb: tanwariant/(gorwariant) | Alldro 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Alldro Adnoddau Net | SOS 01 | 80,616 | 77,529 | 3,087 | 69,357 |
| Arian parod sydd ei angen ar gyfer rhent | | 2,330 | 2,350 | (20) | 2,340 |
| Addasiadau croniadau | | - | - | | - |
| Eitemau nad ydynt yn arian parod | Gweler isod | (6,100) | (5,608) | (492) | (5,712) |
| Newidiadau mewn cyfalaf gweithio | | - | 88 | (88) | (859) |
| **Gofyniad arian parod net** | | **76,846** | **74,359** | **2,487** | **65,126** |

| ***Eitemau nad ydynt yn arian parod*** | Nodyn | Cyllideb | Alldro | Alldro o gymharu â'r gyllideb 2025-26 | Alldro 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Dibrisiant ac amorteiddiad a dadgydnabod | 4 a 10 | (5,000) | (4,905) | (95) | (4,873) |
| Taliadau llog a dibrisiant mewn perthynas ag IFRS 16 | 3 | (600) | (597) | (3) | (608) |
| Addasiadau les IFRS 16 | | 0 | (164) | 164 | 0 |
| Costau cyllid pensiynau a newidiadau eraill mewn darpariaeth | 5 | (500) | 58 | (558) | (231) |
| | | **(6,100)** | **(5,608)** | **(492)** | **(5,712)** |

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.

## SOS 05 Dadansoddiad o'r incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru

| | Cyllideb 2025-26 £'000 | Alldro 2025-26 £'000 | Alldro 2024-25 £'000 |
|---|---|---|---|
| Incwm gweithredu y gellir ei gadw | (61) | (38) | 75 |
| Is-gyfanswm | (61) | (38) | 75 |
| Swm a gadwyd | (61) | (38) | 72 |
| **Swm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru** | **-** | **-** | **3** |

Ni chafwyd unrhyw incwm gweithredu arall yn 2025-26 (dim yn 2024-25).

Mae'r tabl hwn yn destun archwiliad.





Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales